



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Caffael cydweithredol fodern yn seiliedig ar ganlyniadau:

canllaw cyfreithiol ymarferol i gomisiynwyr
a swyddogion caffael

Chwefror 2019



Leading Social Services
in Wales
Yn arwain
Gwasanaethau Cymdeithasol
yng Nghymru



WLGA • CLILC



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswilt

gan Léonie Cowen
o Léonie Cowen & Associates
30 Kingswood Avenue
Queens Park
London NW6 2DP
Ff. 020 7604 5870
E. admin@lcowen.co.uk

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru



@GofCymdeithasol

© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad a phwrpas canllaw cyfreithiol

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg cyfreithiol a chanllaw ymarfer da ar gyfer y gyfundrefn caffael i wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n fwriad iddo fod yn ddefnyddiol i gomisiynwyr, swyddogion caffael ac eraill sy'n ymwneud â chaffael pob math o ofal cymdeithasol yng Nghymru, os ydynt yn newydd i'r pwnc neu â rhywfaint o brofiad. Dylai fod yn ddefnyddiol i swyddogion mewn llywodraeth leol neu fyrdau ieuchyd.

Mae'r canllaw hwn wedi ei seilio ar y gyfraith fel mae'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr a lle ceir gwrthdaro rhwng y ddwy awdurdodaeth, rhoddir blaenoriaeth i gyfraith Cymru.

O'i ddefnyddio'n gywir mae'r hyblygrwydd yn y RCC (gweler Diffiniadau) ar gyfer gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler Diffiniadau) yn cefnogi gallu cyflawni caffael modern, sy'n seiliedig ar gael canlyniadau wedi ei ffocysu ar y person ac sy'n fwy arloesol. Mae'r canllaw hwn yn edrych, ac yn esbonio'r cyfleoedd i gyflawni'r rhain drwy ddefnyddio'r cyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd ac arloesedd yn y RCC.

Er mai ffocws y canllaw hwn yw hyrwyddo a datblygu arferion caffael effeithiol, mae'n bwysig pwysleisio fod comisiynu yn gyrru caffael. Dylai datblygu gwasanaeth a'r rhan helaeth o'r arloesedd ddigwydd yn ystod y cam comisiynu gan y dylai comisiynwyr weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio datrysiad gwasanaeth addas i ymateb i'r anghenion a chyflawni'r canlyniad gofynnol i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth. Pan mae'r comisiynwyr wedi egluro'r rhain a'u gofynion gwasanaeth dylent weithio gyda'u cydweithwyr caffael, cyfreithiol a chydweithwyr eraill i ddylunio proses caffael mwyaf effeithiol i sicrhau'r gwasanaethau a nodwyd. Y gobaith yw y bydd y canllaw hwn yn hysbysu dyluniad y trefniadau caffael mwyaf effeithiol, a galluogi comisiynwyr i wneud y defnydd mwyaf o'r hyblygrwydd a gyflwynwyd gan y rheoliadau caffael cyhoeddus 2015, sydd yn gymharol newydd o hyd.

Yr amcan yw darparu canllaw hygyrch fydd comisiynwyr a'u cydweithwyr yn gallu troi ato fel bo'r angen neu ei ddarllen yn ei gryswth. Yn sgil hyn mae ychydig o ailadrodd i gynorthwyo'r darllenydd sydd ddim am ddarllen y canllaw o'i ddechrau. Amcan y canllaw yw disgrifio'r gyfraith dechnegol a materion mewn dull sy'n ddealladwy i ddarllenyddwyr llewys ac i chwalu'r fyth bod y gyfraith yn creu rhwystr, yn anhyblyg ac yn anefnyddiol i ymarferwyr (comisiynwyr a swyddogion caffael) i gyrraedd eu hamcanion.

Mae'r canllaw wedi ei dorri i sawl rhan, adrannau ac isadrannau (gweler y Cynnwys). Mae'n dechrau gyda Chrynodeb Gweithredol a Phrif Bwyntiau. Mae'r rhan gyntaf yn ganllaw cyffredinol ar 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Mae'r rhan yma yn disgrifio'r gyfraith gyfredol a sut i'w defnyddio mewn dull hyblyg, modern a chydweithredol. Mae'r ail ran yn fwy penodol i ofal cartref, ond fe ddylai fod yn ddefnyddiol yn fwy cyffredinol. Yn olaf ceir rhestr o Ddiffiniadau sy'n adnabod ac yn esbonio'r termau technegol a ddefnyddir.

Yn ogystal, bwriedir i'r canllaw gael ei ddarllen fel atodiad cyfreithiol i'r Pecyn Cymorth Gofal yn y Cartref (gweler **Diffiniadau**). Mae adrannau penodol yn y canllawiau sydd yn esbonio sut i gyrraedd dull modern o ofal yn y cartref sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r rhain yn adrannau sector arbenigol ond bydd llawer o'r canllawiau yn berthnasol i gomisiynwyr o wasanaethau eraill i oedolion a phlant.

Canllaw gyffredinol yw hwn. Nid yw'n cynnig cyngor i unrhyw berson na mudiad a ni ddylid dibynnu arno neu ei ddefnyddio yn lle sicrhau cyngor proffesiynol addas. Dylai darllenyddwyr gymryd

cyngor proffesiynol eu hunain. Mae'r ddogfen hon a phob copi ohoni yn eiddo, ac yn parhau'n eiddo, i Léonie Cowen & Associates. Cedwir yr hawlfraint gan Léonie Cowen & Associates. Mae gan Arolygaeth Gofal Cymru drwydded rydd a ddigyfyngiad i gyhoeddi hwn ar eu gwefan a chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru drwydded rydd a ddigyfyngiad (heb gost) i ddefnyddio dogfennau o'r math neu rannau o ddogfennau at bwrrpas ystyried y wybodaeth y pecyn cymorth yn unig. Mae'n gyfredol o 31^{ain} o Fai 2018.

Fy marn fy hun a fynegir a neb arall, nid ydynt yn adlewyrchu barn y CLILC na'r Bwrdd Comisiynu.

Léonie Cowen

Cynnwys

Rhagair	6
Crynodeb gweithredol a phrif bwyntiau	8
Rhan 1 Trosolwg o gyfraith caffael bresennol sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ac iechyd	9
Cyflwyniad a phrif bwyntiau	10
1.1 Beth yw caffael a chymhariaeth â grantiau?	11
1.2 Y gyfraith caffael gyhoeddus bresennol	13
1.3 Pennod 3, rheoliadau 2015 – cyfundrefnau caffael penodol, 'cyffyrddiad - ysgafn' y manylion (rheoliadau. 74-77)	15
1.4 Egwyddorion caffael yn gyffredinol a manylion a all fod yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' neu beidio	24
1.5 Anghysondebau – eithriadau yn cynnwys trafodion tir (rheoliad 10).	36
Rhan 2 Datblygu a chyflawni gweithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn' effeithiol ar gyfer gofal yn y cartref wedi ei reoleiddio.	37
2.1 Cyflwyniad a phrif bwyntiau yn cynnwys risg	38
2.2 Caffael gwasanaethau cefnogi gofal yn y cartref a'r broses caffael - trosolwg a phroblemau	40
2.3 Disgrifiad o gaffael gofal yn y cartref effeithiol	43
2.4 Y dogfennau cyfreithiol	58
2.5 Persbectif y darparwr- annog a datblygu'r farchnad	60
2.6 Materion diwedd cytundeb a pharatoi at y caffael nesaf	62
Rhan 3 Diffiniadau	63

Rhagair

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg cyfreithiol a chanllaw ymarfer da i gyfundrefn caffael gyhoeddus i wasanaethau cymdeithasol ac mae'r un mor gymwys i wasanaethau GIG. Fe'i comisiynwyd gan Fwrdd Comisiynu Cenedlaethol (Cymru) mewn partneriaeth ag Arolygaeth Gofal Cymru.

Gyrrir y cymhelliant dros gomisiynu'r canllaw hwn gan yr angen i sicrhau fod ymarfer caffael yn cefnogi cyflawni'r gwasanaethau yn unol ag amcanion polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu a'r broses caffael sydd ynghlwm â hyn, angen newid. Mae deall sut gall gwasanaeth mwy hyblyg, effeithiol a fforddiadwy gael ei gyflawni yn allweddol i wireddu'r uchelgais canolog a disgwyliad deddfwriaeth ddiweddar.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn anelu at wella llesiant pobl ac yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n gofyn iddynt weithio i hyrwyddo llesiant rheiny sydd angen gofal a chefnogaeth, neu ofalwyr sydd angen cefnogaeth. Mae llesiant yn gysyniad eang sy'n ymwneud â bob agwedd o fywyd person, gwnaiff llawer o wasanaethau roi cymorth i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth i sicrhau llesiant. Mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb i agenda llesiant mewn llawer o ffyrdd ac mae canlyniad personol wedi ei adnabod gan unigolyn yn gorfod cael ei gysylltu i'r rheswm sy'n tanategu unrhyw ymyriad.

Bydd gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar draws Cymru yn ffocysu ar ganlyniadau llesiant mae pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth eisiau ei gyflawni, ac ar hawliau a chyfrifoldebau pobl. Rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd ystyried canlyniadau llesiant personol pobl a chyd-gynhyrchu datrysiad gyda'r bobl eu hunain. Bydd asesiad anghenion yn ffocysu ar beth sy'n bwysig i berson ac amgylchiadau unigol person. Bydd ffocysu ar ganlyniadau llesiant pobl yn gyrru profiadau gwell a gwasanaethau gwell i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

Cyflwynodd y Ddeddf fframwaith canlyniadau cenedlaethol i osod cyfeiriad cenedlaethol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth yng Nghymru. Drwy ddefnyddio dangosyddion cyson ac y gellir eu cymharu, bydd hyn yn sicrhau mwy o dryloywder ynglŷn ag yw'r gwasanaethau yn gwella canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth yng Nghymru.

Bydd cyfraniad gwasanaethau i gyflawniad canlyniadau llesiant personol yn elfen bwysig yng nghomisiynu a phrosesau caffael yn nhermau gwerthuso gwasanaeth. Bydd gwerthuso cyflawniad canlyniad llesiant personol hefyd yn gysylltiedig â chyflawniad llesiant cenedlaethol. Mesurir llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth ar lefel cenedlaethol drwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol i wasanaethau cymdeithasol.

Yn y gorffennol mae rhai prosesau caffael wedi (yn anfwriadol) tanseilio ein gallu i gyflawni gwasanaethau personol, wedi ei ffocysu ar ganlyniadau ac wedi ei ddarparu gan weithlu safonol a chynaliadwy. Er enghraifft, mae'r defnydd dro ar ôl tro o gytundebau byr yn gallu creu anghysondeb mewn darparu gwasanaeth; creu straen i'r rhai sy'n ddibynnol ar y gwasanaeth ynghyd a'u gofalwyr; creu straen ychwanegol a biwrocratiaeth i ddarparwyr a ddylai fod yn ffocysu ar gyflawni gwasanaethau safonol; creu ansefydlogrwydd yn y gweithlu ac ychwanegu costau ychwanegol sylweddol i gomisiynwyr. Bydd dull modern yn canolbwyntio ar y canlyniadau i'r person angen cyfnod o gontract hirach ac agwedd wahanol tuag at ddrafftio contractau i gefnogi cyd-gynhyrchu a chyflawni. Yn hytrach nag agwedd tasg ac amser sy'n methu ymateb yn hyblyg i'r newid o ddydd i ddydd yn anghenion unigolion; rydym eisiau symud i agwedd lle mae staff y comisiynydd yn

gweithio gydag unigolion a gofalwyr i adnabod y canlyniadau gofynnol a galluogi darparwyr i ymarfer mwy o annibyniaeth i weithio gyda nhw i benderfynu sut bydd y canlyniadau yma'n cael eu cyflawni.

Yn y dyfodol rydym eisiau i gomisiynwyr weithio gyda chydweithwyr chaffael a'r gyfraith i ddylunio trefniadau caffael mwyaf effeithiol a wnaiff sicrhau gwasanaethau wedi eu personoli sy'n gallu cyflawni canlyniadau llesiant gofynnol yr unigolyn. Caiff y proses caffael ei hun ei werthuso yn erbyn y canlyniad hwn.

Dylai buddsoddi mewn dull mwy cydgynhyrchiol i gaffael drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid gyfrannu at reoli risg yn effeithiol ac at wasanaethau mwy effeithiol.

Gellir darllen y canllawiau hyn ar y cyd gyda'r Pecyn Cymorth Gofal yn y Cartref a ddatblygwyd gan Fwrdd Comisiynu Cenedlaethol a gellir ei ddarllen fel canllaw ar wahân. Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddylunio i gynorthwyo comisiynwyr a darparwyr i symud o ddull tasg ac amser i ddull wedi ei ffocysu mwy ar ganlyniadau ac yn cynnig gwasanaethau mwy personol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai dulliau gweithredu caffael ond maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o sialensiau.

Mae'r canllaw hwn yn gwneud cyfraniad pwysig drwy esbonio sut mae cyfundrefn 'cyffyrddiad ysgafn' a rheoliadau caffael yn gallu cael eu defnyddio'n greadigol i ddarparu atebion yn hytrach na rhwystrau i gaffael gwasanaethau sy'n ffocysu ar ganlyniadau personol. Y dasg yw creu fframwaith addas i gefnogi'r dull yma.

Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol

Arolygaeth Gofal Cymru

Crynodeb gweithredol a phrif bwyntiau

Mae'r canllaw mewn dau ran ac mae gan bob rhan sawl is-ran, esboniad cyffredinol o gyfraith caffael ac ymarfer ar gyfer gofal cymdeithasol sydd mewn grym ers Chwefror 2015 ac ychydig o ganllawiau penodol ar sut i gaffael gofal yn y cartref.

Rhan 1

Yn y rhan gyntaf hwn o'r canllaw rwyf yn nodi'r gyfraith bresennol ar gyfer caffael gwasanaeth 'cyffyrddiad ysgafn'. Ers 26^{ain} Chwefror ni ellir ymgymryd â chontractau newydd ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg, iechyd, sydd yn cael eu hadnabod fel 'cyffyrddiad ysgafn' ar lafar (gweler **Diffiniadau**) gyda gwerth uwchben y trothwy statudol (gweler **Diffiniadau**) (£615,278 yn bresennol) oni bai y ceir hysbyseb ar draws Ewrop sy'n cydymffurfio oherwydd y RCC (gweler **Diffiniadau**). Mae hwn yn newid sylweddol yn y gyfraith, er y roedd proses hysbyseb agored cystadleuol yn bodoli ar gyfer caffael mwy cyn 26^{ain} Chwefror, nid oedd yn ddull cyffredinol nag yn ofyniad cyfreithiol. Mae'r gyfraith newydd angen i gomisiynwyr a swyddogion caffael i ddeall effaith mae'r newid yn ei gael ar eu hymarfer bresennol ac yn y dyfodol, ac amrywio eu dull yn sgil y dirwedd gyfreithiol newydd.

Rhan 2

Mae'r rhan hwn o'r canllaw yn ffocysu ar ddisgrifio a dadansoddi materion penodol sydd yn codi mewn perthynas â chyflawni gweithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) effeithiol ar gyfer gofal yn y cartref wedi ei reoleiddio. Mae risgiau nodweddiadol hanesyddol a chyfredol ac anawsterau wrth gaffael y gwasanaeth hwn, a'r dulliau amgen, drwy ddefnyddio rhannau cynharach o'r canllaw, wedi eu nodi. Mae'r risgiau a'r buddion o'r dulliau amrywiol a'r ymarfer dda a argymhellir wedi eu disgrifio drwy ddefnyddio fy mhrofiad ymarferol ac adborth anecdotaidd gan gomisiynwyr a swyddogion caffael am eu profiad.

Rhan 1

Trosolwg o'r gyfraith caffael
gyfredol sydd yn berthnasol i ofal
cymdeithasol ac iechyd

Cyflwyniad a phrif bwyntiau

1. Ers 26^{ain} Chwefror 2015 ni ellir ymgymryd â chontractau newydd ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg, iechyd ('cyffyrddiad ysgafn' ar lafar (gweler **Diffiniadau**)) gyda gwerth uwchben y trothwy statudol (gweler **Diffiniadau**) (£615,278 yn bresennol) oni bai y ceir hysbyseb ar draws Ewrop sy'n cydymffurfiol oherwydd y RCC (gweler **Diffiniadau**). Mae hwn yn newid sylweddol yn y gyfraith, er roedd proses hysbyseb agored cystadleuol yn bodoli ar gyfer caffael mwy, nid oedd yn ddull cyffredinol nag yn ofniad cyfreithiol. Mae'r gyfraith newydd angen i gomisiynwyr a swyddogion caffael i ddeall effaith mae'r newid yn ei gael ar eu hymarfer bresennol ac yn y dyfodol, ac amrywio eu dull yn sgil y dirwedd gyfreithiol newydd.
2. Mae'r RCC (gweler **Diffiniadau**) yn darparu y dylid cael gwerth y contractau gan ddefnyddio cyfanswm gwerth yr holl gontractau ag ymgwymerwyd â nhw gyda'r Darparwr (gweler **Diffiniadau**). Bwriad hyn yw atal awdurdodau (gweler **Diffiniadau**) rhag ceisio osgoi'r RCC drwy rannu contractau'n artiffisial, ac mae'n golygu y bydd y RCC yn berthnasol i'r rhan fwyaf, os nad bob contract gofal, ac y bydd yr ymarfer cyn 2015 o ddefnyddio 'sbot' (gweler **Diffiniadau**) neu bryniant unigol o becynnau lle nad oes fframwaith neu SBD (gweler **Diffiniadau**) o bosib yn anghyfreithlon.
3. Caiiff contractau a gafaelwyd yn gywir ac ag ymgwymerwyd â nhw cyn 2015 barhau i'w diwedd. Bydd unrhyw amrywiad neu estyniad ôl Chwefror 2015 yn cael ei ddehongli o dan y gyfraith gyfredol. Bydd y rhan fwyaf o'r contractau hyn yn gorffen yn fuan (hyd yn oed wrth ystyried unrhyw ddarpariaeth i estyniad) neu byddant wedi gorffen felly mae dealltwriaeth o'r RCC wedi dod yn hanfodol i gomisiynwyr a swyddogion caffael.

1.1 Beth yw caffael a chymhariaeth â grantiau?

Beth yw caffael – Diffiniadau a'r Gwahaniaeth rhwng Contractio a Rhoi Grantiau?

Mae caffael yn cael ei ddiffinio ar lafar fel proses o gael neu brynu nwyddau a gwasanaethau. Yn y gyfraith gyffredin Gymraeg (a Saesneg) gellir ymgymryd â chontract yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Diffinnir caffael o dan y RCC (gweler **Diffiniadau**) fel caffaeliad drwy gontract cyhoeddus o waith, cyflenwadau neu wasanaethau gan un neu ragor o awdurdodau (gweler **Diffiniadau**) gan ddarparwyr (gweler **Diffiniadau**) a ddewiswyd gan yr awdurdod ar gyfer pwrpas cyhoeddus. Mae'n rhaid iddo fod yn gontract am arian iddo fod yn gontract cyhoeddus.

Mae'r RCC yn nodi bod y math hwn o gontract angen bod yn ysgrifenedig ac yn cael ei wneud o dan brosesau RCC os ydyw uwchben y trothwy perthnasol (gweler **Diffiniadau**). Mae gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi yn fewnol, contractau rhwng awdurdod a'i gwmni rheoledig (gweler **Diffiniadau**) a gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni drwy grantiau tu allan i ofynion y RCC.

Dylid nodi, er cyflawnder, bod math arall o gaffael. Mae hwn ar gyfer contract consesiwn. Contractau yw'r rhain ble mae'r darparwr yn cymryd risg gwasanaeth oherwydd bod yr awdurdod yn talu rhan o'r gost o gyflawni'r gwasanaeth yn unig, esiampl gofal cymdeithasol yw lle fyddai awdurdod yn trosglwyddo ei gartref gofal preswyl mewnol ei hun i ddarparwr ac yn contractio i brynu rhai o'r llefydd. I wneud y cartref yn hyfyw, mae'n rhaid i'r darparwr ddatblygu busnes gan brynwyr gofal annibynnol. Mae contractau consesiwn yn cael eu rheoli gan y Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 (SI 2016 273). Mae gwahaniaethau sylweddol mewn gwerth a darpariaethau eraill o'r darpariaethau yn y RCC. Mae'r contractau hyn tu allan i gylch gorchwyl y canllaw hwn.

Beth yw Grant a'r Gwahaniaethau Rhwng Grant a Chontract?

Nodweddion allweddol grant yw bod yr arian yn cael ei gynnig yn rhodd, nid oes ymrwymiad i roi grantiau yn y dyfodol, ac nid oes unrhyw ystyriaethau o reidrwydd (h.y. taliad am wasanaethau yn gyfnewid am y grant); oherwydd hyn gellir tynnu'r grant yn ôl ar ewyllys gan y person neu sefydliad sy'n ei roi (rhoddwr) ac nid oes unrhyw reidrwydd ar y sawl sy'n derbyn (person neu sefydliad sy'n derbyn y grant) i barhau i gyflawni'r gwasanaeth neu weithgaredd ar ôl y grant cychwynnol. Gall grant fod yn daliad referniw blynyddol sydd yn cael ei dalu mewn rhandaliadau neu sy'n cael ei dalu ar un tro, swm unigol a all fod yn rhan o grant cyfalaf neu ei dalu mewn rhandaliadau. Nid oes proses caffael ar gyfer grant.

Yn hanesyddol, mae grantiau rhwng awdurdodau a darparwyr wedi cael eu defnyddio yn fwy helaeth na maent rwan, hyd yn oed i sicrhau cyflawni gwasanaethau statudol. Mewn ymarfer, mae grantiau wedi cael eu dileu'n raddol ers rhai blynyddoedd ac wedi eu disodli gan gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mewn ymarfer, gall y llinell rhwng contract a grant fod yn aneglur iawn, ac nid yw bob tro'n hawdd gweld boed y berthynas yn un grant neu gontract. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau yn rhoi grantiau wedi eu cefnogi gan gytundebau lefel gwasanaeth ac ar sail cynllun treigl ac yn aml mae'n aneglur os yw'r rhain yn wirioneddol yn grantiau neu petaent yn cael eu herio buasai'r llys o'r farn eu bod yn gontractau. Dyfarnu uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**). Os yw'n gontract gall fod yn ddyfarniad uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**) gan dorri rheolau RCC neu gall hyd yn oed fod yn Gymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon (gweler **Diffiniadau**). Anhawster arall gyda grant yw mai egwyddor sylfaenol caffael yw bod awdurdodau i fod i drin yr holl ddarparwyr yn

gyfartal a pheidio gwahaniaethu o blaid unrhyw unigolyn neu grŵp o ddarparwyr. Os rhoddir grant i ddarparwr penodol a bod hynny'n rhoi mantais fasnachol i'r darparwr, er enghraifft drwy alluogi'r darparwr i brynu sgiliau arbenigol i gynorthwyo gyda'r cynnig, gall y darparwr gael ei wahardd rhag cynnig mewn unrhyw gaffael wedi hynny.

Felly, mae'n anniogel i ddefnyddio neu i barhau i ddefnyddio grant fel dull amgen i gaffael ac/neu ffordd o gwmpas y RCC.

Mae llawer o arian llywodraeth yn cael ei dalu i awdurdodau fel grant. Gall yr awdurdod ddefnyddio'r arian drwy ymgymryd â contractau gyda darparwyr. Os felly, mae'r contractau hyn yn ddarostyngedig i'r RCC ac mae'n rhaid i'r awdurdod fod yn ofalus ac ychwanegu yn eu proses caffael eu hunain yr amodau a thelerau perthnasol o'r grant llywodraeth, gan gynnwys caniatáu i'w contract eu hunain gael ei addasu neu ei derfynu os yw'r grant yn cael ei leihau neu'n dod i ben.

1.2 Cyfraith caffael gyhoeddus cyfredol

Cyflwyniad a Throsolwg – caffael cyhoeddus gofal cymdeithasol

Y gyfraith gyfredol yw Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015 (RCC) (gweler **Diffiniadau**). Daeth y rhain i rym ar 26 Chwefror 2015 gyda threfniadau pontio ar gyfer caffaeliadau a ddechreuodd cyn y dyddiad hwnnw.

Gwnaed y RCC (gweler **Diffiniadau**) o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2014 ar Gaffael Cyhoeddus (2014/24). Mae gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr un RCC (gweler **Diffiniadau**). Mae'r rheoliadau ychydig yn wahanol yn yr Alban.

Mae'r dull arbennig yn y RCC (gweler **Diffiniadau**) ar gyfer caffael gofal cymdeithasol, addysg, iechyd (a rhai gwasanaethau eraill), a adnabyddir fel 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) yn newydd. Fe'i cyflwynwyd gan y RCC. Mae wedi disodli'r broses flaenorol o gaffael gofal cymdeithasol, iechyd a sawl gwasanaeth arall a osodwyd gan reoliadau contractau cyhoeddus 2006 (a adnabuwyd ar lafar fel 'Rhan B' (gweler **Diffiniadau**)). Yn wahanol i Ran B mae'n rhaid i wasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' sydd uwchben y trothwy (gweler **Diffiniadau**) rŵan gael eu caffael (gweler **Diffiniadau**) gan rybudd Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (CSUE) (gweler **Diffiniadau**) a'u cyflawni yn unol â'r proses ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' yn y RCC.

Golyga hyn fod contract o'r fath yn gyfreithiol gadarn yn unig os yw proses sy'n cydymffurfio â RCC wedi cael ei ymgymryd, ac wedi ei ddechrau gyda hysbyseb ar draws Ewrop.

Ceir gwahanol drothwyon ar gyfer gwahanol fathau o gaffaeliadau. Mae'r trothwyon o dan y Gyfarwyddeb mewn Ewros ac wedi eu trosi i sterling. Maent yn newid yn unol â chwyddiant bob dwy flynedd. Mae trothwyon ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) yn uwch nag ar gyfer gwasanaethau eraill ac mae proses mwy hamddenol i ddyfarnu contractau.

I gaffaeliadau a ddechreuwyd rhwng 1^{af} Ionawr 2018 a 31^{ain} Rhagfyr 2019 mae'r trothwyon fel a ganlyn:-

- 'cyffyrddiad ysgafn'; £615,278;
- gwasanaethau eraill a chyflenwadau; £181,302; a
- gweithiau, £4,551,413

Os yw'r DU yn gadael y farchnad sengl ar 29ain Mawrth 2019, ddim yn mynd yn aelod o Gymdeithas Fasnach Rydd Ewrop neu'n peidio ymgymryd â threfniant arbennig gyda'r UE, gall y DU ddiddymu'r holl gyfundrefn caffael gyhoeddus. Mae'r llywodraeth wedi dweud (hyd yn hyn) y byddant yn cadw'r gyfraith gyfredol beth bynnag a ddaw ac mae'n debygol iawn y bydd y status quo yn aros yn ystod unrhyw gyfnod trosiannol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r RCC yn swyddogaeth ddatganoledig i Lywodraeth Cymru, er ar hyn o bryd mae hwn yn rym mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gymryd oddi ar y weinyddiaeth ddatganoledig. Er ei bod hi'n bosibl y bydd cyfraith Cymru a Lloegr yn dargyfeirio, ar hyn o bryd, mae sefyllfa ôl 29ain Mawrth yn hollol aneglur.

Egwyddorion Pwysig Cyfraith Ewropeaidd a Chontractau Cyhoeddus

Mae'n ofynnol gan gyfraith Ewropeaidd a'r DU i bob aelod-wladwriaeth yr UE ddangos ymddygiad teg, tryloyw a chystadleuol yn eu prosesau caffael. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu hymgorffori yn y

RCC (gweler **Diffiniadau**). Gwaherddir ymddygiad gwrth cystadleuol (h.y. ymddygiad sy'n gwyrddroi cystadleuaeth). Mae egwyddorion tegwch, tryloywder, triniaeth gyfartal a pheidio â gwahaniaethu yn berthnasol ac yn cael eu cynnwys yn y RCC (gweler **Diffiniadau**) (gweler rheoliad.18). Amcan pellach yw cyflawni arbedion mewn gwariant cyhoeddus drwy ragor o bwrcasu cystadleuol ar draws yr UE felly mae ceisio gwerth am arian yn bwysig.

Dylid dehongli'r ddeddfwriaeth mewn dull bwriadol (h.y. dylid rhagdybio ei fod yn berthnasol yn hytrach nag nad yw'n berthnasol).

Os gwneir dyfarniad uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**) yn groes i'r RCC gellir ei herio o fewn yr amserlen ar gyfer herio yn y RCC neu gellir ei ddirymu (h.y. gellir ei herio unrhyw amser)

Mae 'cyffyrddiad ysgafn' yn berthnasol i dethol a dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau penodol eraill. Ar wahân i'r broses dethol a dyfarnu, yn fy marn i mae'r holl ddarpariaeth arall o'r RCC yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn'. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau (gweler **Diffiniadau**) neu herio'r broses caffael (gweler **Diffiniadau**).

Ar wahân i 'cyffyrddiad ysgafn' mae bob prif weithdrefn caffael angen proses o hysbyseb, dethol a dyfarnu i'w cyflawni yn unol â beth sy'n cael ei nodi yn y weithdrefn ragnodol yn y RCC. Ar gyfer proses 'cyffyrddiad ysgafn' nid oes gofynion penodol yn y RCC rhwng yr hysbyseb a'r hysbysiad i Gyfnodolyn Swyddogol yr undeb Ewropeaidd (OJEU) (gweler **Diffiniadau**) ond mae'r ddau yn ofynnol.

1.3 Pennod 3, rheoliadau 2015 – gweithdrefnau caffael penodol, ‘cyffyrddiad ysgafn’ – y manylion (rheoliadau. 74-77)

Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon o'r canllaw yn ddadansoddiad manwl ar sut i gyrraedd y broses o 'cyffyrddiad ysgafn'. Bwriad hwn yw rhoi dadansoddiad generig o 'gyffyrddiad ysgafn' ac mae'n croesgyfeirio gyda pharagraffau eraill yn y canllaw hwn sy'n ystyried sut i gyrraedd caffael gofal yn y cartref cydgyhychiol fodern mewn rhagor o fanylder.
2. Mae Pennod 3 RCC yn gosod y drefn reoleiddio ar gyfer dyfarnu gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Mae'r hyblygrwydd yn berthnasol i'r broses dethol a dyfarnu yn unig nid i ddarpariaethau eraill y RCC.
3. Fel y nodwyd, mae'r RCC (gweler **Diffiniadau**) yn newid y trefniadau cyfreithiol yn sylfaenol ar gyfer prynu 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) Nid yw'r ymadrodd 'cyffyrddiad ysgafn' yn cael ei ddefnyddio yn y RCC, fe'i defnyddir yn eang ar lafar ac mewn canllawiau'r Llywodraeth. Gweler y Canllaw gan Wasanaeth Masnachol y Goron, ar y gyfundrefn 'cyffyrddiad ysgafn' newydd ar gyfer iechyd, cymdeithasol, addysg a chontractau gwasanaethau penodol eraill:-
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560272/Guidance_on_Light_Touch_Regime_-_Oct_16.pdf.
4. Mae'r RCC angen i gomisiynwyr a swyddogion caffael fabwysiadu newid mawr yn eu hagwedd tuag at gaffael, yn enwedig i brynu gwasanaethau unigol drwy gontractau sbot (gweler **Diffiniadau**). Nid yw'r patrwm hanesyddol o brynu sydd yn cynnwys gwerth uwchben y trothwy (gan gymryd y darpariaethau cydgasglu yn y RCC i ystyriaeth) o brynu drwy gontractau unigol neu sbot tu allan i unrhyw fframwaith neu System Brynu Dynameg (SBD) (gweler **Diffiniadau**) bellach yn gyfreithiol gadarn gan y byddai'r pryniannau yn dyfarnu uniongyrchol anghyfreithlon.
5. Nid yw'r rheoliadau sy'n rheoli dyfarnu yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Mae'r holl reoliadau eraill yn berthnasol. Gall gomisiynwyr a swyddogion caffael ddewis mabwysiadu rhai neu'r holl weithdrefnau safonol a phrosesau, sydd wedi eu gosod yn fyr yn y ganllaw hon.
6. O ganlyniad gall awdurdodau ddylunio eu gweithdrefn eu hunain. Mae'n hanfodol fod awdurdodau yn cymryd gofal ac yn sicrhau fod y dull arfaethedig yn eglur i ddarpar neu ddarparwyr presennol (gweler **Diffiniadau**) ac nad yw'n orgymhleth gan mai'r amcan yw annog y farchnad i wneud cynnig (gweler **Diffiniadau**). Mae cadw'r dull yn eglur, tryloyw ac mor syml ag sy'n bosib yn hanfodol yn enwedig os defnyddir dull arloesol, sydd yn

un gwahanol i'r weithdrefn safonol, gan ei fod yn bosib nad yw'r farchnad yn gyfarwydd gyda hwn. Mae rhai enghreifftiau diweddar o brosesau cymhleth iawn gyda channoedd o ddogfennau atodol. Nid yw darparwyr eisiau treulio oriau lawer yn ceisio deall y broses a'r dogfennau, mae eu ffocws ar gyflawni gwasanaeth.

Beth yw Gwasanaethau 'Cyffyrddiad Ysgafn'

1. Mae'r diffiniad 'cyffyrddiad ysgafn' yn perthyn i'r gwasanaethau sydd yn cael eu nodi felly yn Atodlen 3 o'r RCC drwy gyfeirio at godau Geirfa Caffael Cyffredin (GCC) (gweler **Diffiniadau**). Mae hwn yn newid i'r gyfraith. Mae Rhan B (gweler **Diffiniadau**) wedi ei osod ar sail weddillio i unrhyw beth sydd fel arall heb ddsbarth, mae unrhyw beth nad yw wedi'i adnabod yn benodol fel 'cyffyrddiad ysgafn' yn amodol ar lymder y RCC. Dylai'r diffiniad fod yn ddigon eang i gynnwys holl ofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau gofal iechyd. Y gwasanaethau sy'n cael eu diffinio fel 'cyffyrddiad ysgafn' nid yr adran neu'r gwasanaeth sy'n eu caffael. Er enghraifft, **nid** yw cytundeb am wasanaeth TG yn cael ei ddsbarthu'n 'cyffyrddiad ysgafn' er ei fod ar gyfer wasanaeth cymdeithasol.

Proses Cyn Caffael, Ymgynghoriad Marchnad Cychwynnol

Cyflwyniad a Chyffredinol

1. Gosoda Rheoliad 76 (8) yr ystyriaethau y gellir eu hystyried wrth ddyfarnu contractau (gweler isod). Dylid adeiladu'r rhain i mewn i feini prawf caffael, prosesau a methodoleg fel y gellir eu hystyried yn y cyfnod dechreuol, trwy gydol y cyfnod caffael gan gynnwys wrth ddyfarnu (gweler **Diffiniadau**).
2. Nid yw'r rheoliad sydd yn ymdrin ag ymgynghoriad marchnad cychwynnol cyn i'r caffael ddechrau (rheoliad 40) yn ofynnol i gaffael 'cyffyrddiad ysgafn', ond mae'n gosod dull synhwyrol ac argymelledig i'r broses hwn. Dylai'r ymgynghoriad ddigwydd pan mae'r caffaeliad yn cael ei ystyried, cyn iddo ddechrau. Dylid ei gyflawni 'gyda golwg i baratoi'r caffaeliad a hysbysu' darparwyr o'u cynlluniau caffael a gofynion (rheoliad 40 (1)).
3. Dyweda cyfraith achosion fod ymgynghori yn broses a gyflawnir yn y cam ffurfiannol eich proses h.y. cyn i siâp a chynnwys y dull, gweithdrefn, proses a'r dogfennau gael eu cwblhau.
4. 'Gall [awdurdodau] er enghraifft, geisio neu dderbyn cyngor gan arbenigwyr annibynnol' neu ofyn i'r farchnad gan gynnwys yr holl rhanddeiliaid i ymateb a chynorthwyo. Gellir defnyddio cyngor yn y gweithdrefnau cynllunio a gweithrediad os nad yw'n gwyrddroi cystadleuaeth neu dorri 'egwyddorion peidio gwahaniaethu a thryloywder' (rheoliadau. 40 (2) a (3)).
5. Gall awdurdodau un ai ymgynghori ar un opsiwn neu'n well, ar fwy nag un opsiwn, i osgoi cyfyngu canlyniadau'r ymgynghori.
6. Er nad oes dull cywir nag anghywir, materion sy'n codi'n gyffredin ac sydd angen eu hystyried yw:-
 - Gyda phwy y dylid ymgynghori? Mae nifer o opsiynau yn ymestyn o'r darparwyr presennol yn unig, ar un eithaf (rwyf wedi gweld hyn ond fe'i hystyriaf yn ddiffygiol) i broses ymgynghoriad cyhoeddus sydd yn caniatáu darparwyr unigol, defnyddwyr, eu teuluoedd, sefydliadau statudol eraill, ac yn wir unrhyw un sydd yn ymateb i ymateb. Y dull olaf yw'r un a argymhellir.

- adnabod beth un union mae'r awdurdod yn ymgynghori arno, cyfyngu'r ymgynghoriad i nifer o opsiynau sy'n hawdd eu trin ac wedyn gosod meini prawf gwerthusiad sydd yn syml i'w deall a fydd yn galluogi i werthusiad teg i ddigwydd;
 - maint yr ymgynghoriad a pha mor bell y dylai'r awdurdod ymgynghori ar yr opsiynau manwl ar siâp y caffael, gan gynnwys penawdau'r telerau'r pecyn caffael a'r holl ddogfennau cyfreithiol neu'r prif bwyntiau yn unig?
 - goblygiadau adnoddau ac amser sydd ei angen i gynnal ymgynghoriad effeithiol gan y gall gymryd hyd at 3 mis neu ragor
 - pwy fydd yn gwerthuso'r ymatebion, a'i staff yr awdurdod neu a fydd yn cael ei gynnal gyda chymorth cwmni annibynnol i osgoi unrhyw ddatl ynghylch p'un ai yw'r gwerthusiad yn ddiuedd?
 - tensiynau a gwrthdaro posib rhwng canlyniadau ariannol gofynnol a beth mae ymgynghoreion eisiau ei gyflawni.
7. Pan mae'r ymatebion wedi eu derbyn, dylid cynnal gwerthusiad manwl, a chynhyrchu adroddiad i uwch swyddogion a/neu aelodau (yn ddibynol ar bwy sydd wedi ei ddirprwyo i ystyried canlyniad y gwerthusiad). Dylai hyn gydbwysu ymatebion sy'n gwrthdaro ac adnabod yr opsiwn(ynau) mwyaf ffafriol. Nid yw'n hanfodol fod yr awdurdod yn cytuno gyda'r ymgynghoreion, mae'n hanfodol fod barn yr ymgynghoreion yn cael ystyriaeth gofalus â meddwl agored, a bod unrhyw anghytuno gyda'u barn yn cael ei esbonio a'i gofnodi gyda rhesymau dros yr anghytuno i osgoi her lwyddiannus, neu'n wir unrhyw her. Mae hyd yn oed her aflwyddiannus yn cymryd amser ac yn broses costus i ymateb iddo a gall oedi caffael yn ddifrifol.
8. Mater pwysig i'w ystyried yw'r angen i gynnal y broses hon heb wyrdroi cystadleuaeth ac felly peidio â rhoi cyfle am driniaeth ffafriol wrth siapio'r caffael i unrhyw ddarparwr(wyr) neu ddefnyddiwr(wyr) arbennig.

Buddion ymgynghori yn ogystal â risgiau

1. Buddion tebygol proses ymgynghori dilys yw:-
- Mwy o ymgysylltiad gyda'r farchnad a rhanddeiliaid eraill a chyfle go iawn i wrando ar y rhanddeiliaid a siapio'r caffaeliad yn unol â hynny fel ei fod yn bodloni anghenion defnyddwyr;
 - Cynnydd mewn diddordeb darparwyr gan y byddant yn ystyried y bydd yr awdurdod yn gwrandao ac yn un y byddant eisiau gweithio â nhw;
 - Gwybodaeth fanwl am y farchnad sy'n galluogi'r awdurdod i gynllunio ar gyfer, a chynnal caffaeliad effeithiol a'i siapio i gyflawni'r canlyniadau gorau posib i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth wrth gynyddu ei wybodaeth ei hun i alluogi comisiynu a chaffael sydd yn defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac effeithlon.
2. Y risgiau tebygol yw:-
- Yr amser, cost, cymhlethdod, aneffeithiolrwydd posib y broses (nid yw'r canlyniad bob tro'n rhoi gwybodaeth na'n ddefnyddiol a gall barn yr ymgynghoreion fod yn anghyson);
 - y risg o her sy'n gallu oedi'r broses. Mae'n bosibl herio'r broses fel un ddiffygiol drwy

adolygiad barnwrol; ac

- y risg o redeg allan o amser. Os yw contract yn dod i ben yn y dyfodol agos ac/neu mae'r awdurdod yn bryderus nad yw'r holl gontractau sy'n bodoli yn gyson â'r RCC (gweler **Defnyddio Datganiadau**) gall yr ail gaffael fod ar frys.

Y Broses Gaffael a Gofynion ar gyfer y Gyfundrefn 'cyffyrddiad ysgafn'

Cyflwyniad a Chyffredinol

1. Mae rheoliad 76 (1) a (2) yn adnabod cyn belled bod awdurdodau (gweler **Diffiniadau**) yn cydymffurfio gydag egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal nid oes unrhyw rwystrau eraill ar y broses caffael oni bai am yr angen i hysbysebu drwy hysbyseb CSUE a hysbysiad dyfarnu (gweler **Diffiniadau**). Yr awdurdodau fydd yn pennu'r prosesau a ddefnyddir ac mae hynny'n cynnwys amserlen ar gyfer bob cam.
2. Rho hyn hyblygrwydd helaeth i awdurdodau greu eu prosesau caffael. Gallent ddewis mabwysiadu rhannau o'r RCC safonol (gweler **Diffiniadau**) gweithdrefnau fel fframweithiau neu SBD (gweler **Diffiniadau**) neu ddylunio cyfuniad o bob gweithdrefn. Fel enghraifft, yn annhebyg i SBD safonol gall awdurdod ddewis agor y SBD yn rheolaidd (e.e. yn gyffredin bob 6 neu 12 mis) lle mae'n rhaid i SBD safonol fod ar agor unrhyw dro. Gallent ddewis peidio â bod angen cystadleuaeth fach (gweler **Diffiniadau**), er enghraifft os nad oes ond un darparwr addas gyda lle gwag. Mae dull hyblyg i agor y SBD yn synhwyrol, fel os nad oes darparwr addas wedi ei achredu'n barod ar gyfer rhyw ddyfarniad gellir ei agor a gellir gwahodd darparwyr newydd i roi cynnig. Rwyf yn argymhell fod y weithdrefn lawn yn cynnwys, er enghraifft, y dull a'r meini prawf ar gyfer agor SBD yn cael ei bennu yn y dogfennau atodol i'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniad**) Fy argymhelliad yw'r dull cyfreithiol mwyaf cadarn ond nid yw'n cael ei ddilyn bob tro. Nid yw'n glir p'un a yw nodi pryd mae SBD yn cael ei agor yn gyfreithiol gadarn gan nad oes cyfraith achos ar hyn.
3. Cydymffurfiaeth gyda thryloywder a thriniaeth gyfartal yw'r gofynion hanfodol. Awgryma'r ystyriaethau hyn a chymhlethdod cyfraith ac ymarfer caffael y byddai'n ddarbodus i awdurdodau i ddefnyddio rhai elfennau o weithdrefnau sy'n bodoli eisoes gan y byddai dylunio proses yn broses a fyddai'n cymryd llawer o amser, yn gostus ac yn fentrus. Mae nifer cynyddol o gaffaeliadau sydd yn defnyddio rhai nodweddion fframwaith a system brynu dynameg, ac yn galw'r dull yn system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**).

Y Broses Caffael

1. Mae dwy ffordd amgen o ddechrau proses caffael, defnyddio Hysbyseb Gwybodaeth Flaenorol (HGF) (gweler **Diffiniad**) neu'n syth i mewn i **hysbysiad contract** (gweler **Diffiniadau**). Mae'r ddau yn dechrau gyda hysbyseb agored. Mae rheoliad (75) 1 yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (a rheoliadau 48 a 49 i rai nad ydynt yn 'cyffyrddiad ysgafn').
2. Gadawa gweithdrefn HGF i awdurdodau sy'n contractio cyhoeddi ar wefannau gwerthu (drwy broffil) neu hysbysiad CSUE (gweler **Diffiniadau**). Mae rhoi gwybod i'r farchnad o flaen llaw am hysbysebion arfaethedig am waith, nwyddau neu wasanaethau am y 12 mis nesaf, ac yn galluogi awdurdodau i gymryd mantais wedi hynny o derfynau amser byrrach pan maent yn dechrau cyhoeddi'r caffael unigol. Er enghraifft, gall hyn fod yn ddefnyddiol os oes contract yn

dod i ben yn fuan ac fe wyddid y bydd ail gaffael. Mewn theori, dylid fod yn bosib rhyddhau PIN ar gyfer pob caffael sydd wedi ei gynllunio oherwydd dylai'r awdurdod wybod o flaen llaw beth mae'n ei gaffael yn ystod y 12 mis i ddilyn. Gan fod rhaid cynnwys gwybodaeth fanwl nid yw hyn bob tro'n ymarferol os yw proses sy'n siapio'r farchnad neu gomisiynu ar y gweill gan y gall y rhain effeithio caffael.

3. Y broses arall yw mynd yn syth i'r hysbysiad contract (gweld **Diffiniadau**) mae'n hysbysiad penodol ar gyfer caffaeliad penodol. Mae hwn yn gosod disgrifiad o'r caffael sydd ei angen, manylion llawn y gwerthoedd tebygol, proses ceisio a manylion yr holl nwyddau, gwaith ac/ neu wasanaethau sydd neu efallai fydd eu hangen.
4. Mae rheoliad 75 (1) yn gosod y broses hysbyseb CSUE sydd ei angen yn union i gaffael gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn'. Rhaid darllen hwn ynghyd ag Atodiad V i'r Gyfarwyddeb (gweler **Diffiniadau**). Mae'r wybodaeth sydd ei angen mewn hysbysiad contract neu HGF ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' wedi cael ei osod yn Rhan H yn ôl eu trefn yn Atodiad X i'r Gyfarwyddeb, ac er eu bod yn llawer ysgafnach nag ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn 'cyffyrddiad ysgafn' maent dal yn fanwl ac yn gymharol gymhleth.
5. Dyma sydd ei angen ar gyfer hysbysiad contract:-
 - pwy yw'r awdurdod (gweler **Diffiniadau**) h.y. yr enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost gan gynnwys os oes mwy nag un, lleoliad ar gyfer cyflawni neu berfformio'r gwasanaethau;
 - disgrifiad byr o'r contract gan gynnwys codau Geirfa Gyffredin Caffael (GGC) (gweler **Diffiniadau**);
 - amodau cymryd rhan gan gynnwys ac ydyw wedi ei gyfyngu i weithdai cysgodol neu'r fframwaith ar gyfer rhaglenni swyddi sydd wedi eu gwarchod neu wedi eu cadw drwy gyfraith i broffesiwn penodol;
 - y terfyn amser i gysylltu gyda'r awdurdod i gymryd rhan; a
 - disgrifiad byr o brif nodweddion gweithdrefn dyfarnu
6. Ar gyfer HGF mae angen gwybodaeth ychwanegol
 - amcangyfrif o gyfanswm gwerth y cytundeb;
 - hyd y gwyddid, prif leoliad y gwaith, amserlen ar gyfer ei gyflawni neu berfformio a hyd y contract;
 - cyfeiriad at yr angen i ddarparwyr hysbysu'r awdurdod o'u diddordeb yn y contract neu gontractau a therfyn amser a chyfeiriad ar gyfer derbynneb datganiadau o ddiddordeb.
7. Nid yw'r anghenion amserlen sydd wedi eu gosod ar gyfer caffael nad yw'n 'cyffyrddiad ysgafn' yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn'. Mae'n rhaid i'r amserlen o fewn y caffael fod yn 'rhesymol a chymesur'. Dylent fod yn ddibynnol ar gymhlethdod y weithdrefn ac unrhyw newid yn y broses (gweler isod)

Newidiadau i'r broses yn dilyn cyhoeddi hysbysiad

1. Mae rheoliad 76 (3) yn nodi 'yn arbennig', dylai'r caffael cael ei gyflawni yn unol â'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) ynglŷn â:-
 - 'amodau ar gyfer cymryd rhan';
 - terfyn amser ar gyfer cysylltu â'r awdurdod;

- y weithdrefn ddyfarnu i'w defnyddio oni bai am yr amgylchiadau cyfyngedig sydd wedi eu gosod yn rheoliad 76 (4).
2. Mae'r broses gofynion yn cyfyngu'r ffordd mae awdurdodau sy'n contractio yn gallu ymddwyn gan mai newidiadau cyfyngedig i'r broses sy'n bosib ar ôl rhyddhau hysbysiad CSUE (gweler **Diffiniadau**).
 3. Mae rheoliadau 76 (4) yn gosod:-
 - y newidiadau cyfyngedig sydd yn bosib wedi rhyddhau'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**). Os oes angen newidiadau mwy helaeth mae'n bosib y bydd angen hysbysiad contract newydd, neu wedi'i ddiwygio, gydag amserlen estynedig. Os defnyddiwyd proses HGF (gweler **Diffiniadau**) ac mae'r hysbysiad contract sy'n dilyn yn wahanol yn sylweddol, dylai'r hysbysiad contract ganiatáu mwy o amser i ymatebion fel gall y rhai sy'n ceisio cymryd y newidiadau i ystyriaeth; ac
 - yr amodau sydd angen eu bodloni i gyflawni addasiad sy'n cydymffurfio (gweler **Diffiniadau**) (neu amrywiad) o'r broses gaffael fel y dilyna:-
 - Nid oes unrhyw doriad ar egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal o ddarparwyr (rheoliad 76 (4) (a));
 - Mae'r awdurdod wedi ystyried y mater cyn symud yn ei flaen ac wedi rhoi ystyriaeth gyfiawn i'r mater, wedi dod i'r casgliad nad oes torri ar reoliad (76) (4) (a), dogfennu'r canlyniad hwnnw a'r rhesymau yn unol â rheoliad 84 (7) a rhoi gwybod i'r cyfranogion sydd wedi ymateb i'r hysbysiad parthed symud ymlaen mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio gyda'r hysbysiad (gweler rheoliad 76 (4) (b)).
 4. Mae'r gofyniad ym mharagraff 56.2 mewn iaith debyg ond nid yr union yr un fath a rheoliad 18 (1) yn gosod egwyddorion caffael. Yn fy marn i, mae rheoliad 18, sydd yn nodi bydd 'awdurdodau sy'n contractio yn trin gweithredwyr economaidd yn gyfartal a heb wahaniaethu ac yn ymddwyn mewn modd tryloyw a chymesur' yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' ac mae rheoliad 76 (2) yn ailddatgan hynny mewn iaith sydd ychydig yn wahanol.
 5. Mae'r gofyniad i ddogfennu unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig yn gyson gyda darpariaethau eraill yn y rheoliadau sydd yn gofyn i awdurdodau sydd yn contractio i ddogfennu cyfathrebiadau (gweler rheoliad 22 (8)). Dim ond os dogfennir cyfathrebiadau ar lafar yn ddiweddarach y gellir eu defnyddio .
 6. Mae'r cyfyngiad ar newidiadau hysbysiad ôl contract (gweler **Diffiniadau**) yn arbennig o berthnasol i gaffael cymhleth (gweler **Diffiniadau**) er enghraifft contractau aml-wasanaeth a gwasanaethau hirach fel system brynu dynameg (gweler **Diffiniadau**) neu fframwaith (gweler **Diffiniadau**) lle mae trefniadau yn ôl y gofyn (gweler **Diffiniadau**) a lle mae'n bosibl y daw'n amlwg drwy'r broses eglurhad yn ystod y caffael fod y dogfennau gwreiddiol angen eu diwygio oherwydd ymatebion i gwestiynau o eglurhad.
 7. Lle mae gofyn am newid mewn gwasanaeth yn ystod cyfnod y contract bydd y gallu i wneud newidiadau yn ddibynnol ar y darpariaethau yn y termau addasiadau dan contract yn y contract (gweler **Diffiniadau**) nid ar ddarpariaethau'r caffael.

8. Gall meini prawf gwerthuso a dyfarnu gymryd i ystyriaeth sawl maen prawf (gweler rheoliad 76 (8)):-
- yr angen i sicrhau safon, parhad, hygyrchedd, fforddiadwyedd, argaeledd a chynhwysedd gwasanaeth;
 - anghenion penodol gwahanol gategoriâu o ddefnyddwyr;
 - cynnwys a grymuso defnyddwyr; ac
 - arloesedd.
9. Un mater sydd o bwysigrwydd i gomisiynwyr a swyddogion caffael, ac sy'n cael ei adnabod fel mater yn rheolaidd, yw i ba raddau y gellid cymryd perfformiad blaenorol darparwr i ystyriaeth. Nid yw'r RCC yn ymdrin â hyn yn benodol (gweler **Diffiniadau**). Mae'n gynhenid yn rheoliad 76 ac yn enwedig rheoliad 76 (8) fod y rhain yn ystyriaethau perthnasol. Os yw berfformiad yn y gorffennol am gael ei ddefnyddio, dylai'r wybodaeth a sut mae'n cael ei ddefnyddio cael ei ddynodi yn y gwerthusiad cyhoeddedig neu weithdrefn dyfarnu. Mae'n rhaid cynnwys dulliau i ddilysu cywirdeb y rhagdybiaethau a sicrhau fod y broses a'r dull yn cyd-fynd â gofynion triniaeth gyfartal i bob ymgeisydd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyfle i ymgeiswyr ymateb i sylwadau am berfformiad yn y gorffennol a defnyddio'r wybodaeth hon i ddilysu gwybodaeth arall, er enghraifft sut bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflawni, nid fel maen prawf sylfaenol. Mae dadansoddi perfformiad yn y gorffennol yn debygol o fod yn oddrychol (oni bai ei fod wedi ei seilio ar safonau amcanion perfformio). Gall arddangos tegwch hefyd fod yn anodd ei gyflawni gan ei bod hi'n anochel fod gan awdurdod mwy o wybodaeth ar gael am ddarparwr presennol yn barod. Os yn bosibl, dylai'r weithdrefn werthuso a dyfarnu ddigwydd yn annibynnol i swyddog ochr y cleientiaid y contract sydd yn bodoli'n barod, achos mae honiad o ragfarn positif neu negatif, o blaid neu yn erbyn darparwr presennol, yn honiad eithaf cyffredin gan ymgeiswyr sydd wedi eu tramgwyddo. Os nad yw hyn yn bosibl mae'n rhaid cael rhyw drosolwg werthuso/ddyfarnu annibynnol. Os oes honiad o ragfarn yn cael ei wneud y dull mwyaf diogel i i'w ddilyn yw eithrio'r swyddog perthnasol rhag cymryd unrhyw rhan bellach yn y broses.
10. Nid yw rheoliad 76 (8) yn orfodol ond mae'n cael ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o awdurdodau i siapio'r prosesau caffael a dogfennau. Fel sy'n cael ei nodi uchod, i gyflawni hyn, mae'n rhaid i awdurdodau ystyried a chymryd y rhain dan sylw cyn dechrau'r caffael gan fod y meini prawf yn bwysig fel rhan o'r broses siapio strategol a chaffael. Gall egwyddorion a darpariaethau rheoliad 40, ymgynghoriad marchnad cychwynnol (gweler hyn yn y paragraffau isod) fod yn ddefnyddiol fel canllaw i ddrafftio proses effeithiol ond nid oes raid i weithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn' gydymffurfio gyda'i reolau. Fodd bynnag, mae rhwymedigaethau cyffredinol tegwch, tryloywder a thriniaeth gyfartal yn berthnasol trwyddo. Rwyf wedi trafod prosesau, gweithdrefnau gwerthuso a chynnwys defnyddwyr a'u teuluoedd mewn manau eraill yn y ganllaw hon.
11. Mae dull cydgynhyrchiol a chydweithredol sy'n ystyried darpariaethau ac ysbryd rheoliad 76 (8) yn awgrymu dull partneriaeth agored, gan adael i ddefnyddwyr a'u teuluoedd, darparwyr ac awdurdodau statudol eraill i roi sylwadau a chymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu rhannau allweddol o'r pecyn caffael. Barn arall yw os oes siapio marchnad ac ystyriaethau comisiynu ac ymgynghori effeithiol ac eang wedi digwydd yn y camau cychwynnol o'r broses, nid yw hyn yn angenrheidiol ac mae ymgynghoriad mwy cyfyngedig yn addas a gall fod a risgiau

cyfreithiol, er enghraifft os yw barn un darparwr penodol yn cael mantais annheg. Gall hyn fod yn risg yn arbennig os oes peilot gyda nifer cyfyngedig o ddarparwyr. Yn fy marn i, dylid gallu cydbwysu'r risgiau a llunio gweithdrefn deg sydd yn galluogi holl rhanddeiliaid perthnasol i roi eu barn.

12. Fel sy'n cael ei osod uchod, mae rheoliad 76 (6) yn nodi y dylai bob terfyn amser o fewn caffaeliad fod yn rhesymol a chymesur. Nid yw hwn yn cael ei ddiffinio ymhellach gan iddo orfod dibynnu ar natur a chymhlethdod y caffael, er enghraifft os yw'r dogfennau'n hir a chymhleth (fel y maent yn aml) mae'n rhaid i hyn gael ei gymryd i ystyriaeth wrth osod terfyn amser gan mai'r amcan yw ennill ystod eang o ymgeiswyr (gweler **Diffiniadau**) i sicrhau fod y caffael yn llwyddiannus. Mae hyn yn enwedig yn berthnasol mewn marchnad lle yn gyffredinol y ceir nifer cyfyngedig o ddarparwyr (gweler **Diffiniadau**). Gall y darparwyr hyn fod yn fychan, yn ffocysu ar gyflawni gwasanaethau ac/neu'n brysur iawn oherwydd bod sawl proses caffael ar y gweill yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Gall cyfyngder amser i ymateb i gaffael cyfyngu'r nifer o ymgeiswyr a chanlyniadau'r caffael (gweler **Diffiniadau**).
13. Ni ellir addasu'r gweithdrefnau a nodwyd felly (gan gynnwys hyd contract, gwerth, gwerthuso a meini prawf dyfarnu) heb risg. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol fod digon o waith rhagarweiniol cyn dechrau'r caffael er mwyn strwythuro'r caffael a drafftio dogfennau cyn dechrau'r broses. Fel y nodwyd, os oes angen newid sylweddol yn ystod y broses, mae'n bosib y bydd angen rhoi terfyn arno ac ail ddechrau'r broses ac mi all hyn beidio annog ymgeiswyr (gweler **Diffiniadau**), neu hyd yn oed arwain at hawliadau ariannol gan ymgeiswyr sydd wedi treulio amser ar y broses flaenorol ac/neu ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosib i awdurdodau i wneud lleoliadau cyfreithiol cadarn os yw'r contract wedi dod i ben cyn i'r broses newydd gael ei gwblhau.

Gosod contractau mewn amgylchiadau eithriadol

Cyflwyniad

Mae yna rai eithriadau cyfyngedig iawn i'r gofyniad i ryddhau hysbysiad CSUE (gweler **Diffiniadau**). Mae'r rhain yn cynnwys brys difrifol na ellir fod wedi ei ragweld. Os yw hyn wedi ei achosi gan fethiant gan yr awdurdod nid yw'r llys yn gweld fod hyn yn disgyn o fewn yr eithriad, felly ni fyddai'r angen i wneud gosodiad brys lle mae awdurdod yn gwneud y math hwn o osodiadau yn rheolaidd yn cael ei ystyried yn argyfwng. Dylid cael system brynu dynameg neu fframwaith (gweler **Diffiniadau**) yn ei le sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer argyfyngau.

Canllaw

Fel y nodwyd uchod, cyhoeddwyd canllaw ar 'cyffyrddiad ysgafn' gan Wasanaeth Masnachol y Goron ar 5ed o Fawrth 2015. Gweler:-

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/409543/GUIDANCE_ON_THE_NEW_LIGHT_TOUCH_REGIME_FOR_HEALTH_SOCIAL_EDUCATION_AND_CERTAIN_OTHER_SERVICE_CONTRACTS.pdf

Gweithredu gweithdrefnau mewnol yr awdurdod ac osgoi heriau

1. Mae gan amryw o awdurdodau reolau sefydlog (gweler **Diffiniadau**) neu reoliadau contract sy'n dynwared rheoliadau caffael cyhoeddus ac sydd ddim yn cymryd 'cyffyrddiad ysgafn' i ystyriaeth (gweler **Diffiniadau**). Fe awgrymir y dylai awdurdodau ystyried rhoi prosesau mewnol penodol yn eu lle ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' ac ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng

'cyffyrddiad ysgafn' a chaffaeliadau eraill. Nid yw hawlildiad ar gyfer caffael penodol yn ddigon.

2. Y rheswm ar gyfer yr argymhelliad yma yw bod awdurdodau yn gyrff cyhoeddus ac maent yn agored i heriau ar sail nad ydynt wedi dilyn eu prosesau mewnol eu hunain. Mae hwn yn egwyddor gyfreithiol a adnabyddir fel disgwyliad dilys sydd yn awgrymu bod peidio â dilyn gweithdrefnau mewnol neu'r un a nodwyd, er enghraifft y weithdrefn a osodwyd yn yr hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) yn ei gwneud hi'n haws i ddod â her drwy broses y llys.
3. Mae sawl enghraifft o heriau lle cafwyd nifer helaeth o geisiadau rhyddid gwybodaeth (gweler **Diffiniadau**) fel rhan o her neu broses cwyn. Gall y rhain fod yn embaras a chostus. Dylai awdurdodau felly gadw cofnodion gofalus o'u penderfyniadau, er enghraifft y penderfyniadau i wneud newid i'r dogfennau neu'u dull a nodiadau o gyfarfodydd gwerthuso a'u rhesymau dros wrthod ymgeisydd penodol (gweler **Diffiniadau**) i osgoi rhoi sail dros herio i un sydd eisiau herio.
4. Mae nifer o achosion uchel lys uchel yn ymwneud â heriau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt ynglŷn â'r broses gwerthuso, gan ddadlau nad oedd y meini prawf wedi eu gweithredu'n gywir ac/nad oedd prosesau mewnol yr awdurdod wedi eu dilyn. Lle nad yw'r awdurdod yn dilyn y broses sydd wedi ei hysbysebu ganddo neu'n dilyn proses sy'n dynwared neu'n rhannol ddynwared proses 'cyffyrddiad ysgafn', mae'n bosib i'r awdurdod gael ei herio'n llwyddiannus. Bydd bob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau gan y llys. Y nod bob tro yw cyflawni proses gadarn gyda llwybr tystiolaeth gyflawn gan fod heriau fel arfer yn arwain at oedi ac weithiau gwaeth.

Contractau ar Gadw (Rheoliad 77)

1. Mae'r rheoliad hwn yn gosod gweithdrefnau penodol sy'n galluogi awdurdodau i gadw caffael rhai gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' am ddim mwy na 3 blynedd i rai sefydliadau cymwys.
2. Mae'r sefydliadau Cymwys a'u strwythurau wedi'i ddiffinio'n fanwl gywir (Rheoliad 77). Yn fras, y gweithwyr sy'n berchen y rhain neu fathau arbennig o fentrau cymdeithasol i sefydliadau gyda chenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus wedi ei gysylltu gyda chyflawni eu gwasanaethau, a lle mae elw yn cael ei ail fuddsoddi gyda bwriad o gyflawni amcanion y mudiad, neu wedi'u dosbarthu ar ystyriaethau cyfranogol. Ni ddylai'r sefydliad sy'n ymgeisio fod wedi cael dyfarnu contract iddynt yn y 3 blynedd flaenorol.
3. Mae'r contractau hyd wedi eu cadw ar gyfer mathau penodol o godau GGC (gweler **Diffiniadau**). Mae'r rhestr o godau GGC sy'n gymwys yn fwy cul na'r codau GGC sy'n gymwys fel gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Mae'r berthnasol i'r rhan fwyaf ond nid bob gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a diwylliannol, ac eithrio yn arbennig rhai gwasanaethau penodol. Felly rhaid rhoi gofal wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth hon.
4. Nid yw hwn yn ddarpariaeth sy'n cael ei ddefnyddio llawer iawn oherwydd mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sy'n gymwys allu ymgeisio felly mewn ymarfer nid oed unrhyw warant y bydd sefydliad, bach, lleol yn ennill ac mae cynnod contract (gweler **Diffiniadau**) yn rhy fyr i fod yn ddull effeithiol i amryw o gaffaeliadau. Nid yw'n glir sawl awdurdod sydd wedi defnyddio'r eithriad hon ond yn sicr nid yw wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth. Fe'i cynhwysir er mwyn cyflawnrwydd.

1.4 Egwyddorion cyffredinol caffael a manylion a all fod yn berthnasol neu beidio i gyffyrddiad ysgafn

Cyflwyniad

1. Mae'r rhan yma yn gosod canllaw fer ar ddarpariaeth y RCC (gweler **Diffiniadau**) sydd un ai'n berthnasol i bob caffael neu sydd ddim yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Cyn belled ag y bo modd, mae'r sylwadau yn esbonio a yw'r darpariaethau yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' er dylid deall nad yw hyd yn oed Gwasanaeth Masnachol y Goron yn hollol glir i ba hyd mae'r darpariaethau cyffredinol yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler Gwasanaeth Masnachol y Goron, *Procurement Policy Note: Standard Selection Questionnaire (SQ)* Nodyn Gweithredu 8/16 a sylwadau arno isod). Yn anffodus, nid yw'r RCC yn ei wneud (gweler **Diffiniadau**) yn hollol glir pa ddarpariaethau yn y RCC sydd ddim yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' a thrwy oblygiad y rhai sydd yn berthnasol felly mae ansicrwydd anochel.
2. Mae angen yr adran hon oherwydd mae darpariaeth gyffredinol y RCC fel arfer yn cael eu defnyddio fel dull sylfaenol hyd yn oed i 'cyffyrddiad ysgafn' ac mae llawer o'r dulliau a methodolegau wedi bod yn ddefnyddiol fel man dechrau ar gyfer datblygu proses 'cyffyrddiad ysgafn' penodol. Gan eu bod yn gymhleth ac mae llawer wedi eu gyrru gormod gan broses i fod yn 'cyffyrddiad ysgafn' wedi ei ffocysu ar ganlyniad yn hytrach na wedi'i ffocysu ar 'cyffyrddiad ysgafn' mae rhaid iddyn nhw fod wedi eu haddasu'n gywir a'u symleiddio.

Egwyddorion Cyffredinol (Rhan 2, Rheoliad 18 - 24)

1. Mae egwyddorion cyffredinol cydraddoldeb, tryloywder a pheidio â gwahaniaethu yn berthnasol i weithgareddau nad ydynt yn 'cyffyrddiad ysgafn' yn rheoliad 18 mewn iaith ychydig yn wahanol i'r dull ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn', ond fel nodir uchod, yn fy marn i mae'n golygu'r un peth.
2. Mae rheoliad 21 yn gosod darpariaethau ar gyfer cadw gwybodaeth am contractwyr yn gyfrinachol yn ystod caffaeliad. Mae cwmpas hwn yn gyfyngedig ac nid yw'n berthnasol i unrhyw ddogfennau a grëir yn dilyn hynny (er enghraifft fel rhan gyffredin o reoli contract). Dylai amodau contract felly gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfrinachedd. Mae bwlch arall yn rheoliad 21. Nid yw'n cyfeirio yn benodol at oblygiadau cyfrinachedd mewn caffaeliadau gan gonsortia. Rwyf yn ystyried fod y wybodaeth a roddir i un awdurdod mewn consortiwm yn debygol o allu cael ei ddatgelu i'r holl awdurdodau yn y consortiwm.
3. Mae gofyn i awdurdodau gael prosesau i warchod ymgeiswyr yn erbyn cael eu rhagfarnu oherwydd bod gan staff wrthdaro buddiannau mewnol neu allanol e.e. aelodau staff sydd â diddordeb ariannol mewn contract (rheoliad 24).
4. Mae rheoliad 23 yn dweud mai'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r contract (cyfundrefn enwi) yw'r GGC (gweler **Diffiniadau**).

5. Yn fy marn i, bydd neu dylid gweithredu'r tri pharagraff olaf y canllaw hwn gyda 'chyffyrddiad ysgafn'.
6. Yn ogystal mae nifer o ddarpariaethau cyffredinol eraill e.e. yn ymwneud â chyfathrebu electroneg sydd ddim ei angen ar gyfer 'chyffyrddiad ysgafn' a gallant greu proses amhriodol o anhyblyg os cant eu mabwysiadu.

Cynnal y Weithdrefn - Proses Hysbysebu a Dewis Gweithdrefn (Isadran 3 o Bennod 2)

Cyflwyniad a Chyffredinol

1. Gan mai bod yn agored, cystadleuaeth a thryloywder ar draws y UE yw gofynion sylfaenol o dan y Cytuniad (gweler **Diffiniadau**), craidd y man cychwyn yw dylai dechrau bob proses caffael ddechrau gyda hysbyseb neu hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**). Er hynny, os yw hwn yn caffael 'chyffyrddiad ysgafn' yr unig beth sydd ei angen nes y dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) ac nid yw'r rhannau penodol yma o'r RCC (gweler **Diffiniadau**) yn berthnasol i 'chyffyrddiad ysgafn'.
2. Mae'r hysbyseb un ai yn cynnig cyfle penodol neu'n ymwneud â chyfleoedd yn y dyfodol i'r farchnad. Hysbysiad contract yw'r cyntaf (gweler **Diffiniadau**) a hysbysiad HGF yw'r ail (gweler **Diffiniadau**). Yn y naill achos neu'r llall, mae'r hysbyseb yn gosod y broses a'r weithdrefn sydd i gael ei ddilyn. Mae ffurf a chynnwys yr hysbysebion yn cael eu rhagnodi yn y Gyfarwyddeb (gweler **Diffiniadau**) ac yn gwahaniaethu â 'chyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) a gwasanaethau nad ydynt yn 'gyffyrddiad ysgafn'..
3. Mae'n rhaid rhoi hysbysiadau yn yr CSUE (gweler **Diffiniadau**).
4. Dylai'r hysbyseb, y fanyleb a'r dogfennau eraill ddisgrifio mewn modd cywir beth yn union sydd ei angen gan yr awdurdod a beth sydd angen i ddarparwyr ei wneud i ymgeisio. Mae'r egwyddorion Ewropeaidd o drin bob gweithredwr economaidd yn gyfartal, heb wahaniaethu ac yn dryloyw a chymesur, yn ategu'r RCC.
5. Mae gwybodaeth allweddol ar gyfer hysbysiadau cyffyrddiad ysgafn yn yr CSUE wedi eu cryn symleiddio o'u cymharu â chaffael eraill (gweler Rhan H o Atodiad V o'r Gyfarwyddeb). Mae tu allan i gylch gorchwyl y dadansoddiad hwn i fanylu ar weithdrefn caffaeliadau nad ydynt yn 'gyffyrddiad ysgafn'.

Cyfrifo Amcangyfrif o Werth Caffaeliad (Rheoliad 6)

1. Mae hwn yn berthnasol i gyffyrddiad ysgafn er bod y trothwy yn uwch nag ar gyfer caffael gwasanaethau eraill. Mae amcangyfrif gwerth caffaeliad wedi ei seilio ar y cyfanswm sy'n daladwy i'r darparwr(wyr) o dan contract(au) yn y dyfodol a heb unrhyw isrannu gwasanaethau i osgoi effaith y ddeddfwriaeth. Lle mae gwaith wedi ei lotio, gellir cymryd cyfrif o gyfanswm y lotiau (h.y. y pecynnau o waith) gan fod rhannu contractau'r dyfodol i osgoi dilyn y RCC yn torri rheolau RCC (gweler **Diffiniadau**). Dylai fframwaith neu system brynu dynameg osod yr amcangyfrif gwerth cyfan gwbl y caffael (gweler **Diffiniadau**) pan nad oes gwarant o gynnig contractau.
2. Os yw awdurdod yn dyfarnu contract a thorri'r rheoliad yna mae'n ddyfarniad uniongyrchol, yn agored i gael ei herio o dan Ran 3, RCC yn y llys a gall fod yn anghyfreithlon.

Cwmni dan reolaeth awdurdod lleol (neu Teckal) (Rheoliad 12) a Threfniadau Gweinyddol

1. Nid yw RCC yn berthnasol i gwmnïau dan reolaeth neu *Teckal*. *Teckal* yw enw llaw-fer ar yr achos Ewropeaidd wnaeth adnabod yr eithriad hwn.
2. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cwmni gael ei reoli gan un neu grŵp o awdurdodau (nid yn angenrheidiol awdurdodau lleol yn unig gan y gall gynnwys gyrff iechyd) sydd yn berchen ar y cwmni rhyngddynt, mewn modd tebyg i'r lefel maent yn ei arfer dros eu hadrannau eu hunain.
3. Mae rheolau cymhleth yn ymwneud â p'un yw cwmni o dan reolaeth *Teckal* ai peidio (er enghraifft, mae'n rhaid i fwy na 80% o'i weithgareddau fod gyda'r awdurdod lleol neu awdurdodau riant).
4. Yr eithriad arall i rwymedigaeth i gaffael (ar wahân i gyflenwi sy'n digwydd yn fewnol) yw lle mae awdurdodau yn gweithio gyda'i gilydd mewn trefniant gweinyddol (h.y. nid caffaeliad) e.e. asiantaeth neu gydbwyllgor o dan adrannau 100 a 1010 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hyn yn gymhleth ac yn seiliedig ar gyfraith achosion Ewropeaidd.

Y Gweithdrefnau ar gyfer gweithdrefnau nad ydynt yn Gyffyrddiad Ysgafn (Rheoliad 27 - 39)

1. Er nad yw cydymffurfio gyda'r union weithdrefnau yn hanfodol ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' a gall awdurdod greu ei weithdrefn ei hun ar yr amod ei fod yn cydymffurfio gydag egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal y darparwyr, gwnaiff y rhan fwyaf o awdurdodau bras fabwysiadu un o'r gweithdrefnau a nodwyd gydag amrywiadau er mwyn rhoi ystyriaeth i nodweddion gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn'. Mae hwn yn ymagwedd bragmatig ond mae'n hanfodol fod nodweddion gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' a'r hyblygrwydd deddfwriaethol yn cael eu hystyried yn gywir ac nad yw'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n rhy lym.
2. Y prif weithdrefnau neu lwybrau yw agored (proses un cam lle mae holl ddogfennau caffael yn cael eu cyhoeddi'r un pryd pan gyhoeddir yr hysbyseb) (gweler **Diffiniadau**), cyfyngedig (proses dau gam o greu rhestr fer wedi ei ddilyn gyda gwahoddiad i ymgeisio) (gweler **Diffiniadau**), deialog gystadleuol (proses o sawl cam sy'n addas ar gyfer gaffaeliadau mawr iawn) (gweler **Diffiniadau**), cystadleuol gyda thrafodaethau (ffurf o ddeialog gystadleuol wedi'i addasu) (gweler **Diffiniadau**), fframwaith (gweler **Diffiniadau**), neu system brynu dynameg (gweler **Diffiniadau**), a phartneriaeth arloesi (partneriaethau ymchwil a datblygu) (gweler **Diffiniadau**). Mae gweithdrefnau a phrosesau eraill sy'n llai cyffredin ond ni chyfeirir atynt yn y ganllaw hon.
3. Fel y nodwyd, mae awdurdodau yn debygol o ddefnyddio rhai egwyddorion o'r prif lwybrau wrth ddylunio proses 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**), felly disgrifir y prif lwybrau sy'n debygol o gael eu defnyddio isod er mwyn rhoi canllaw.

Gweithdrefn Agored (Rheoliad 27)

1. Nid oes unrhyw newid sylweddol yn hwn ers y rheoliadau blaenorol felly mae'n broses adnabyddus.
2. Mae'n broses un cam gyda hysbyseb agored. Mae'n rhaid i'r dogfennau caffael (gweler

Diffiniadau), fod ar gael i'w hanfon i bawb sy'n ymateb i'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**). Felly, mae'n rhaid i awdurdodau fod yn barod gyda'r holl ddogfennau cyn iddynt gyhoeddi'r hysbysiad contract.

3. Rhaid rhoi cyfle i dendro i bawb sydd wedi ymateb, ond gall fod yn broses gwerthuso dau gam wedi ei seilio ar eithrio'r rheiny sydd ddim yn cyrraedd y meini prawf sylfaenol (trothwyon ariannol, masnachol a safon h.y. wedi ei seilio ar werthuso gwybodaeth hanesyddol) ac wedi hynny ystyried y rheiny sy'n pasio'r cam yma yn unig (y cam dyfarnu h.y. wedi ei seilio ar ddadansoddiad o'u gallu i gyrraedd gofynion y tendr yn y dyfodol). Mae'n gallu bod yn hunllef fiwrocraidd i awdurdodau sy'n gallu derbyn nifer fawr o dendrau ac maent i gyd angen eu gwerthuso, ac i ddarparwyr sydd angen cwblhau'r gwaith papur i gyd er mwyn cael eu hystyried. Nid yw'n llwybr mae'r darparwyr yn dueddol o'i hoffi. Felly er mai hwn, mewn theori, yw'r llwybr cyflymaf oherwydd iddo fod yn ddull un cam, os ceir nifer fawr o geisiadau mae'n gallu cymryd amser i werthuso'r dendrau a dyfarnu (gweler **Diffiniadau**).
4. Yn gyffredinol, yr amserlen ar gyfer ymateb yw lleiafswm o 35 diwrnod a 22 mewn rhai amgylchiadau (Rheoliad 27 (2)). Lle mae HGF (gweler **Diffiniadau**), gellir lleihau'r nifer lleiafswm o ddyddiau i 15.
5. Mae'r dewis y cael ei wneud yn unol â rheoliad 58. Yr unig beth all awdurdod ei wneud yw gofyn am ragor o wybodaeth (h.y. eglurdeb ar y materion hynny sydd wedi eu gosod yn y rheoliadau). Nid oes modd cynnal trafodaethau felly mae'n anhyblyg.

Gweithdrefn Gyfyngedig (Rheoliad 28)

1. Mae hwn yn broses dau gam. Nid oes unrhyw newid sylweddol yn hwn ers y gyfundrefn ddeddfwriaethol flaenorol chwaith.
2. Mae'n rhaid i'r awdurdod ganiatáu isafswm o 30 diwrnod o'r hysbyseb, wedi ei ostwng i 10 os cyhoeddir HGF (gweler **Diffiniadau**).
3. Mae'n rhai gwerthuso pawb (gweler **Diffiniadau**) sydd wedi ymateb i'r holiadur dethol (HD) (gweler **Diffiniadau**). Caniateir rhoi cyfyngiad ar y nifer yn y rhestr fer yn y RCC. Yr isafswm yw 5. Os ceir llai na 5 yn bodloni meini prawf y gwerthuso mae'n rhaid eu rhoi ar y rhestr fer. Os oes llai na 5, caiff y caffaeliad fynd yn ei flaen yn unig os oes digon o ymatebion i sicrhau cystadleuaeth deg. Os oes rhagor yn bodloni'r meini prawf, gellir gostwng y nifer i'r rhif sy'n cael ei nodi yn yr hysbysiad contract cyn belled bod proses ar gyfer dewis y rhai sy'n sgorio uchaf (gweler **Diffiniadau**) neu gallent i gyd fynd ymlaen i'r cam nesaf yn ôl dewis yr awdurdod (rheoliad 65).
4. Gall yr awdurdod eithrio darparwyr (gweler **Diffiniadau**) yn unol â'r RCC os nad ydynt, er enghraifft, yn bodloni'r lefel isaf o sefyllfa economaidd ac ariannol neu allu technegol neu broffesiynol. Rhaid nodi'r meini prawf eithrio yn yr hysbysiad contract a dylai fod yn gysylltiedig mewn dull cymesur i bwnc y contract.
5. Mae'r dewis yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 58. Fel y llwybr agored, yr unig beth all awdurdod ei wneud pan maent yn derbyn y bidiau yw gofyn am ragor o wybodaeth (h.y. eglurder ar y materion a osodwyd yn y rheoliadau hyn). Ni chaniateir trafodaethau felly mae'n anhyblyg.

Cytundebau Fframwaith (Rheoliad 33)

1. Mae'r caffael yn mynd yn ei flaen fel un o'r gweithdrefnau agored, cyfyngedig, wedi ei drafod

neu ddeialog cystadleuol (gweler **Diffiniadau**). Mae'n rhaid i'r hysbyseb ei wneud yn glir fod cytundeb fframwaith yn cael ei osod.

2. Gellir penodi un neu ragor o ddarparwyr. Wedyn gellir prynu gwasanaethau yn ôl y galw (gweler **Diffiniadau**) neu eu prynu o dan y fframwaith cytundebau unai heb unrhyw broses pellach neu drwy ddefnyddio meini prawf dyfarnu ar gyfer dyfarnu neu os bydd angen am gystadleuaeth fach (gweler **Diffiniadau**) wedi ei seilio ar fethodoleg dethol yn y fframwaith; gyda'r rhai perthnasol sy'n bidio (gweler **Diffiniadau**) yn cael cyfle i fidio.
3. Oni bai y ceir amgylchiadau eithriadol y cyfnod hiraf ar gyfer cytundeb fframwaith yw 4 blynedd.
4. Y brif broblem gyda fframwaith yw ei anhyblygrwydd gan na ellir ychwanegu neb yn ystod ei fywyd. Mewn ymarfer, gall y farchnad newid o fewn cyfnod y fframwaith gyda rhai darparwyr yn rhoi'r gorau i fusnes ac eraill yn cael eu trofeddiannu gan ddarparwr fframwaith arall. Ni ellir ychwanegu rhai sy'n newydd i'r maes. Mewn ymarfer, tuag at ddiwedd y fframwaith mae'n bosib nad oes digon o ddarparwyr ar y fframwaith yn enwedig mewn marchnad lle gall darparwyr beidio â bod mewn busnes bellach ac/neu mae nifer cyfyngedig o ddarparwyr o ddechrau'r fframwaith.

System Prynu Dynameg (Rheoliad 34)

1. Pryniant electroneg lwyr yw hon ar gyfer pryniant a ddefnyddir cyffredin ac ar gyfer gwasanaethau lle nad yw fframwaith yn ddigon hyblyg, ac mae natur y farchnad angen i'r system i fod yn agored i rai newydd yn y farchnad. Ei gryfder yw ei fod yn hyblyg iawn ac yn caniatáu rhai newydd i'r farchnad unrhyw dro. Ei wendid yw ei fod yn cymryd llawer o amser ac yn gymhleth i'w reoli, ac angen adnoddau sylweddol a parhaol i wneud hynny.
2. Mae cyfyngder amser ar gyfer set o geisiadau i gymryd rhan, sef 30 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) neu'r defnyddir y HGF (gweler **Diffiniadau**). Mae'n rhaid i'r galw am gystadleuaeth (yr hysbyseb, ar lafar) ei wneud yn glir bod system brynu dynameg ynghlwm â fo, a chynnwys lleiafswm natur ac amcangyfrif o werth y pryniant ac unrhyw raniad i mewn i gategoriâu o gynnyrch, gweithiau neu wasanaethau a'u nodweddion.
3. Hanfod y llwybr yma yw ei fod ar agor i ddarparwyr newydd ymuno drwy gydol cyfnod ei fywyd os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodwyd. Mae'n rhaid i'r system brynu dynameg gael tymor contract penodol ond gall hwn fod gyn hired ac y dymuna'r awdurdod a'i hysbysebu. Mewn ymarfer mae'n gweithredu mewn ffordd syml i restr sydd wedi ei gymeradwyo a dylai allu weithredu gyda threfniadau yn ôl y galw neu gystadlaethau bach ar gyfer bob dyfarniad.

Gweithdrefn Gystadleuol gyda Thrafodaeth (Rheoliad 29)

1. Gweithdrefn newydd yw hon gyda'r bwriad o wella rhwystrau deialog gystadleuol. Gweler hefyd rheoliad (65) (4) sy'n nodi mai'r lleiafswm o ymgeiswyr a wahoddir i dendro yw 3, ond mae hyn yn ddibynnol ar gael digon o ymgeiswyr i sicrhau gwir gystadleuaeth (rheoliad 65) (5)). Ni allaf weld hyn yn cael ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd ar gyfer y gwasanaethau hyn ond mae'n bosibl y gellir defnyddio rhai elfennau.

Gweithdrefn Deialog Gystadleuol (Rheoliad 30)

1. Mae hwn yn ddull hanner ffordd rhwng gweithdrefnau agor a chyfyngedig a gweithdrefn drafodaeth ac fe'i bwriedir ar gyfer gweithdrefnau mwy cymhleth yn unig. Mae'n caniatáu ar gyfer trafodaeth, eglurdeb neu gadarnhad o fid gan un sy'n tendro ond nid ar gyfer addasu sylweddol ohono. Nid yw'r farchnad yn ei hoffi oherwydd ei gymhlethdod a'i gost. Ni allaf weld hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hyn yn ei gyfanrwydd ond eto efallai y gellir mabwysiadau elfennau ohono.

Partneriaeth Arloesi (Rheoliad 31)

1. Mae hwn yn berthnasol i gynnyrch, gwasanaethau neu waith arloesol na ellir eu bodloni drwy brynu cynnyrch, gwasanaethau neu waith sydd i'w cael ar y farchnad yn barod. Mae'n annhebygol o fod yn berthnasol gan i'r diffiniad fod yn gyfyngedig iawn, (er nid yw maint y cyfyngiadau bod tro'n cael eu gwerthfawrogi).

Y Gyfundrefn Drafodaeth heb Gyhoeddiad Blaenorol (Rheoliad 32)

1. Mae hwn yn weithdrefn eithriadol ac mae ei ddefnydd yn gyfyng iawn. Ceir sawl defnydd o'r gyfundrefn drafodaeth, heb gyhoeddiad blaenorol o hysbysiad contract neu HGF (gweler **Diffiniadau**). Mae'r rhai sydd yn cael y defnydd mwyaf cyffredin (yn fyr) fel a ganlyn:-
 - lle mae gan awdurdod wedi methu caffael oherwydd anghysondebau yn y tendrau (gweler **Diffiniadau**), tendrau annerbyniol (gweler **Diffiniadau**) (e.e. nid oes digon neu mae pawb neu bron bawb yn methu) lle cafwyd llwybr agored neu gyfyngedig ac mae'r termau gwreiddiol a gynigwyd yn y llwybr wedi dod i ben ac ni chant eu haddasu yn sylweddol yn y weithdrefn newydd. Nid yw'r glir beth mae 'ni chant eu haddasu'n sylweddol' yn ei feddwl; neu
 - oherwydd rhesymau technegol neu artistig nid oes ond un gweithredwr economaidd arbennig;
 - os oes brys difrifol. Mae'r diffiniad yn eithrio amgylchiadau y gellir eu priodoli i'r awdurdod, er enghraifft oherwydd bod yr awdurdod wedi anghofio mynd at y farchnad neu wedi bod yn aneffeithlon rhyw ffordd arall; neu
 - amddiffyn hawliau unigryw gan gynnwys hawliau deallusol.
2. Mae'r rhain yn brosesau eithriadol a cheir rheolau technegol ynglŷn â'u defnydd. Fe awgrymir cymryd cyngor cyfreithiol cyn i'r eithriad hon gael ei ddefnyddio. Er nad yw'r gofynion technegol y rheoliad hwn yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' mae gofynion cyffredinol tryloywder a thriniaeth gyfartal i'r rhai sy'n bidio yn berthnasol.

Y Broses Caffael

Cyflwyniad a Chyffredinol

1. Yn y rhan hwn o'r canllaw rwyf yn disgrifio proses caffael.

Beth sydd angen eu cyhoeddi i'r farchnad a beth yw Dogfennau Caffael (Contract, yn flaenorol)? (Rheoliad. 2)

1. Rhain yw bopeth a ddefnyddir i ddisgrifio neu benderfynu elfennau o'r caffael neu weithdrefn.

Maent yn cynnwys y dogfennau a osodir isod:-

- y dogfennau disgrifiadol (os oes rhai), dogfen sy'n nodi'r y cyfle caffael arfaethedig ac amodau'r contract.
 - manylebau neu ddisgrifiad o'r nwyddau, gwasanaeth, gwaith a'r deunyddiau sydd i'w defnyddio, os yn berthnasol.
2. Nid yw'r rheoliad hwn yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' yn yr iaith yma ond mae egwyddorion tebyg yn berthnasol.

Manylebau Technegol yn y Dogfennau Contract

1. Gweler diffiniadau yn rheoliadau 2 a 42 (2) - (7)) ar gyfer ystyr hyn. Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' ond er mwyn cydymffurfio â'r gofyn am dryloywder a thriniaeth gyfartal i ddarparwyr mae angen rhywbeth tebyg ar gyfer gosod y gofynion technegol.

Ymgynghoriad Marchnad Cychwynnol ac Ymwneud Blaenorol Ymgeiswyr mewn Tendrau (Rheoliadau.40-41)

1. Mae rheoliadau 40 a 41 yn adnabod proses sy'n caniatáu i awdurdodau i gynnal ymgynghoriad marchnad cychwynnol ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ymwneud blaenorol ymgeiswyr mewn tendrau.
2. Diffinnir ymgynghoriad marchnad yn rheoliad 40 fel proses sy'n dechrau cyn cychwyn caffaeliad ac sy'n 'ymgynghoriad marchnad gyda bwriad i baratoi'r caffael a hysbysu'r farchnad o'u cynlluniau a'u hanghenion caffael'. Mae felly'n broses sydd yn dechrau pan mae'r awdurdod wedi penderfynu fod caffaeliad o dan feddwl yn unig, nid proses ymgynghorol a strategol ehangach. Mae'r farchnad wedi ei ddiffinio fel darparwyr yn y cyd-destun yma ac felly darpar dendrwy. Caiff tendrwy neu ddarparwyr eu hadnabod yn benodol yn y Gyfarwyddeb a'r RCC oherwydd mae'n gydnabyddedig fod ganddynt wybodaeth a gwerth y dylid cael ei ystyried gan awdurdodau. P'un a yw darparwyr yn ymateb i brosesau ymgynghori cynt ai peidio, dylid ymgynghori â nhw ar y cam yma. Gallent fod yn ffynhonnell o atebion gan yn aml bydd ganddynt brofiad sylweddol a phrofiad o ddarparu gwasanaethau tebyg, ond gallent fod yn amharod i gynorthwyo os ydynt mewn cystadleuaeth am waith. Gallent helpu i adnabod ffyrdd newydd o gyflawni canlyniadau a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Gall peilot fod yn ddull defnyddiol (os oes amser i hynny) i dreialu dulliau newydd. Cyn belled nad oes unrhyw ddarparwyr yn cael mantais amhriodol, gall ymgynghoriad cyn-farchnad fod yn ddefnyddiol iawn i gomisiynwyr a swyddogion caffael i gyfrannu at ddylunio atebion gwasanaeth arloesol, ac yn wir holl atebion gwasanaeth.
3. Yn rheoliad 41 mae gofyniad cyffredinol y dylai'r awdurdod gymryd mesurau priodol i sicrhau nad yw cystadleuaeth yn cael ei wrydroi gan y math o gyfranogiad. Er nad yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) mae rheoliad cyfatebol yn rheoliad 76. Mae'r egwyddorion yn ddefnyddiol a gellir eu haddasu'n syml ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn'.

Holiadur Dethol Safonol (Rheoliad 59)

1. Cyflwynwyd hwn fel gorfodaeth o 8^{fed} o Fedi 2016 (gweler Gwasanaeth Masnachol y Goron, *Procurement Policy Note: Standard Selection Questionnaire (SQ)* Nodyn Gweithredu 8/16

yn lle proses holiadur cyn-gymhwyso (PQQ). Ei bwrpas yw gosod y cwestiynau a ddefnyddir i werthuso'r darparwyr yn y cam cyntaf yma, y cam gwerthuso sy'n ceisio gwybodaeth gan y bidwyr ar eu statws gan gynnwys eu statws ariannol a thechnegol. Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol yng Nghymru. Ym Mai 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodyn hysbysu caffael i'w ddefnyddio pan mae awdurdodau yn defnyddio Dogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd (DGSE) ar lein ar Gwerthwchi Gymru i greu eu dogfen eu hunain. Dywedir ei fod yn orfodol o fis Hydref a chyfeirir at Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (wedi ei ddyddio 2014 h.y. cyn y RCC) sydd yn gosod yr egwyddorion a ddisgwylir gan awdurdodau Cymru.

2. Fodd bynnag, nid oes dim o hyn yn mynd i'r afael a sut i roi hyn ar waith gyda chaffael 'cyffyrddiad ysgafn'. Yn ôl y canllaw ar 'cyffyrddiad ysgafn' a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Masnachol y Goron mae'n berthnasol i 'gyffyrddiad ysgafn' ond nid yw hyn yn gwneud synnwyr oherwydd nid yw'r gofynion sydd rhaid eu cynnwys yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' felly nid yw'n glir os yw'n berthnasol!
3. Ceir y cyfeiriad cyntaf at 'cyffyrddiad ysgafn' yn y Cwestiynau Cyffredin yn nhudalennau 3 - 4 Atodiad D yr Hysbysiad Polisi Caffael. Mae'n debyg mai argymhellion yw'r sylwadau ac nid yw'r canllaw hwn yn benodol ynglŷn ag yw'n berthnasol ai beidio. Mae'r Cwestiynau Cyffredin yn dweud y dylid defnyddio detholiad o gwestiynau o Ran 3 y HD h.y. y cwestiynau sy'n ymwneud â statws economaidd ac ariannol a hefyd argymhellir darnau o Ran 1 a 2.
4. Mae'r dulliau a'r dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg i fod yn fwy syml gan mai dim ond y darparwr(wyr) sy'n ennill sy'n gorfod profi eu statws ond mae'n cyfyngu'r wybodaeth y gellir ei geisio yn gyffredinol, mae'n gosod y baich ar y darparwr i hunan-ardystio eu bod cydymffurfio ac os na all darparwr sy'n ennill profi ei fod yn bodloni'r statws cyn-gymhwyso, cant eu gwrthod ar gam hwyr iawn yn y broses wedi iddynt gyflawni'r gwaith i gyd i gael eu cymeradwyo. Nid yw'n glir os yw hyn yn ymarfer dda ar gyfer caffael 'cyffyrddiad ysgafn' gan efallai ei bod hi'n well gan awdurdodau a darparwyr i gael proses cyn-gymhwyso safonol, a gwrthod darparwyr sydd ddim yn cyrraedd y meini prawf yn y camau cychwynnol fel eu bod yn gwybod nad ydynt yn gymwys.

Meini Prawf ar gyfer Gwrthod Darparwr (Rheoliad 57) a Meini Prawf Dethol o ran Sefyllfa Economaidd ac Ariannol (Rheoliadau. 58 a 60)

1. Gosoda'r darpariaethau yma ddarpariaethau manwl yn ymwneud â meini prawf gorfodol a dewisol i wrthod bidwyr a meini prawf dethol h.y. yr hanes masnachol yn gyffredinol a hanes masnachol perthnasol. Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn berthnasol ar yn gymesur i'r contract. Mae proses ddethol yn edrych yn ôl i sefydlu addasrwydd sylfaenol rhai sy'n bidio. Nid yw'r rheoliadau yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn'. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol i awdurdodau i sefydlu atebion i'r wybodaeth hon ac fel rhan o hyn, gosod meini prawf dethol sydd yn deg, tryloyw ac yn cefnogi triniaeth gyfartal. Mae'n ymarfer dda ac awgrymaf y dylid ei ddilyn yn fras:-
 - gofynion sylfaenol fel enw, statws, llywodraethu, yswiriant, cadarnhad nad oes unrhyw un o'r seiliau gorfodol neu ddewisol ar gyfer gwrthod yn berthnasol, a chadarnhad cofrestru. Mae'r rhain yn safonol a ni ddylid bod yn ddadleuol;
 - arddangos sefyllfa economaidd ac ariannol. Mae hyn yn fwy gwrthrychol ac angen dealltwriaeth o ystyr y wybodaeth ariannol ar gyfer gwahanol strwythurau. Mae rheoliad 58 wedi ei gefnogi gyda rheoliad 60(6) er mwyn tystiolaeth yn gosod gwybodaeth a awgrymir.

Y mater yw sut i sefydlu hyn mewn marchnad lle mae nifer o ddarparwyr yn fychan ac efallai heb fod yn fasnachol gryf. Gall gwerthuso cryfder ariannol, hylifedd, tebygolrwydd o fynd yn fethdalwyr, ac felly dadansoddi cyfrifon fod yn dechnegol ac angen sgiliau perthnasol a dealltwriaeth o gyfrifo yn y sector breifat;

- gallu technegol a phroffesiynol. Mae'r drydedd gangen hefyd yn wrthrychol ac mae'n codi cwestiwn os yw hi'n ddigonol mewn marchnad wedi ei reoleiddio i ddarparwr fod yn gofrestredig, nad oes ganddynt yr erlyniadau perthnasol neu'n cael eu harchwilio am unrhyw anghydfurfiaeth gyda rheolau neu gyda'r yswiriant cywir? Mae pa mor bell dylai awdurdod wybod am gontractau hanesyddol, iechyd a gofal, datblygu prentisiaid a pha mor bell gall awdurdod holi a chymryd i ystyriaeth agwedd y darparwr tuag at faterion cymdeithasol, amgylcheddol a gweithlu yn faterion cymhleth. Gall fod angen cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Mae gallu'r awdurdod i gymryd y rhain i ystyriaeth o fewn y gwerthusiad (ac ar ôl hynny fel rhan o reoli'r contract) yn gyffredinol yn gyfyngedig gan y Gyfarwyddeb a'r RCC (gweler **Diffiniadau**) i raddau mae'r rhain yn berthnasol i berfformiad y contract ac nad ydynt yn rhoi mantais i ddarparwyr lleol.

Meini prawf ar gyfer Dyfarnu, Costio Cylch Bywyd a Thendrau Annormal o Isel (Rheoliad. 67 - 69)

1. Mae rheoliad 67 yn adnabod y meini prawf ar gyfer dyfarnu contract i weithredwyr economaidd. Yr ail gam yn y broses caffael yw dyfarnu. Ei fwriad yw gwerthuso os yw bidiwr (gweler **Diffiniadau**) wedi cyrraedd gofynion y gwahoddiad i dendro (gweler **Diffiniadau**) yn eu bid (gweler **Diffiniadau**). Nid yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i 'gyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) ond fel cymaint o'r rheoliadau ar gyfer rheiny nad ydynt yn 'gyffyrddiad ysgafn' mae mabwysiadu egwyddorion y rheoliadau yn ymarfer da i sicrhau fod proses deg a thryloyw yn cael ei chynnal.
2. Gosoda'r broses ddyfarnu'r meini prawf mae bob bid (gweler **Diffiniadau**) yn cael ei werthuso'n ei erbyn cyn i'r bidiwr dewisol, neu yn achos fframwaith brynu dynameg (gweler **Diffiniadau**) dyfernir contract i'r bidwyr hynny sy'n cyrraedd y trothwy. Mae'n rhaid i ddyfarniad nawr gael ei seilio ar y cynnig sydd â'r cynnig economaidd mwyaf manteisiol o safbwynt yr awdurdod. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod y fethodoleg ar gyfer sefydlu a yw'r bidiau yn dangos fod y bidiwr yn gallu cyrraedd yr anghenion penodol y caffael h.y. ceisio rhagweld sgiliau'r dyfodol a gallu wedi'i fesur drwy gyfeirio at y gofynion y gwahoddiad i dendro (gweler **Diffiniadau**).
3. Ceir hefyd gweithdrefn ar gyfer gwrthod tendr annormal o isel. Tendr annormal yw un lle mae'r awdurdod yn credu ei fod yn llawer is na gwir gostau cyflawni'r gwasanaeth.
4. Mae achosion cyfraith eang ar brosesau gwerthuso a dyfarnu a'u methiant i gydymffurfio â'r gyfraith. Hwn mae'n debyg yw'r rhan sydd yn creu gwrthdaro cyfreithiol mwyaf yn y RCC ac mae rhywfaint o'r achosion cyfraith yma yn berthnasol i 'gyffyrddiad ysgafn'.

Rhwymedi (Rhan 3 Rheoliadau. 85 - 104)

1. Ceir amserlenni rhagnodol a gweithdrefnau cydymffurfio i hysbysu dyfarniadau sy'n gofyn am roi rhesymau manwl i fidwyr aflwyddiannus ynglŷn â pham eu bod yn aflwyddiannus a herio gwrthodiad. Mae prosesau ac amserlenni herio yn dechnegol ac nid ydynt yn debygol o fod yn berthnasol i gomisiynwyr a swyddogion o ddydd i ddydd felly nid ydynt yn cael yn cynnwys

yn y ddogfen hon. Mae'r rhan fwyaf o'r prosesau yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn', ond mae ychydig o amheuaeth a yw bob un yn berthnasol.

Addasiadau Perfformiad Contract (Adran 6, Rheoliadau. 70-73) a sut mae hyn yn berthnasol i Ran B (gweler Diffiniadau a 'Cyffyrddiad Ysgafn')

1. Mae'r rhan hon o'r RCC (gweler Diffiniadau) yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**). Nid oes dim yn y rheoliad hwn sydd yn eithrio contractau 'cyffyrddiad ysgafn' o'r angen i gydymffurfio â'r rheoliad ac at y gweithdrefnau dyfarnu yn unig mae'r eithriadau 'cyffyrddiad ysgafn' yn berthnasol.
2. Mae rheoliad 70 yn darparu y gellir cynnwys amodau arbennig i berfformiad cytundeb, cyn belled eu bod yn gysylltiedig â phwnc y contract fel y'i diffinnir yn rheoliad 67 (5), a ni ystyriaf eu bod yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) ac a nodwyd yn yr hysbysiad CSUE neu ddogfennau caffael (gweler **Diffiniadau**). Gall y rhain fod yn ymwneud ag amodau economaidd, yn perthyn i arloesedd, amgylcheddol, cymdeithasol neu gyflogaeth.
3. Darpara rheoliad 71 ar gyfer cynnwys manylion isgcontractwyr yn nhendyr darparwr.
4. Darpara rheoliad 72 ar gyfer addasu (neu amrywio) (gweler **Diffiniadau**) contractau sy'n bodoli eisoes yn ystod eu cyfnod eu contract. Mae'n gymhleth ac nid yw'n syml ei ddehongli. Addasu yw'r ymadrodd a ddefnyddir yn y RCC ar gyfer amrywio neu newid i'r contract. Gall gomisiynydd neu swyddog caffael fod angen cyngor cyfreithiol i ddehongli sut mae rheoliad 72 yn berthnasol i gontract penodol.
5. Gall contractau gan gynnwys fframweithiau a systemau prynu dynameg (SBD) (gweler **Diffiniadau**) gael eu haddasu (h.y. amrywio) heb gaffael newydd cyn belled fod cydymffurfio â rheoliad 72. Mae rheoliad 72 yn hir a manwl ac rwyf wedi gosod y prif bwyntiau yn unig. Os nad oes addasiad priodol sy'n cydymffurfio yn y contract, ni ellir addasu'r contract a gellir fod angen caffael newydd.
6. Mae nifer o amgylchiadau eraill wedi eu nodi sy'n caniatáu addasiadau. Y rhain yw:-
 - y darperir am yr addasiadau yn y dogfennau caffael cychwynnol (gweler **Diffiniadau**) mewn 'cymalau adolygu clir, manwl gywir a diamwys', rhaid datgan cwmpas a natur yr addasiad gan gynnwys 'o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio' a ni ddylai'r addasiad newid natur gyffredinol y contract neu fframwaith (gweler **Diffiniadau**). Mae'n aneglur sut mae hyn yn berthnasol i SBD (gweler **Diffiniadau**) rheoliad 72 (1) (a) (i));
 - mae gwaith ychwanegol, wasanaeth neu gyflenwadau gan y darparwr 'wedi dod yn angenrheidiol', ond nid oeddynt wedi eu cynnwys yn y caffaeliad gwreiddiol ac ni ellir newid contractwr oherwydd 'rhesymau economaidd neu dechnegol'. Mae'r esiamplau a geir yn ymwneud ag anawsterau gydag offer, gwasanaethau neu gyflenwadau a lle buasai 'anghyfleustra sylweddol neu ddyblu costau'n sylweddol'. Yr anhawster gyda'r ddarpariaeth hon yw nad yw ond yn berthnasol i godiad mewn pris o '50% neu lai o werth y contract gwreiddiol' mewn unrhyw flwyddyn (rheoliad 72 (1)(b)). Mae rhai anawsterau technegol efo'r ddarpariaeth hon. Nid yw llawer o'r fframweithiau a'r systemau prynu dynameg (gweler **Diffiniadau**) yn gwarantu cynnig gwaith felly gellir diffinio gwerth y 'contract gwreiddiol' yn ddim. Os mai hwn yw'r dehongliad cywir mae'r ddarpariaeth hon yn mynd yn amherthnasol i lawer o fframweithiau a systemau prynu dynameg. Mae dehongliadau eraill yn bosibl ac nid

oes achosion cyfraith felly nid yw'n glir sut mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei ddehongli gan y llys. Mae hwn yn enghraifft o'r anhawster mawr mewn dehongli'r rheoliad hon. Yn ffodus os yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol nid yw'n gronnus felly fe drinnir bob blwyddyn fel un newydd ar gyfer cyfrifo gwerth y contract gwreiddiol. Er enghraifft, mae hwn yn ddefnyddiol os oes newid tymor byr mewn un flwyddyn;

- mae angen addasiad oherwydd newid mewn amgylchiadau na ellir fod wedi eu rhagweld. Mae hwn hefyd gyda'r cyfyngiad 50%. Ni ddylai addasiadau dilyniannol 'anelu at osgoi'r' rheoliadau. Gweler uchod ar gyfer contractau heb warant o waith;
 - nid yw'r addasiadau yn cael eu hystyried yn sylweddol fel y'i diffinnir yn rheoliadau 72 (5) a (8). Y cynnydd canrannol uchaf mewn gwerth i ganiatáu'r newid ar gyfer contract gwasanaethau yw 10%. Fodd bynnag, mae'r un broblem gychwynol yn berthnasol fel uchod os nad oes ymrwymiad dan contract i gynnig unrhyw waith;
 - y gellir cael addasiad heb ail dendro mewn rhai amgylchiadau os darperir am hyn yn y gaffael gwreiddiol ar gyfer materion fel ansolfedd, ailstrwythuro corfforaethol neu drosfeddiannu ac uno ayyb. (rheoliad 72 (1)(d)).
7. Cafodd grym awdurdod i addasu contract, ag ymgwymerwyd â fo o dan Reoliad Contractau Cyhoeddus 2006 ag a addaswyd ar ôl i'r RCC ddod yn gyfraith, ei ystyried mewn achos yn y Goruchaf Lys yn ddiweddar. Cadarnhaodd y Llys fod yn rhaid i unrhyw gymalau addasu fod yn 'glir, manwl gywir a diamwys'. Mae gofyn am hyn er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion tryloywder (neu degwch). Nid yw cymalau amrywio neu addasu yn ddigonol. Yn ogystal, fe ddywedon fod addasiad materol (h.y. sylweddol) sydd ddim yn cydymffurfio a rheoliad 72 yn cael ei ddehongli fel dyfarnu contract newydd h.y. dyfarniad uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**) anghyfreithlon o bosibl gan fod y ddarpariaeth addasiadau'r RCC yn berthnasol i gontractau cyn RCC.
 8. Ceir rhai materion nad yw'n glir, er enghraifft, beth petai'r partïon yn peidio â dilyn yr amserlen neu'n peidio â dilyn gofynion eraill y ddarpariaeth addasiadau, a ellir amrywio'r rhain drwy ganiatâd? Pwrpas y RCC yw sicrhau masnach rydd a thegwch cyfle drwy Ewrop felly mae'n rhaid i bartïon fod yn ofalus ynglŷn â dehongli eu contract yn hyblyg. Os yw addasiadau yn newid natur y contract mae'n debyg na fydda'r llysoedd yn gweld hyn yn gyfreithiol gadarn. Gall addasiad sy'n torri'r rheoliadau gael ei ddehongli fel dyfarniad uniongyrchol anghyfreithlon (gweler **Diffiniadau**).
 9. Mae'n rheoliad 73 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gontract gynnwys darpariaethau sy'n galluogi terfynu os yw contract wedi cael ei haddasu'n sylweddol.
 10. Oni bai fod cytundeb wedi ei haddasu o dan yr esiamplau a welir uchod mae'n rhaid i awdurdod gyflwyno hysbysiad addasu CSUE (gweler **Diffiniadau**) fel y'i gosodir yn Rhan G o Atodiad V y Gyfarwyddeb (gweler **Diffiniadau**).
 11. Mae'r anhawster deongliadol gyda'r rheoliad cymhleth yma yn golygu y buasai'n ddarbodus i gymryd cyngor caffael cyfreithiol neu arbenigol cyn amrywio contractau neu ymgymryd â chontractau newydd am wasanaeth gyda darparwyr presennol unai o dan fframwaith sy'n bodoli eisoes neu ddyfarniad uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**).

Effaith y Newidiadau yn y RCC ar Gontractau sydd Eisoes yn Bodoli a rhai Newydd

1. Mae'r newidiadau yn y RCC yn berthnasol i gontractau cyn 2015, Rhan B (gweler **Diffiniadau**) yn ogystal â chontractau newydd.
2. Mae unrhyw addasiad neu ddyfarniad (gweler **Diffiniadau**) o gontract uwchben y trothwy (gweler **Diffiniadau**) sy'n torri'r darpariaethau hyn yn ddyfarniad uniongyrchol ac felly mae posib eu herio o dan y rheoliadau neu'n bosib yn ehangach. Dylai awdurdodau gofio ystyried y gofynion yn rheoliad 6, dulliau ar gyfer amcangyfrifo gwerth caffael gan gynnwys y ddarpariaeth gwrth-osgoi sy'n perthyn i gydgasglu a pheidio â rhannu contractau.

Caffael o Dan y Trothwy a Rheolau Gweithdrefn Contract yr Awdurdodau eu Hunain

1. Mae rheoliadau 106 - 112 yn ymwneud â chaffael o dan y trothwy (gweler **Diffiniadau**). Mae hwn yn newydd. Yn gyffredinol, mae caffael o dan y trothwy sydd â gwerth amcangyfrifol o dros £10,000 i lywodraeth ganolog a £25,000 o werth amcangyfrifol i lywodraeth leol angen ei hysbysebu drwy gyhoeddi gwybodaeth ar *Contracts Finder* (cyhoeddiad gan y llywodraeth ar gyfer hysbysebion ac yng Nghymru Gwefan Caffael Cenedlaethol GwerthwchiGymru a chyhoeddi'r dyfarniad. Nid yw hyn yn berthnasol i gaffaeliadau iechyd.
2. Nid gofyn Ewropeaidd y hwn ac nid oes cosb am dorri rheolau.
3. Mae'n bosib gosod y RCC yn wirfoddol ar gaffael o dan y trothwy ond nawr dim ond yn benodol yn unig, ac ni argymhellir hyn gan iddo gyflwyno cymhlethdodau dianghenraid (gweler **Diffiniadau**).
4. Mae gan bob awdurdod gyfansoddiad sydd yn cynnwys rheolau contractau, a gall hyn fod o arwyddocâd yr un mor bwysig. Fel arferol mae'r rhain yn darparu ar gyfer prosesau sydd wedi eu haenu ar gyfer caffael yn ddibynnol ar eu maint e.e. dywedwn i hyd at £10,000 heb fidiau cystadleuol, rhwng £10,000-£50,000 drwy gael tri thendr ac uwchben hynny proses marchnad agored. Fodd bynnag, nid oes llawer yn mynd i'r afael â chaffael gofal cymdeithasol neu ddarparu gweithdrefnau penodol i rain a chaffael arall sy'n 'cyffyrddiad ysgafn' sydd yn fwy addas ar gyfer y caffaeliadau arbenigol hyn. Fel y nodwyd gall hyn arwain at ddisgwyliad y dylid ymdrin â'r math yna o gaffael yn unol â'r rheolau safonol.

Materion Amrywiol

1. Dylai awdurdodau lleol dalu anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod a dylid cynnwys darpariaeth yn ymwneud â chontractwr yn talu is-contractwr. Mae eithriad i wasanaethau gofal iechyd (ac mewn Ysgolion Academi yn Lloegr) (rheoliad 113) y dylid ei ystyried mewn bidiau ar y cyd rhwng llywodraeth leol a byrddau iechyd. Dylid cynnwys darpariaeth yn y contract sydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r contractwr dalu'r is-contractwr o fewn yr amserlen hon.
2. Mae hyn yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn'

1.5 Anghysondebau – gwaharddiad trafodiad tir (rheoliad 10)

1. Nid yw'r RCC yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud â chontract i gaffael neu rentu tir, adeiladau presennol neu eiddo sefydlog arall neu sy'n ymwneud â diddordeb mewn hawliau ynddyn nhw neu drostyn nhw (rheoliad 10 (1)) ond nad ydynt yn berthnasol os nad yw'r trafodiad yn un bur am dir er enghraifft llawer o werthu i fudiadau tai gyda hawliau enwebu cysylltiedig.

Rhan 2

Datblygu a chyflawni
gweithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn'
effeithiol ar gyfer gofal yn y
cartref wedi ei reoleiddio

2.1 Cyflwyniad a phrif bwyntiau yn cynnwys risgiau

Y Cefndir Rheoleiddiol

1. Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad a Phrif Bwyntiau, yn y rhan hon o'r ganllaw rwyf yn ffocysu ar ddisgrifio a dadansoddi'r materion penodol sy'n codi ynglŷn â chyflawni gweithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn' effeithiol ar gyfer gofal yn y cartref wedi ei reoleiddio.
2. Yng Nghymru mae gofal cartref nawr wedi ei reoleiddio gan gyfundrefn reoleiddio a roddwyd mewn lle o dan Ddeddf Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 sy'n cefnogi amcanion Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014.
3. Mae'r gyfundrefn reoleiddio, a ddaeth i rym ar 1^{af} Ebrill 2018 yn newid y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu cofrestru a'u harolygu. Bydd nawr yn ffocysu ar sicrhau gwelliannau yn safon y gofal a chefnogaeth a chanlyniadau llesiant ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae hwn yn newid dull sylweddol iawn o'r un blaenorol pan fyddai'r methodolegau yn cael eu gyrru gan broses.
4. Mae tu allan i gylch gorchwyl y ganllaw hwn i ddadansoddi neu roi sylwadau i unrhyw raddau ar y gyfundrefn reoleiddio newydd neu ar rôl a chyfrifoldebau'r rheoleiddiwr, Arolygaeth Gofal Cymru. Fodd bynnag, mae'r dull a osodir yn y ganllaw hwn ac, yn benodol, yn yr adran hon, yn gwbl gyson gyda deddfwriaeth a osodir uchod a gydag ymagwedd Arolygaeth Gofal Cymru i gael ffocws sy'n canolbwyntio ar y person a rheoleiddio mewn dull sy'n cefnogi ac yn anelu at ganlyniadau llesiant i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Rwyf yn rhannu'r uchelgais a'r amcanion hyn ac rwyf wedi eu hystyried wrth ddrafftio'r ganllaw hwn.

Y Dull Cyfredol a Hanesyddol a Risgiau Presennol i Gyflawni Gwasanaeth Effeithiol

1. Ar hyn o bryd mae llawer o wasanaethau wedi eu seilio ar fodel 'tasg ac amser' gyda dogfennau sy'n adlewyrchu'r dull hwn. Mae'r model hwn wedi dyddio gan nad yw'n hyrwyddo llesiant fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau a wnaed o dan rain.
2. Mae dull sy'n canolbwyntio ar y person yn gofyn am newid sylweddol yn y prosesau a dogfennau comisiynu a chaffael.
3. Mae trosolwg o'r risgiau presennol a dyfodol, wedi eu gosod yn fwy manwl isod, yn cynnwys y canlynol:-
 - nid oes digon o ddarparwyr, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau arbenigol neu mewn ardaloedd gwledig, i gyrraedd anghenion prynu'r awdurdodau.
 - mewn cyfnod o lymder cyllidol ac adnoddau prin mewn llywodraeth leol mae'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r gyfundrefn rheoleiddio a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu yn wyneb hyn a'r RCC (gweler **Diffiniadau**) yn sylweddol ac felly'n anodd i lawer o awdurdodau i roi'r adnoddau iddo; ac
 - darpariaeth anghyflawn i holl wasanaeth gan fframweithiau neu SBD (gweler **Diffiniadau**), mae prinder darparwyr a materion adnoddau awdurdod yn arwain at risg nad yw pryniant rhai pecynnau gofal yn cael eu caffael mewn cydymffurfiaeth â'r RCC (gweler **Diffiniadau**), gan adael awdurdodau yn agored i'r risg o gael eu herio.

4. Fel y nodwyd, mae newidiadau rheoleiddio yn mynnu dull gwahanol i gomisiynu a chaffael. Dull a dogfennau sydd wedi eu cyd gynhyrchu gyda defnyddwyr a'u teuluoedd, darparwyr a'r holl rhanddeiliaid, sydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth, yn annog darparwyr newydd i'r farchnad ac sy'n ffocysu ar godi annibyniaeth y defnyddiwr a llesiant.

2.2 Caffael gwasanaethau cefnogi gofal cartref a'r broses caffael – trosolwg a phroblemau

Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon o'r ganllaw yn ystyriaeth o faterion caffael penodol sy'n berthnasol i ofal yn y cartref. Er iddo gael ei ysgrifennu gan gyfeirio yn benodol at ofal yn y cartref mae llawer o'r cynnwys yr un mor berthnasol i bob math o gaffael 'gyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**).
2. Mae ystyriaeth prosesau cyn caffael fel siapio marchnad neu gomisiynu y tu allan i gylch gorchwyl y canllaw hwn. Caiff y rhain eu hystyried mewn manylder ym Mhecyn Cymorth Comisiynu Gofal yn y Cartref yn Seiliedig ar Ganlyniadau a ddarperir gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen. Tybia'r ganllaw hwn fod siapio marchnad ar gyfer comisiynu a chyn caffael wedi digwydd a bod yr awdurdod yn barod i fynd ymlaen â'r broses caffael.

Beth yw gofal yn y cartref?

1. Yng Nghymru, mae gofal yn y cartref yn cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'n gyfundrefn rheoleiddio newydd a ddaeth yn ddeddf ar 2^o Ebrill 2018. Fel y nodwyd, y rheoleiddiwr yw Arolygaeth Gofal Cymru. Bydd angen i bob darparwr sydd yn darparu gwasanaethau cefnogi yn y cartref (ac wrth gwrs gwasanaethau rheoledig eraill) fel y'i diffinnir ym mharagraff 8 o Atodlen 1 o'r Ddeddf fod wedi eu cofrestru.
2. At bwrrpas y ganllaw hon defnyddir yr ymadrodd gofal cartref fel y'i diffinnir o dan Atodlen 1 o'r Ddeddf 2016 hon i olygu'r gwasanaeth cefnogi yn y cartref:-
"gofal cartref wedi'i ddarparu i oedolyn sydd oherwydd bregusrwydd neu angen yn methu ei ddarparu iddo ef neu hi ei hun ac sydd yn cael ei ddarparu yng nghartref y person yng Nghymru. Mae'n cynnwys gwneud trefniadau ar gyfer neu ddarparu gwasanaethau yn gysylltiedig â'r math o ddarpariaeth."
3. Mae eithriadau yn y Ddeddf rhag gorfod cofrestru fel darparwr gwasanaeth cefnogi yn y cartref. Mae'r eithriadau yn cynnwys gofal cartref a ddarperir gan unigolyn sydd ddim yn rhedeg busnes ac sy'n gweithio yn gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y person sy'n derbyn y gofal a chefnogaeth, neu os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn cartref gofal neu lety preswyl arall neu ysbyty neu gan asiantaeth ragarweiniol sydd heb unrhyw rôl arall yng nghyflawni'r gwasanaeth cefnogi yn y cartref i unigolion neu os ceir ei ddarparu mewn dull micro cydweithredol (fel y'i diffinnir).
4. Mae disgrifiad ac esboniad manwl o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ofal cartref y tu allan i gylch gorchwyl y ganllaw hon. Darperir y wybodaeth uchod i roi ffocws i'r ganllaw.

Materion nodweddiadol sy'n Effeithio Caffael Gofal Cartref a Newidiadau a Argymhellir i Ddulliau Hanesyddol i Ddatrys Risgiau a Phroblemau

1. Yn yr adran hon o'r ganllaw rwyf yn adnabod risgiau nodweddiadol a hanesyddol, materion ac anawsterau yng nghomisiynu, caffael a chyflawni gwasanaethau gofal cartref. Maent yr un mor berthnasol i wasanaethau mewnol a darparwyr. Mae'r materion hyn yn tansellio gallu awdurdod i gyflawni gwasanaethau sydd yn seiliedig ar y person.
2. Ni fydd bob un o'r materion a phroblemau yn berthnasol i bawb nac ychwaith yn gyffredinol drwy Gymru, ond deallaf fod pryderon a risgiau nodweddiadol yn cynnwys (nid mewn unrhyw drefn benodol) y canlynol:-
 - Yn gyffredinol, nid oes digon o ddarparwyr i fodloni anghenion pryniant yr awdurdod un ai anghenion arbenigol (e.e. staff gofal rhugl yn y Gymraeg) neu'n gyffredinol. Mae hon yn broblem arbennig mewn mannau gwledig. Nid yw darparwyr annigonol yn broblem sy'n unigryw i Gymru;
 - gan fod nifer cyfyngedig o ddarparwyr, gall prosesau caffael yn syml fod yn chwarae 'musical chairs' gyda darparwyr presennol yn newid contractau ond heb ddarparwyr newydd yn dod i'r farchnad;
 - Mae'r manylebau cyfredol a all fod yr hyn a elwir yn fanyleb 'amser a thasg' (sef model wedi ei seilio ar fewnbwn lle mae'r darparwr yn rhwymedig i dreulio amser penodol gyda'r cleient ac ymgymryd â thasgau penodol, fel ymolchi, gwisgo, bwydo a chynorthwyo gyda meddyginiaeth). Mae'r fodel hon yn anghyson gyda'r gofyniad 'seiliedig ar anghenion' sy'n canolbwyntio ar y person yn y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) sydd yn newid y ffocws i ganlyniadau. Efallai na fydd darparwyr yn fedrus yng nghyflawni dull gwahanol a byddant, ynghyd a'u staff, angen cefnogaeth helaeth, hyfforddiant a chymorth gyda symud i ddull sy'n canolbwyntio fwy ar y person. Nid yw'r fanyleb draddodiadol amser a thasg o fewn pecyn gofal yn caniatáu ar gyfer ymateb hyblyg tuag at y defnyddiwr gwasanaeth unigol ac ar brydiau gall ostwng yr angen a'r dreif i'r defnyddiwr ddefnyddio eu gallu eu hunain i'r eithaf a lleihau maint y gofal sydd ei angen.
 - gall defnyddio fframweithiau anhyblyg a byr (gweler **Diffiniadau**) olygu nad oes unrhyw gymhelliant masnachol, neu un arall, neu allu i ddechreuwr newydd ddod i'r farchnad hyd yn oed petaent yn dymuno;
 - mae'r rhain yn wasanaethau sydd angen cyd weithio rhwng awdurdodau gofal cymdeithasol a byrddau iechyd i sicrhau fod anghenion cleientiaid yn cael eu bodloni, nad oes unrhyw 'flocio gwelyau' ac er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl awdurdodau statudol i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r anghenion deddfwriaethol newydd, nid yw hyn yn digwydd bob tro ac mae'n anodd ei gyflawni, yn enwedig ar amseroedd pan mae pwysau ariannol ar y sector gyhoeddus;
 - anffodlonrwydd darparwyr gyda phrosesau hir a biwrocraidaidd a dogfennau (manyleb, amodau contract, taenlenni prisio, prosesau chwyddiant) a dim gwarant o waith;
 - yn aml nid yw'r rhain yn cael eu gweld yn wasanaethau deniadol i staff gan fod hwn yn ddiwydiant o dâl isel ac mae'r gwaith yn gallu bod yn anodd iawn. Ceir cystadleuaeth gan ddiwydiannau eraill lle gall y swyddi fod yn talu'n well gyda llai o gyfrifoldeb. Gall hefyd fod

yn anodd darparu pecynnau gofal mewn cymunedau gwledig amhoblog.

- gall staff fod wedi eu symud o ddarparwr i ddarparwr sawl tro ac mae hyn yn aflonyddgar i bawb, gan achosi cryn bryder i gleientiaid, staff a darparwyr ac mae'n ychwanegu at y teimlad nad yw staff yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hwn yn gyfyngiad pellach i gefnogaeth y cleientiaid;
 - gall cynnal a bidio am gaffael fod yn sialens i bawb lle mae'r amgylchedd yn ansicr, ac mae'n broses ansicr a chostus sy'n cymryd amser i bawb ac nid oes gwarant o unrhyw fath o ganlyniad penodol i neb sydd ynghlwm â'r broses;
 - yn wahanol neu'n ychwanegol i'r materion a godwyd yn y paragraff blaenorol gellir seilio patrwm y pryniant ar gontract cyn RCC (gweler **Diffiniadau**) neu bryniant sbot unigol (gweler **Diffiniadau**) heb ymrwymiad i brynu unrhyw wasanaethau, ac mae risg wedi'r RCC (gweler **Diffiniadau**) gall y dull hwn beidio â chydymffurfio gyda'r RCC gan y gall arwain at ddyfarnu uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**) sy'n torri rheolau RCC. Yn ychwanegol, o safbwynt y darparwr, mae dull sy'n seiliedig ar sbot yn fodel marchnad ansicr gan wneud buddsoddi a chynllunio yn anodd neu'n amhosib;
 - mae risg i gynladwyedd gwasanaeth i awdurdodau a chomisiynwyr os yw defnyddwyr gwasanaeth angen taliadau uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**).
3. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn wasanaethau statudol a lle dyma'r sefyllfa, mae awdurdodau mewn risg barhaus o beidio gallu cyflawni eu hanghenion statudol ac felly mewn perygl o gael eu herio.

2.3 Disgrifiad o gaffael gofal yn y cartref effeithiol

Cyflwyniad

1. Bydd hwn yn ddull sy'n bodloni gofynion Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Beth mae'r Deddfau eu hangen i gyflawni caffael effeithiol sy'n cydymffurfio â'u hegwyddorion?

1. Mae tu allan i gylch gorchwyl y canllaw hwn i strwythuro a chynllunio gwasanaeth effeithiol. Awgrymaf fod y materion a nodwyd uchod yn adlewyrchu dull llai na optimaidd. Dylai caffael cyfredol a'r dyfodol roi ystyriaeth i beth yw'r ffordd orau i unioni materion hanesyddol a chyfredol sydd yn bodoli gyda'r dull cyfredol sydd wedi ei seilio ar fewnbwn a symud i ddull sy'n ffocysu ar ganlyniad.
2. Rhagdybiaf ei fod wedi ei dderbyn bod angen dull newydd o gomisiynu a chaffael ni fydd parhau â phatrymau hanesyddol o gaffael yn cyflawni newid. Mae Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn gosod nifer o amcanion y dylai comisiynwyr a swyddogion caffael eu rhoi ar waith wrth gynllunio trefniadau i'r dyfodol. Dylai'r gofynion cyffredinol a'r meini prawf sy'n dilyn fod yn amlwg o hyn, siapio'r farchnad (gweler **Diffiniadau**) a'r proses gomisiynu. Awgrymaf fod sylw yn cael ei roi i gynnwys y canlynol fel rhan o'r broses caffael (nid ydynt mewn unrhyw drefn benodol):-
 - proses ac yn enwedig manyleb ac amodau contract sydd yn ffocysu ar ganlyniad ac sy'n bwriadu bodloni'r gofynion yn y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) ac nid y manyleb 'amser a thasg' sydd yn bodoli nawr;
 - cynllunio'n ddigon cynnar fel bod digon o amser i gynnal proses caffael effeithiol. Mae'n bosib y golyga hyn y bydd angen i awdurdodau wella'r ffordd mae cofnodion yn cael eu cadw fel y gallent fod yn ymwybodol o, a rhagweld, pryd mae contractau presennol yn terfynu;
 - dylai manylebau a mecanwaith talu annog darparwyr i gefnogi cleientiaid i ddod yn llai dibynnol ac felly angen llai o adnodd efallai ynghyd â'r defnydd o dechnoleg. Mae tu allan i gylch gorchwyl y canllaw hwn i ystyried hyn mewn unrhyw fanylder gan y dylid fod wedi ystyried y rhain yn y camau comisiynu a buaswn yn rhagweld y dylai ymgynghori fod wedi ei gynnal ar ba fodolau fuasai darparwyr yn eu cynnig i alluogi arbed costau a chanlyniadau gwell:
 - dull sy'n annog darparwyr newydd i'r farchnad a darparwyr presennol i ymestyn, fel cynnig achrediad wedi ei ddylunio'n ofalus neu broses holiadur dethol (HD) (gweler **Diffiniadau**) sydd yn caniatáu i ddarparwyr llai neu ddechreuwyr newydd i'r farchnad benodol hon gael cyfle i ennill gwaith a/neu ymrwymiad wedi ei ystyried yn ofalus i brynu pecynnau gofal llai a mwy a pheidio dibynnu ar bryniant sbot (gweler **Diffiniadau**). Gall treialon peilot arbrofi gyda gwahanol ddulliau. Mae angen rhoi anogaeth i ddarparwyr i fuddsoddi ac mae cael sicrwydd o gontractau ymrwymedig yn cefnogi hyn;
 - contractau o hyd hirach drwy ddefnyddio'r dull prynu dynameg neu hyblyg (gweler **Diffiniadau**) sy'n caniatáu dechreuwyr newydd i gael eu hachredu yn ystod cyfnod y contract. Er enghraifft, gall y rhain fod yn 10 mlynedd gyda 5 mlynedd ychwanegol, efallai

gyda thoriad 'dim bai' yn caniatáu i'r awdurdod a'r darparwr i derfynu'r contract ar ddiwedd 5 a 10 mlynedd i ymateb i bryderon am anhyblygrwydd, lleihau risg a gyda'r posibilrwydd o symud darparwyr presennol i ddatrysiaid caffael newydd gyda chyfyngder ar waith pellach gan ddarparwyr ar y sail eu bod eisoes wedi eu hachredu;

- rhoi ystyriaeth i gynnig hyfforddiant am ddim i'r holl ddarparwyr a'u staff, wedi ei deilwra i annog staff sy'n gweithio shifftiau i fynychu er mwyn uwchsgilio staff, a darpariaethau ariannol i annog darparwyr i dalu mwy i'r staff a gwobrwyo staff sy'n ennill cymwysterau ac yn aros gyda darparwr. Mae tu allan i gylch gorchwyl i ystyried hyn mewn unrhyw fanylder;
 - caffael cydweithredol, cydgynhyrchiol a holistaidd a chyllidebau cyfun rhwng awdurdodau gofal cymdeithasol a byrddau iechyd i sicrhau fod anghenion cleientiaid yn cael eu bodloni;
 - cyd-gynhyrchu a gweithio cydweithredol gyda defnyddwyr, eu teuluoedd, darparwyr a darparwyr statudol eraill a rhanddeiliaid i gyflawni'r caffael;
 - adolygiad sylfaenol a diweddarau prosesau caffael a dogfennau caffael yr awdurdod (gweler **Diffiniadau**) i wneud defnydd llawn o'r hyblygrwydd o fewn y RCC (gweler **Diffiniadau**), yn hytrach na dim ond ail gynhyrchu dogfennau hanesyddol gyda newidiadau cyfyngedig. Mae hyn yn galw am adnoddau ymlaen llaw gyda'r buddiannau yn cael eu cyflawni tuag at ddiwedd y broses ac wedi dyfarnu (gweler **Diffiniadau**);
 - mae caffael modern angen dull cydgynhyrchiol a chydweithredol, dogfennau modern sy'n ffocysu ar ganlyniad gan gynnwys darpariaethau addasiadau soffistigedig wedi cael eu (gweler **Diffiniadau**) hystyried yn fanwl.
3. I gloi'r adran hon o'r canllaw, er mwyn cael dull effeithiol ar gyfer y dyfodol, mae aelodau, staff, uwch staff a staff caffael i gyd angen hyfforddiant ac uwchsgilio ar ddeddfwriaeth newydd er mwyn cefnogi caffael arloesol a modern sydd yn bodloni anghenion y cleient.
4. Mae caffael effeithiol a chadarn sy'n cydymffurfio â Deddfwriaeth 2014 a 2016 ac ymarfer dda, dim ond yn bosib yn llawn os oes siapio marchnad effeithiol neu ymchwil marchnad strategol (gweler **Diffiniadau**) ymgynghori a dadansoddi wedi ei ddilyn gan broses gomisiynu effeithiol (gweler **Diffiniadau**). Os nad yw hyn wedi ei gyflawni, mae'n bosib y gall y broses gaffael yn llai effeithiol.

Y Camau Cychwynnol

1. Tybir fod y canlynol wedi cael eu hystyried a'u penderfynu yn fras cyn i'r caffael ddechrau, er mae'n bosib y bydd ychydig o ymgynghori ar y manylion o dan y RCC:-
- effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) yn ogystal â Deddf Gofal a Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (yn ôl gofynion cyfundrefn rheoleiddio hynny) ar y caffael.
 - pa wasanaethau yn union sy'n cael eu caffael;
 - y bydd hwn yn caffael sy'n ffocysu ar ganlyniadau;
 - i ba raddau fydd cyd-gynhyrchu yn ystod y broses caffael;
 - a fydd hwn yn fframwaith, SBD neu'n system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**);
 - strwythur cyffredinol y dull contractio ac a fydd yn dilyn dull seiliedig ar ardal (gweler **Diffiniadau**) ar gyfer contractau neu fodel mwy confensiynol ac o dan unrhyw amgylchiadau,

os yw'r pecynnau gofal a gynigir yn bryniant sbot yn llwyr (gweler **Diffiniadau**), gyda rhai bloc (gweler **Diffiniadau**) gyda sbot neu fodel arall; a

- sicrhau ansawdd a'r model talu ac a oes linc am fod, er enghraifft, gyda model talu drwy ganlyniad (yn aml caiff ei fyrhau'n TDG) neu drwy gymhelliant arall mwy soffistigedig, ac os felly, beth ydyw;

Y Dulliau Amgen i Gyflawni Caffael 'Cyffyrddiad Ysgafn' Effeithiol

Cyflwyniad

1. Yn y rhan hwn o'r canllaw rwyf yn ffocysu ar ystyried dulliau amgen i gyflawni gweithdrefn 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) effeithiol ar gyfer gofal cartref wedi'i reoleiddio drwy dynnu rhannau blaenorol at ei gilydd ac ystyried y risgiau a buddion bob dull.
2. Mae caffael yn broses sydd â risg cynhenid ac er ei bod hi'n bosibl i leihau'r risgiau drwy ddeall y risgiau, cymryd camau i liniaru'r rhain a chynllunio a chyflawni effeithiol gyda manteision gofal cymdeithasol medrus, caffael, cyfreithiol, ariannol a'r holl adnoddau gofynnol arall, bydd rhywfaint o risg yn bresennol o hyd.
3. Gall rhai risgiau fod yn amhosib i'w hosgoi wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion bregus a dylai bawb gan gynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion ddeall hyn. Fodd bynnag, gall nifer o'r risgiau a ddeallir yn dda gael eu lleihau drwy gynllunio a chynnal proses siapio'r farchnad amserol wedi ei strwythuro a'i ystyried yn fanwl, a phroses gomisiynu (gweler Pecyn Gofal Cymorth yn y Cartref) wedi ei ddilyn gan gaffael wedi'i strwythuro. Mae deall y farchnad, gwranddo ar rhanddeiliaid (darparwyr, teuluoedd y defnyddwyr a defnyddwyr, awdurdodau mewnol ac allanol ac eraill) a chyflwyno dulliau modern ac arloesedd i gyd yn dechnegau i leihau risg.
4. Yn arbennig, ac fel rhan o'r broses lleihau risg ymgynghoriad cyn caffael, a thrwy gydol y caffael, mae proses cydgynhyrchiol yn hanfodol. Os nad yw darparwyr yn ystyried fod y dull a'r broses yn dderbyniol gallent beidio â bidio. Yn yr un modd, os nad yw defnyddwyr a'u teuluoedd yn meddwl y bydd eu hanghenion yn cael eu bodloni gallent gwyno neu hyd yn oed herio'r canlyniad.

Dechrau'r caffael, y cynllun caffael

1. Yn ddelfrydol, mae bob prosiect angen tîm prosiect neu gaffael yn gyfrifol am gyflawni cynllun sydd yn adnabod yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r caffael a'r amserlenni a'r camau sydd eu hangen. Dylai hwn fod yn drylwyr a manwl ac yn ateb cwestiynau fel:-
 - pwy fydd ar y tîm prosiect, pwy fydd yn gyfrifol ar lefel uwch am fod yn 'berchen' a chyflawni'r caffael, pwy fydd yn gyfrifol am ddrafftio a chadw'r cynllun wedi'i ddiweddarau a sicrhau fod tasgau yn cael eu cyflawni?
 - pa sgiliau sydd eu hangen a sut fydd y prosiect yn cael ei reoli ar lefel strategol uwch ac is e.e. bwrdd prosiect a tîm prosiect?
 - oes gan yr awdurdod yr holl sgiliau ac adnoddau yn fewnol, os nad oes, yn lle maen nhw, a fydd angen eu caffael ac os bydd, sut; oes gan eich cydweithwyr yr amser a'r adnoddau i gyflawni beth sy'n ofynnol ar gyfer y caffael?
 - os yw hwn yn caffael ar y cyd e.e. gydag iechyd, oes cytundeb ffurfiol gydag iechyd ac os

oes yw'n ddigon i dalu am y caffael hwn a'i gostau a'r trefniadau wedi hynny? Sut rhennir y tasgau rhwng yr amrywiol bartneriaid e.e. awdurdod lleol ag iechyd, cyfansoddiad a methodoleg pwy a ddefnyddir? Yw hyn yn achosi unrhyw faterion cyfansoddiadol i'r naill gorff neu'r llall?

- os yw hwn yn caffael consortiwm, pwy sydd yn gyfrifol am ba ran o'r caffael. Mae risg wrth ddrafftio drwy bwyllgor ac os yw gwahanol bobl yn gyfrifol am wahanol agweddau;
- os yw'r strwythur llywodraethu gyfredol ar gyfer caffael yr un orau posib neu a ddylai'r awdurdod neu ei gonsortiw m ystyried dull lywodraethu amgen fel cwmni a ffurfiwyd yn benodol a gaiff ei reoleiddio (gweler **Diffiniadau**)?
- sut gall y dull gael ei addasu ac/neu ei uwchraddio ar gyfer caffael yn y dyfodol i elwa o'r sgiliau a'r profiad a enillwyd a datblygu gwerth ychwanegol a buddiannau?
- a yw cyfansoddiad yr awdurdod, contractau rheolau sefydlog a rheolau caffael yn creu unrhyw faterion, ac os ydynt, sut gellir eu datrys?
- pa aelod ac/neu brosesau bwrdd, ffurfiol ac anffurfiol sydd eu hangen a beth maent yn ei wneud i'r amserlen?
- oes digon o amser i gyflawni'r caffaeliad? Mae popeth i'w weld yn hirach ac yn fwy cymhleth na'r disgwyl ac os yw amser yn fyr, pa weithredoedd lliniaru ellir eu cymryd e.e. drwy ychwanegu rhagor o adnodd neu fyrhau ychydig o'r llywodraethu neu brosesau eraill?

Proses arfer dda a awgrymir

Cyflwyniad

1. Yn yr adran hon o'r canllaw rwyf yn gosod proses nodweddiadol a geir ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder yn yr adran sydd i ddilyn.

Camau

1. Y canlynol yw'r camau tebygol mewn caffaeliad ond dylid cael ar ddeall y bydd pob caffaeliad yn amrywio ac, felly i raddau, bydd y broses fanwl hefyd. A bod yn bragmatig nid wyf yn rhagweld y bydd hi'n bosib cyflawni bod un o'r camau ac yn benodol, rwyf yn rhagweld y bydd ymgynghori mwy cyfyngedig yn y camau amrywiol o'r caffaeliad gall rhai camau (yn enwedig o gam 14 ymlaen) fod yn wahanol yn dibynnu ar y dull caffael a fabwysiadwyd. Dyma'r camau a awgrymir:-
 - cwblhau'r tîm prosiect, ei gylch gorchwyl ac ennill cefnogaeth lefel uwch;
 - cytuno ar gynllun prosiect amlinellol a'i ddrafftio;
 - trafod a chytuno ar y dull arfaethedig i'r caffaeliad a drafftio dogfennau cefnogaeth amlinellol;
 - ymgynghoriad marchnad cychwynnol/profi marchnad feddal ac ystyried yr ymatebion;
 - amrywio'r dull a'r dogfennau o ganlyniad i hyn; paratoi hysbysiad CSUE ynghyd â holl ddogfennau cefnogi caffaeliad mewn drafft. Bydd y graddau mae'r llythyr i dendro (gan gynnwys y matrices gwerthuso), manyleb, contract, taenlen prisio angen ei ddrafftio yn dibynnu os mai proses un neu dau gam y cytunwyd arno;

- ymgynghori â rhanddeilaid ar ddrafft o'r hysbysiad CSUE ynghyd â'r holl ddogfennau cefnogi caffael?
- amrywio'r dull a'r dogfennau o ganlyniad i'r ymgynghoriad; paratoi hysbysiad CSUE ynghyd â'r holl ddogfennau cefnogi caffaeliad mewn drafft. Cyhoeddi Hysbysiad CSUE ynghyd â'r holl ddogfennau cefnogi caffael;
- y broses eglurhad ar gyfer y cam yma;
- ymateb i gwestiynau eglurhad a chyhoeddi unrhyw ddogfennau caffael sydd wedi eu diwygio;
- derbyn ac ystyried yr holiaduron dethol ("SQ") (gweler Diffiniadau), gwerthuso, egluro a hysbysu tendrwy aflwyddiannus a llwyddiannus. Y rhagdybiaeth yw y bydd gwerthusiad llawn o'r holiaduron ac mai canlyniad y broses hon fydd achrediad a rhestr o ddarparwyr sydd wedi eu cymeradwyo wedi pasio'r cam cyntaf hwn;
- cyfnod segur. Rwyf wedi rhagdybio hyd yn oed os nad yw hwn yn dechnegol yn berthnasol i 'gyffyrddiad ysgafn' (gellir dadlau), mae'n debyg y dilynir y broses i sicrhau na ellir cael her yn ddiweddarach. Bydd canlyniad unrhyw ail-gynnal proses achredu a sut fydd y cyfnod segur yn cael ei reoli os yw hwn am fod yn SBD (DPS) neu system prynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**) angen ei ystyried yn ofalus;
- cyhoeddi rhestr o ddarparwyr sydd wedi pasio'r cam hwn;
- ymgynghori (ochr yn ochr â phrosesau cynt) ar y dogfennau caffael drafft sydd yn weddill (gweler **Diffiniadau**);
- derbyn canlyniad yr ymgynghoriad a chwblhau'r dogfennau caffael sy'n weddill;
- cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro ar gyfer y cam nesaf;
- proses egluro ar gyfer y cam yma;
- ymateb i gwestiynau egluro a chyhoeddi unrhyw ddogfennau diwygiedig;
- derbyn ac ystyried y tendrau, gwerthuso, egluro a hysbysu tendrwy aflwyddiannus a llwyddiannus eu bod ar y panel;
- cynnal dyfarnu unigol unai drwy gystadlaethau bach neu fel arall;
- vrheoli'r rhestr o ddarparwyr a achredwyd ac agor y rhestr i ddarparwyr ychwanegol (os mai dyma yw'r dull.)

Y broses yn fanwl – y camau caffael

1. Yn y rhan hwn o'r canllaw rwyf yn ffocysu ar ystyried gweithredu'r caffaeliad i weithdrefn 'gyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) i ofal cartref wedi'i reoleiddio drwy dynnu ar adrannau blaenorol ac ystyried risgiau a manteision bob dull. Fel y nodwyd uchod, mae caffael yn broses sydd yn gynhenid â risg ac er ei bod hi'n bosibl i leihau'r risgiau drwy ddeall y risgiau, cymryd camau i liniaru'r rhain a chynllunio a chyflawni effeithiol gyda manteision gofal cymdeithasol medrus, caffael, cyfreithiol, ariannol a'r holl adnoddau gofynnol arall, bydd rhywfaint o risg yn bresennol o hyd.
2. Gall rhai risgiau fod yn amhosib i'w hosgoi wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion bregus a dylai bawb gan gynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion ddeall hyn. Fodd bynnag,

gall nifer o'r risgiau a ddeallir yn dda gael eu lleihau drwy gynllunio a chynnal proses siapio'r farchnad amserol wedi ei strwythuro a'i ystyried yn fanwl, a phroses gomisiynu (gweler Pecyn Gofal Cymorth yn y Cartref) wedi ei ddilyn gan gaffael wedi'i strwythuro. Mae deall y farchnad, gwrandio ar rhanddeiliaid (darparwyr, teuluoedd y defnyddwyr a defnyddwyr, awdurdodau mewnol ac allanol ac eraill) a chyflwyno dulliau modern ac arloesedd i gyd yn dechnegau i leihau risg.

3. Rwyf wedi mapio proses system brynu dynameg (DPS) ar gyfer gwasanaeth aml ddarparwr gyda rhestr o ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo a'r cyfle i gynnal cystadleuaeth fach ac ychydig o ddatblygu SBD. Rwyf felly wedi rhagdybio y bydd yn gyfnod contract gymharol hir. Mae'r camau datgan diddordeb yn cael ei ddefnyddio drwy gyfeirio at yr is-baragraffau yn 187.

Cam 1 - 3 (gweler paragraff 187)

1. Y camau hyn yw'r rhai cynllunio 'darlun mawr' ar gyfer y caffaeliad ac wrth gynnal y trosolwg a chynllunio strategol, ac ennill cefnogaeth yr awdurdod a phartneriaid, dylid trafod y camau yn union a'u cytuno.
2. Mae trosolwg a chynllunio strategol yn hanfodol. Erbyn diwedd y camau hyn dylai'r awdurdod benderfynu beth a gaffaelir ac (yn gyffredinol) sut bydd hyn yn cael ei gaffael, yr amserlen ac effaith hyn ar broses yr awdurdod. Mae'n rhaid i'r gofynion hyn a'r holl ddogfennau gofynnol gael eu dynodi a'u cytuno. Yn ogystal, mae cytuno ar y cyllid ar gyfer cyflawni'r prosiect, pwy fydd yn drafftio'r dogfennau a phryd o fewn y rhaglen, hefyd yn hanfodol. Felly, mae rheolwr prosiect hefyd yn hanfodol er mwyn rheoli'r broses. Os nad oes gan bawb ar y bwrdd prosiect sgiliau digonol ac mae rhai angen hyfforddiant neu uwchsgilio, mae'n rhaid i hyn gael ei sefydlu fel bod yr hyfforddiant hwn yn gallu cael ei ddarparu yn gynnar yn y prosiect.
3. Mae'r modelau amgen, y fframwaith neu system brynu dynameg (gweler **Diffiniadau**) a'r dulliau i greu system 'cyffyrddiad ysgafn' wedi eu cael eu diffinio yn amlinellol. Yn yr adran hon rwyf yn tynnu'r opsiynau at ei gilydd ar gyfer ystyriaeth ac yn eu dadansoddi'n fyr gan ffocysu ar risgiau a manteision bob dull.
4. Rhagdybiaf y bydd yr awdurdod yn creu ei weithdrefn a dull 'cyffyrddiad ysgafn' ei hun (gweler **Diffiniadau**) drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd yn y RCC (gweler **Diffiniadau**) yn hytrach na defnyddio'r cyfan o unrhyw un o'r systemau ar gyfer gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn'. Cyngor y llywodraeth (gweler y canllaw a ddynodwyd ym mharagraff 68), ac rwyf yn ei gefnogi, yw er y dylent fod wedi eu seilio'n synhwyrol ar un neu ragor o'r gweithdrefnau mae'n rhaid iddynt gael eu haddasu. Fel y dynodwyd, mae'r gweithdrefnau/systemau sydd ddim yn 'cyffyrddiad ysgafn' yn anhyblyg ac nid ydynt wedi eu dylunio ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' felly mae'n amhriodol i ddefnyddio unrhyw ddull heb wneud rhywfaint o newidiadau am y rhesymau a ddynodwyd uchod. Fodd bynnag, yn wyneb y cymhlethdod a'r risgiau o greu gweithdrefn o'r newydd, na fydd yn gyfarwydd i'r farchnad, mae'r ffaith fod y prosesau sy'n bodoli eisoes yn gallu cael eu mabwysiadu'n rhwydd, a chyfyngiadau adnoddau, addasu gweithdrefn sydd eisoes yn bodoli bydd yn gyfarwydd i'r farchnad yw'r dull a argymhellir.
5. Rhagdybir hefyd na fydd hwn yn caffael ar gyfer darparwr unigol ond bydd angen panel.
6. Bwriad y rhan hwn o'r canllaw yw cefnogi caffael gofal yn y cartref ar gyfer poblogaeth mewn ardal(oedd). Petai hwn yn esiampl o gaffael gwahanol, er enghraifft allanoli unigol neu nifer cyfyngedig o gartrefi gofal preswyl gall y dull fod yn wahanol, ond ar gyfer gofal yn y cartref bydd angen detholiad o ddarparwyr a dyma yw'r rhagdybiaeth sy'n ategu'r Pecyn Cymorth a phob trafodaeth arall.

Proses un neu dau gam?

1. Yn draddodiadol mae amryw o awdurdodau yn defnyddio proses un cam h.y. proses agored. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwblhau holiadur dethol (HD) neu holiadur cyn dethol (gweler **Diffiniadau**) ac wedyn y tendr (gweler **Diffiniadau**) yr un pryd.
2. Manteision hyn yw:-
 - maen gynt i'r awdurdod. Yn aml hwn yw'r prif ffactor gan fod gofyn i awdurdodau gyflawni canlyniad cyfreithiol cadarn fel mae eu hamserlen yn pennu er mwyn osgoi dyfarnu uniongyrchol anghyfreithlon (gweler **Diffiniadau**);
 - derbynnir yr holl ddogfennau'r un pryd felly gellir eu gwerthuso gyda'i gilydd felly yn weinyddol mae'n symlach.
3. Anfanteision hyn yw:-
 - mae'n rhaid i holl ddogfennau caffael (gweler **Diffiniadau**) fod yn barod yr un pryd â'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) yn hytrach na gallu datblygu'r fanyleb, contract a phroses dyfarnu yn ddiweddarach. Golyga proses dau gam nad yw dogfennau dyfarnu yn gorfod cael eu cyhoeddi nes y cam i greu rhestr fer;
 - nid yw'n hoff gan lawer o'r darparwyr gan fod rhaid iddynt gwblhau'r holl ddogfennau caffael cyn iddynt gael gwybod os ydynt wedi pasio cam yr holiadur dethol/holiadur cyn dethol (HD/HCC);
 - gall unrhyw arbed amser ac ymdrech fod yn rhithiol. Mae'n gofyn i awdurdodau i gynnal cam gwerthuso holiaduron dethol/holiaduron cyn dethol (HD/HCC) a'r tendr (gweler **Diffiniadau**) gyda'i gilydd neu'r cam holiaduron dethol/holiaduron cyn dethol (HD/HCC) yn gyntaf ac wedyn y cam tendr, sydd yn colli amser;
 - mae'n llai hyblyg. Mae'n anoddach i gael dull achredu safonol i ddarparwyr, caniatáu i ddarparwyr fod ar fframwaith neu system brynu dynameg (gweler **Diffiniadau**) neu blatfform ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau gydag achrediad safonol i ariannol, economaidd, llywodraethol a sgiliau sylfaenol a newidynnau i bob gwasanaeth efo'r dull hwn gyda phroses pasbort, ac
 - mae'n llai cyson gyda'r dull sy'n cael ei ddilyn o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ei reoliadau a'i ganllaw. Bydd hwn yn cofrestru mwy generig yn hytrach na chofrestru gwasanaeth unigol ac felly, mae dull achredu ac ennill lle ar y fframwaith/system brynu dynameg yn dilyn hynny yn gyson a hyn.
4. Awgrymir proses dau gam, gydag un yn y dyfodol a cham ddyfarniad rhannol, os oes amser i wneud hynny. Mae'n fwy hyblyg ac yn decach i ddarparwyr, sydd ond angen cwblhau dogfennau manwl os cant eu dethol yn addas, ac mae'n fwy cyson gyda defnyddio SBD wedi'i addasu. Gall eithriadau fod i'r dull yma, er enghraifft, lleoliadau argyfwng. Felly mae'n annog y farchnad i ymateb gan gynnwys darparwyr llai sydd efallai yn cael eu digalonni gan orfod cwblhau dogfennau cymhleth iawn. Fodd bynnag, gan fod y broses caffael yn gymhleth awgrymir fod awdurdodau yn cael cyngor caffael manwl a chyfreithiol.

Camau 6, 13 and 14 (gweler paragraffau 187)

1. Mae'r camau hyn yn cynnwys dau gam yr ymgynghori marchnad gychwynnol, cyn y HD/ HCD (gweler **Diffiniadau**) a gwahoddiad i dendro (gweler **Diffiniadau**). Os defnyddir caffael un cam, bydd raid gwneud y camau hyn yr un pryd. Mae hyn yn gallu bod yn anodd gan fod dilyniant rhesymol ac mae'n anodd (amhosib) i ymgynghori ar y cam gwahoddiad i dendro cyn bod wedi cwblhau'r cam cynharach gan y bydd y cam cynharach yma yn cynorthwyo i siapio'r ail gam.
2. Yn ychwanegol i'r ymgynghoriad gwirioneddol, gellir defnyddio'r camau hyn i gyhoeddi gwybodaeth i ddarparwyr ac/neu'r farchnad yn gyffredinol, os oes rhai, i'w hysbysu am y cynigion ac i geisio sicrhau (os gallwch) bod eu staff sydd efallai wedi eu symud oherwydd Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn gwybod beth sy'n digwydd?
3. Mae ymgynghoriad y farchnad ragarweiniol yn cael ei argymhell ymhlyg yn rheoliadau 76 a 40 o'r RCC (gweler **Diffiniadau**) ond nid ydynt yn orfodol ac nid ydynt bob tro'n cael eu gwneud, felly rwy wedi nodi'r manteision a'r anfanteision isod.
4. Manteision hyn yw:-
 - mae'n gyson gyda gofynion rheoliad 76 ac yn benodol 76 (8), y ddeddfwriaeth llesiant a dyletswyddau, a phroses wedi ei chyd gynhyrchu yn wirioneddol. Mae'n anodd gweld sut gall awdurdod ystyried yn iawn y gofynion yn rheoliad 76 (8) neu gyflawni cyd gynhyrchu heb o leiaf un cam llawn o ymgynghori marchnad gychwynnol.
 - gall awdurdodau ddeall a strwythuro eu caffaeliadau gan ystyried barn yr holl randdeiliaid. Dylai hyn gefnogi caffaeliadau mwy effeithiol lle mae'r holl randdeiliaid (y defnyddwyr a'u teuluoedd a darparwyr yn benodol) yn cael eu gwerthfawrogi, gan ganiatáu iddynt gynghori'r awdurdod am unrhyw ddiffygion yn y dull cyn i'r caffaeliad dechrau; ac
 - dylai fod hyn fod yn ei gwneud hi'n llai o risg, ac yn haws a chyflymach i gyflawni'r caffaeliad ac osgoi cannoedd o gwestiynau eglurhad, mewn rhai achosion yn nodi'r diffygion yn y broses sydd rhaid eu hunioni yn ystod y caffael gyda'r risg o'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) a dogfennau caffael (gweler **Diffiniadau**) yn cael eu diwygio, ymestyn amserlenni a rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi eu heithrio a ddim yn bositif am y broses.
5. Anfanteision y math hwn o ymgynghoriad yw:-
 - mae'n cymryd amser, gyda photensial i fod yn gostus ac yn waith sylweddol, yn enwedig os mabwysiedir ymgynghoriad dau gam ac mae'n angenrheidiol i roi digon o amser i hyn ac i werthusiad canlyniad yr ymgynghoriad sy'n dilyn a chynnal unrhyw ail ddrafftio sydd ei angen;
 - gall fod yn anodd gwneud hyn heb un ai wyrdroi neu fod yn ymddangos yn gwyrddroi cystadleuaeth os yw'r dull a argymhellir gan ddarparwr(wyr) penodol yn cael ei fabwysiadu. Felly, mae'n hanfodol cael tîm prosiect medrus i wneud hyn yn gywir; a
 - materion ymgynghori, bydd angen drafftio matrices gwerthuso gyda'r wybodaeth o'r canlyniadau caffael dewisol, ond ar yr un pryd sicrhau eu bod yn deg ac yn ddiuedd. Wedi hynny gall yr ymatebion fod yn ddiuedd. Bydd angen i'r tîm sy'n drafftio'r rhain a'r gwerthuswyr gynnal proses gofalus gyda'r ymatebion i gyd wedi eu nodi a chofnodion gofalus wedi'u cadw i osgoi'r risg fod y broses hon yn sail i, ac yn arwain at, herio.

Camau 7 - 10 a 15 - 18 (gweler paragraff 187)

1. Fel nodir yn y gynharach yn y canllaw, mae'r RCC (gweler **Diffiniadau**) yn gofyn am rybudd gwybodaeth flaenorol (PIN) marchnad agored wedi ei ddilyn gan hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) neu hysbysiad contract yn unig, mae gofyn i'r ddau gydymffurfio â gofynion hysbysiad statudol. Mae'n hanfodol i ddylunio'r proses caffael cyn i hwn allu cael ei ddrafftio fel bod yr hysbysiad a dogfennau cefnogi caffael (gweler **Diffiniadau**) yn disgrifio'r caffaeliad i'r farchnad yn amlinellol gyda'r holl ddarpariaeth faterol megis y gwasanaethau sy'n cael eu caffael, hyd y contract, gwerth, gweithdrefn dyfarnu, ayyb yn cael ei osod
2. Mae yna nifer o opsiynau ar gyfer defnyddio'r weithdrefn. Wrth i'r awdurdod ddylunio'i weithdrefn ei hun ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' (gweler **Diffiniadau**) mae'n angenrheidiol penderfynu os mai un neu dau gam fydd i'r broses (gweler uchod) ac o fewn y siâp cyffredinol, pa dull a fabwysiedir. Yr opsiynau a ddynodwyd yn y RCC yw (gweler **Diffiniadau**) yw system brynu dymeg agored (gweler **Diffiniadau**), gyfyngedig, fframwaith neu gellir defnyddio dull heb ei bennu gan y RCC, system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**). Ac eithrio'r system brynu hyblyg mae pob un o'r rhain yn weithdrefnau cydnabyddedig. Maent yn cael eu disgrifio uchod ynghyd â sylwadau byr ar eu nodweddion a dylid eu haddasu i ychwanegu'r hyblygrwydd mae 'cyffyrddiad ysgafn' yn ei ganiatáu a chefnogi.
3. Efallai y gall TGCh fodern gefnogi dull mwy arloesol. Yn hanesyddol, mae canlyniad y rhan fwyaf o gaffael yw fframwaith sefydlog ar gyfer cyfran arbennig o wasanaethau. Mae awdurdodau nawr yn dechrau arbrofi efo dewisiadau amgen. Isod cymerir dull hanesyddol nodweddiadol gyda datrysiad arloesol.
4. Dull hanesyddol nodweddiadol yw bod pob gwasanaeth yn cael ei gaffael ar wahân gydag awdurdodau a darparwyr yn ailadrodd pob cam a dogfennau gydag amrywiadau ar gyfer gwahanol gaffael. Mae ailadrodd gwaith ac ymdrech sylweddol i bawb a risg y bydd cyfres o wahanol ddulliau a dogfennau heb unrhyw werth ychwanegol ac y bydd rheoli'r trefniadau yn gymhleth.
5. Dull arloesol fyddai sefydlu plattform achredu. Mae hyn yn gyson gyda'r dull newydd o gofrestru o dan Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ei reoliadau a'i ganllawiau, nad yw darparwyr yn cael cyfres o gofrestriadau ar wahân ond cofrestru mwy cyffredinol. Buasai'n rhaid i'r caffael gyntaf o dan y dull newydd osod y strwythur sylfaenol a'r gofynion. Buasai'r hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**) yn ei gwneud yn glir fod ychydig o wybodaeth y darparwyr yn cael ei roi ar blatfform generig ac yn byrhau eu proses caffael at gyfleodd caffael yn y dyfodol gan na fydd raid iddynt ailadrodd gwybodaeth sydd ar ffeil yn barod a dim ond darparu gwybodaeth wedi'i ddiweddarau bob blwyddyn ac os oes newid perthnasol am y darparwyr, fel ailstrwythuro cwmni neu werthiant. Cai bob darparwr rif cofrestru unigryw a byddai'r telerau'r plattform yn nodi'r sbardunau ar gyfer ailgofrestru gyda system hysbysu gyfrifiadurol i fod awdurdod o fewn y consortiwm am unrhyw newidiadau. Rhennir y HD/HCD (gweler **Diffiniadau**) yn rhannau. Y wybodaeth sylfaenol sy'n gyffredin i bob caffael, fel enw, statws cyfreithiol/ llywodraethol, yswiriant, gwybodaeth cofrestru a pholisïau. Buasai ail ran y HD/HCD yn cynnwys gwybodaeth a all fod yn gyffredinol fel ariannol (trosiant a maint yr elw) a gwybodaeth yswiriant ond gall fod yn newidiol os mabwysiadir dull mwy soffistigedig o osod pecynnau o wasanaeth yn y dyfodol gan alluogi darparwyr micro a bach fidio am becynnau gofal llai i annog y farchnad. Felly mi all categori arall fod ar gyfer darparwyr llai. Byddai'r drydedd rhan yn benodol i bob caffael unigol.

6. Manteision y dull yma ydi y buasai prosesau tendro'r dyfodol yn cael u symleiddio, yn gynt ac yn llai o waith i bawb. Os mabwysiadir system brynu hyblyg neu ddynnameg (fel yr argymhellir) fe wna'r ail gam, y cam dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) yn llawer haws a chefnogi dyfarnu haws i wasanaethau arbenigol lle nad oes darparwr yn bodoli'n barod. Ymhen amser gellir ychwanegu telerau ac amodau sylfaenol contract sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau (fel rhyddid gwybodaeth, rheoli contract sylfaenol, gofynion cofrestru) a gellir ychwanegu at nodweddion y system blatfform yn gynyddol a graddol fel caiff rhagor o wasanaethau eu tendro.
7. Yr anfantaision yw i fod yn llawn effeithiol, bydd angen rhagor o waith datblygu cychwynnol a'r dogfennau caffael (gweler **Diffiniadau**) wedi eu drafftio gyda gofal i sicrhau eu bod wedi eu rhannu rhwng gwybodaeth sylfaenol a newidiol. Bydd yn rhaid i'r platfform TGCh fod yn ddigon soffistigedig ac adnoddau digonol i gefnogi'r dull yma. Ar gyfer comisiynu consortiwm bydd rhaid hefyd cael cytundeb ar beth sy'n safonol. Mae risg y bydd angen rhagor neu wybodaeth achredu sylfaenol wedi ei ddiwygio os oes unai newidiadau cyfreithiol ond gellir bodloni hyn drwy'r amodau a thelerau a hysbysebwr ar y platfform sydd yn gadael i'r awdurdod sy'n arwain ceisio hyn.
8. Mae'r paragraffau uchod yn nodi'r weithdrefn amlinellol a awgrymir ar gyfer y camau HD/HCD. Yn ychwanegol i hyn bydd angen ystyried sylwedd bob un o'r dogfennau caffael. Bydd rhai ohonynt angen eu drafftio'n llawn a'u hatodi i'r hysbysiad contract, yn fwyaf amlwg yr hysbysiad ei hun, HD/HCD a phroses gwerthuso ond mae anghenion y RCC (gweler **Diffiniadau**) yn golygu os mabwysiedir dull dau gam mae'n rhaid i brif ddarpariaeth yr holl ddull y caffaeliad a'r dogfennau gael eu cytuno yn ogystal. Yn fy marn i fuasai angen y canlynol i gefnogi dull llawn weithredol:-
- bydd angen cyhoeddi'r weithdrefn a strwythur y broses caffael;
 - pa wasanaethau sy'n cael eu caffael ar y cam cychwynnol yma? Er ei bod hi'n ymarfer dda i adnabod camau caffael y dyfodol os yw'r rhain am gael eu hysbysebu drwy hysbysiad contract (gweler **Diffiniadau**), nid yw hyn yn hanfodol;
 - os mai fframwaith, sawl darparwr gaiff eu caniatáu yn y dechrau, yw'n gyfyngedig neu'n agored i bawb sy'n gymwys, fydd yn gwbl gaeedig neu gyda'r potensial i gael ei agor o dro i dro ac os felly a gaiff ei alw'n system brynu hyblyg i sicrhau fod y farchnad yn deall y dull; yr amseru, y broses a'r meini prawf ar gyfer agor y system i ddarparwyr newydd, pryd gaiff y system ei hagor i rai newydd ymuno a beth sy'n digwydd rhwng hyn a chyfle cyffredinol i allu ymuno â'r system os oes lleoliadau brys?
 - yr amcangyfrif o werth cyfan y caffael trwy gydol ei gyfnod contract?
 - pa wybodaeth sy'n cael ei geisio gan ddarparwyr yn gyntaf ar gyfer y broses achredu ac yn ail ar gyfer dyfarnu (gweler **Diffiniadau**)
 - y meini prawf ar gyfer y broses achredu a dyfarnu. Mae'n rhaid i'r meini prawf nawr fod wedi eu seilio ar y cynnig economaidd mwyaf manteisiol (MEAT) felly bydd angen cytuno'r pris: canrannau ansawdd a'r fethodoleg benodol a ddefnyddir i werthuso ym mhob cam. Mae amryw o ddulliau amgen a bydd angen ystyried y rhain mewn manylder. Fel y nodwyd uchod, wrth ystyried meini prawf gwerthuso, cynhwysiant cymdeithasol, amgylcheddol a materion gweithlu maent i gyd yn faterion cymhleth ac yn rhy gymhleth i'w cynnwys o fewn y canllaw yma;

- strwythurau prisio a prif ddarpariaethau ffi;
 - sut fydd y gwasanaethau yn cael u strwythuro wedyn? Fydd yr awdurdod yn siapio'i ddull ar ardal ddaearyddol (gweler **Diffiniadau**), parhau i brynu contractau sbot (gweler **Diffiniadau**) yn unig neu gynnig sail arall, er enghraifft, rhai bloc (gweler **Diffiniadau**) gyda chostau: contractau cyfaint h.y. lle mae lefel y ffi yn dibynnu ar lefel y pryniant neu beth?
 - Sut fydd y pecynnau unigol o ofal yn cael eu prynu o dan y caffaeliad yma? Fydd dyfarnu uniongyrchol, cystadlaethau bach (gweler **Diffiniadau**) neu beth a beth fydd y weithdrefn dyfarnu ar gyfer bob un?
 - y prif ddarpariaethau'r contract a manyleb yn cynnwys hyd y contract, y brif weithdrefn addasiadau a gwybodaeth allweddol arall fel strwythurau prisio, sicrwydd ansawdd a rheoli perfformiad.
9. Y rhan nesaf o'r caffael yw'r broses tendro ei hun yn cynnwys paratoi'r gwahoddiad di dendro (gweler **Diffiniadau**), cwblhau'r fanyleb, dyfarnu contract cynnig ariannol sydd ei angen gan y darparwyr a'r broses o achredu i ddyfarnu (gweler **Diffiniadau**).
 10. Erbyn y cam yma, bydd yr awdurdod wedi strwythuro'r mwyafrif neu'r holl ddogfennau ar lefel strategol a gyda swm sylweddol o wybodaeth am y bidwyr, pwy ydynt, eu harbenigedd hanesyddol, a yw'n debygol y bydd digon o fidwyr ac felly yw'r caffael yn debygol o gyrraedd gofynion a disgwyliadau'r awdurdod (gweler isod am bersbectif y darparwyr).
 11. Dylai'r tîm prosiect, yn cynnwys swyddogion technegol (cyfreithiol, ariannol ac unrhyw rai eraill) fod wedi cynhyrchu drafftiau o'u dogfennau a fydd ond hangen eu cadarnhau. Fel y nodwyd, pa bynnag ddull a ddilynir hyn fydd y lleiafrif fydd ei angen i gynhyrchu'r hysbyseb contract (gweler **Diffiniadau**) a dogfennau cefnogi, gan fod y posibilrwydd o wneud newidiadau materol i'r dull yn gyfyngedig iawn oherwydd gofyniad trosfwaol i gydymffurfio gydag egwyddorion tryloywder a thriniaeth gyfartal i fidwyr.
 12. Mae'r 'rheol' ymarferol yma yn ddefnyddiol wrth ystyried a fyddai newid i'r dull a'r dogfennau yn torri'r egwyddorion hyn i ystyried petai'r newidiadau wedi eu gwneud mewn cam cynharach a fyddai darparwyr wedi dangos diddordeb ac os oedd swyddogion yr awdurdod yn ystyried hyn o safbwynt darparwr a fyddant wedi meddwl fod hyn yn annheg.
 13. Os yw hwn yn ddull dau gam, bydd gweddill y dogfennau caffael (gweler **Diffiniadau**) ynghlwm â'r gwahoddiad i dendro (gweler **Diffiniadau**) gan gynnwys y dogfennau manwl lle ceir amlinelliad yn unig, er enghraifft manyleb ac amodau contract i gynnwys gwerthuso tendrau, prisio a meini prawf dyfarnu. Bydd hefyd yn cynnwys yr amodau penodol a osodwyd i dendro, fel y dyddiadau ar gyfer cwestiynau eglurhad, dyddiad ac amser dychwelyd y tendrau a'r ddarpariaeth berthnasol mewn amgylchiadau lle gall tendrwyr nodi fod eu dogfennau i gael eu cadw'n gyfrinachol. Fel arfer mae'n ddogfen fanwl ac yn aml yn gymharol hir. Os yw hwn yn broses un cam bydd y gwahoddiad i dendro a'r holl ddogfennau cefnogi wedi eu hanfon neu ar gael ar blatfform ar y we i bawb sydd yn ymateb i'r hysbysiad contract ((gweler **Diffiniadau**).
 14. O'r uchod gellir gwerthfawrogi fod caffael yn broses gymhleth ac mae dadansoddi'r holl ddulliau amgen tu hwn i orchwyl y canllaw hwn. Mae dewisiadau i'w gwneud ym mhob cam. Yn fy mhrofiad i mae paratoi'n gynnar yn hanfodol ac yn nodweddiadol mae awdurdodau yn tanamcangyfrif yr amser, cymhlethdod a'r adnoddau sydd ei angen i gyflawni caffael llwyddiannus. Y prif risgiau a ffyrdd o leihau'r rhain yw :-

- peidio â rhoi digon o adnoddau a disgwyl i staff ychwanegu caffael ar ben eu gwaith bob dydd. Dylai uwch staff a gwleidyddion gael eu hysbysu o'r gwir amserlen a risgiau o beidio rhoi adnoddau iawn (gweler isod):
- rhedeg allan o amser fel nad oes dim ffordd gyfreithiol gadarn i wneud dyfarniadau (gweler **Diffiniadau**). Ni ellir lliniaru hyn mewn ffordd gyfreithiol gadarn. Er yn ymarferol gall yr Archwilydd Cyffredinol a'r darparwyr fod yn gyndyn i herio ymarferion anghyfreithlon os yw'r awdurdod yn gwneud ei orau i gyflawni caffael cyfreithiol gadarn, ond ni ellir diystyru hyn;
- rhannu'r broses caffael drwy gynnal gweithdrefn dau ran ac nid gweithdrefn agored (gweler **Diffiniadau**) fel y dynodwyd uchod;
- peidio â cheisio bod yn rhy uchelgeisiol yn y caffael cychwynnol a chydabod y bydd caffaeliadau pellach ar gyfer gwasanaethau ychwanegol; ac
- yn bwysicaf oll, cynnal siapio marchnad yn iawn, comisiynu a phrosesau ymgynghoriad cyn marchnad fel bod y prif faterion strategol wedi eu datrys.

Cam 11 - 13 a 19 - 20 (gweler paragraff 187)

1. Mae'r adran hon yn fyr. Yn gyntaf, rwyf yn deall mewn ymarfer, nad yw problemau cyfnod segur a herio yn gyffredin i awdurdodau yng Nghymru, ac yn ail, mae'r graddau mae dyfarniadau unigol a chystadlaethau bach o fewn cylch gorchwyl y canllaw hwn yn cael eu trafod isod

Gwerthuso a Matrics Dyfarnu ar gyfer HD a Chystadlaethau Bach

Cyffredinol

1. Fel y dynodwyd, nid oes gofynion i ddilyn darpariaethau yn rheoliadau 57 -69, sydd o dan y pennawd y Dewis o gyfranogwyr a dyfarnu contractau, ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn', ond mae gofyn i gyflawni tryloywder a thriniaeth gyfartal. Gall awdurdodau greu eu gweithdrefn eu hunain. Mewn ymarfer, bydd y rhan fwyaf o awdurdodau yn defnyddio'r dull ar gyfer caffaeliadau sydd ddim yn 'gyffyrddiad ysgafn' yn y RCC i ryw raddau gan ei fod yn haws i'w wneud na chreu dull newydd yn llwyr, gweler rheoliad 76 (7).
2. Mae gwerthuso a dyfarnu yn ddwy broses ar wahân, mae gwerthuso yn ystyried arbenigedd yn y gorffennol a ffactorau economaidd sylfaenol ac mae dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) yn ystyried y dyfodol, sut fuasai'r darparwr yn cyflawni'r contract hon felly mae gwerthuso yn digwydd pan mae'r HD/HCD (gweler **Diffiniadau**) wedi eu derbyn a'r dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) pan mae'r tendrau wedi eu derbyn neu'r cystadlaethau bach wedi eu cynnal. Defnyddir y datganiadau weithiau heb wahaniaethu, er enghraifft i werthuso'r tendrau, felly mae angen i'r awdurdodau fod yn ofalus a deall sut mae'r datganiadau yn cael eu defnyddio.
3. Hyd yn oed pan mai gweithdrefn agored yw'r weithdrefn a fabwysiadwyd (gweler **Diffiniadau**) mae'n ddoeth gwerthuso darparwyr mewn dau gam ac i ddarparu am hyn fel rhan o'r fethodoleg gwerthuso gyhoeddedig.
4. Gan fod y rhan fwyaf o heriau ynglŷn â'r gwerthuso a'r dull a phroses dyfarnu h.y. mae'r meini prawf dyfarnu wedi cael eu camarfer ac mae bidiwr yn cael ei wahardd neu wrthod ar gam, mae'n bwysig i sicrhau fod y weithdrefn a ddilynir yn gadarn.

Gwerthuso

1. Disgrifir HD (gweler **Diffiniadau**) ei gyflwyniad a'i ddefnydd mewn mannau eraill yn y canllaw hwn. Rwyf yn dadansoddi eu defnydd ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' yn yr adran hon fel a ganlyn:-
 - arddangos sefyllfa economaidd ac ariannol. Mae hyn yn oddrychol ac yn gofyn am ddealltwriaeth o'r ystyr o'r wybodaeth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwahanol strwythurau cyfreithiol. Mae rheoliad 58 wedi ei gefnogi gan reoliad 60 (6) (profi sefyllfa economaidd ac ariannol) yn nodi'r wybodaeth a awgrymir y dylid ei gynhyrchu. Un mater yw sut i sefydlu hyn mewn marchnad lle mae llawer o'r darparwyr yn fach ac efallai nad ydynt yn gryf yn economaidd. Gall gwerthuso cryfder ariannol, hylifedd, y tebygolrwydd o fethdal, ac felly dadansoddi cyfrifon, fod yn dechnegol anodd ac mae'n gofyn am sgiliau perthnasol a dealltwriaeth o gyfrifo yn y sector breifat i osgoi'r risg o gynnwys neu eithrio darparwr sydd efallai'n ymddangos yn wan ond sydd serch hynny yn ddigon hyfyw i'r farchnad hwn ac sydd â record gadarn
 - gallu a technegol a phroffesiynol. Mae hwn hefyd yn oddrychol ac yn codi cwestiwn os yw hi'n ddigonol mewn marchnad wedi ei reoleiddio i ddarparwr fod yn gofrestrdig, nad oes ganddynt yr erlyniadau perthnasol neu'n cael eu harchwilio am unrhyw anghydfurfiaeth gyda rheolau neu gyda'r yswiriant cywir? Nid yw'n glir pa mor bell y dylai awdurdodau ystyried a gwerthuso'r un ffactorau ar wahân a'r rheiny a fydd wedi eu hystyried cyn i ddarparwr wedi ei reoleiddio cael ei gofrestru. Mae hwn yn fater i'w ystyried gan awdurdodau yn wyneb y gofynion rheoleiddio mewn grym o dan Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ei reoliadau a'i ganllaw ers Ebrill 2018.
2. Os oes proses achredu trosfwaol wedi cael ei fabwysiadu fel fframwaith, system brynu dynameg neu system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**) bydd rhaid i'r awdurdod ystyried pa un o'r wybodaeth uchod sy'n gyffredin o bob darparwr pwy ddylid ei achredu a pha un fydd yn benodol i gaffael unigol.
3. Yn ogystal bydd rhaid i awdurdodau ystyried cael hunan achredu ai peidio a sut i adnewyddu'r wybodaeth a ddarparwyd. Fel y nodwyd yn gynharach yn y canllaw, rwyf wedi awgrymu nad yw hunan achredu'r dull mwyaf synhwyrol yn y farchnad hon gan fod llawer o ddarparwyr yn fach a ni fyddant eisiau cyrraedd diwedd proses caffael a darganfod eu bod wedi eu gwrthod. Cyn gynted ag y mae darparwyr ar restr ar gyfer fframwaith, system brynu dynameg neu system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**) bydd angen proses o adnewyddu'n rheolaidd gan ofyn i ddarparwyr yrru copiâu o ddogfennau safonol wedi'i diweddarau, fel yswiriant, gwybodaeth cofrestru i brofi eu bod dal yn gallu ac yn addas i ddarparu gwasanaethau wedi eu rheoleiddio.
4. Fel y nodwyd eisoes, bydd yn rhaid i awdurdodau benderfynu un ai i gael cymeradwyo agored lle mae unrhyw fidiwr sy'n gymwys yn cael gwahoddiad i fidio, i gael rhestr sy'n cyfyngu'r nifer o dendrwy a wahoddir i fidio neu gyfuniad o'r ddau, lle ar gyfer rhai caffaeliad fel dull ardal (gweler **Diffiniadau**) bydd y rhestr gwahoddiad i dendro yn gyfyngedig a dyweder rhestr agored ar gyfer gwasanaethau unigol a/neu arbenigol. Beth bynnag a fabwysiedir bydd yn rhaid gosod y fethodoleg a'r meini prawf ar gyfer dewis y bidwyr a wahoddwyd i gymryd rhan yn y cam tendro yn llawn.

Dyfarnu – y Meini Prawf a’r Wybodaeth i’w Ddarparu ar gyfer y Cam Dyfarnu

1. Mae’r ail gyfnod hwn yn llawer mwy cymhleth na cham HD/HCD (gweler **Diffiniadau**) a hwn yw’r cam lle ceir y risg fwyaf o her. Mae’r heriau hyn yn cynnwys herio i ddyfarniadau i fframwaith (gweler **Diffiniadau**). Os yw system ddynameg agored neu system brynu hyblyg (gweler **Diffiniadau**) yn cael ei ffafrio mae potensial y risg yn llai gan fod bidwyr aflwyddiannus yn llai tebygol o herio os ydynt yn cael cyfle pellach i ennill lle.
2. Lle ceir dull ardal (gweler **Diffiniadau**) neu bloc (gweler **Diffiniadau**) bydd dyfarniad o gcontract penodol i ddarparwr penodol. Bydd un neu nifer cyfyngedig o ddarparwyr dewisol yn cael eu dewis ac yn derbyn contract. Golyga hyn ei bydd yn ddigon posibl y bydd darparwyr dig sydd ddim wedi llwyddo i ennill contract.
3. Lle mae rhestr wedi ei gymeradwy o ddarparwyr sydd wedi eu hachredu am fod, yn erbyn lle gwneir pryniannau unigol yn ôl y galw (gweler **Diffiniadau**) o bryd i’w gilydd bydd y broses dyfarnu yn dibynnu ar y dull a ddilynir ac os bydd cyfres o wahanol gategoriâu o achrediadau, fel gofal cartref safonol o fewn rhan benodol o ardal yr awdurdod neu restr gyffredinol o ddarparwyr wedi eu hachredu. Yn y naill ddull neu’r llall, gall pob un sy’n cael ei gymeradwyo cael ei benodi ar sail gylchdro, yn erbyn catalog wedi’i benodi o flaen llaw neu gallant gael eu dewis drwy gystadleuaeth fach (gweler **Diffiniadau**), os oed mwy nag un darparwr sydd ar y rhan berthnasol o’r rhestr. Gall dull lle ceir unai cystadleuaeth fach neu broses fanwl o gydweddu golygu fod y cam dyfarnu yn cynnwys cydweddu manwl a phroses o ddewis darparwr unigol ar gyfer pecyn o ofal penodol. Fe welir o’r paragraff hwn fod llawer o gymhlethdodau yn y cam yma o’r broses ac mae eu dadansoddi tu allan i orchwyl y canllaw hwn.
4. Pa bynnag ddull a fabwysiedir, mae angen meini prawf cyflawn ac eglur ar gyfer y cam dyfarnu. Fel y nodwyd, mae’n rhaid i rai nawr fod yn seiliedig ar y mwyaf manteisiol yn economaidd. Bydd y meini prawf yn cydbwysu pris a safon, gan ystyried dyletswyddau statudol yr awdurdod, pwrpas y gwasanaeth a gofynion y cleient unigol. Mae dull cost effeithiol, gan ystyried dyletswyddau ymddiriedol yn angenrheidiol yn ogystal. Mae’r rhaid i’r meini prawf gael eu cynnal yn deg, a chyn belled â phosibl, yn wrthrychol a chofnodion yn cael eu cadw ynglŷn â sut mae hyn yn cael ei wneud gan fod y broses yn agored i gais am ryddid gwybodaeth a her.
5. Mae’n rhaid i’r dull gwerthuso/dyfarnu gan gynnwys unrhyw bwysoliadau ac is feini prawf gal eu cynnwys yn y dogfennau caffael cyhoeddedig.
6. Model gwerthuso nodweddiadol yn y sector hwn yw bod 60% o’r marciau yn cael eu rhoi i safon a 40% i bris neu hyd yn oed 70% i safon a 30% i bris.

7. Mae'r datganiadau hyn angen ychydig o esboniad. Yn ddamcaniaethol, dylai pris fod yn gymharol hawdd i'w werthuso ond nid wyf yn credu mai dyma'r sefyllfa mewn ymarfer. Os yw'r contract ar gyfer ardal neu bloc sefydlog (gweler **Diffiniadau**) lle mae gan y contract ychydig o newidynnau chwyddiant neu bris eraill gall hyn fod yn wir. Lle ceir newidyn bloc gall y newidynnau ei gwneud hi'n anoddach ac yn ogystal, ceir nifer o fodolau prisio marchnad wahanol. Yr a ddefnyddir gan amlaf yw sgorio'r rhataf gyda 100% o'r marciau posib marcio'r gweddill drwy gyfeirio at y canran eu bod yn ddrutach. Lle mae dyfarnu mwy goddrychol i becynnau unigol cymhleth, gall sefydlu pwysigrwydd pris a chydbwysu hyn gydag anghenion unigolyn fod yn fwy cymhleth.
8. Bydd hefyd angen proses dyfarnu cyhoeddedig i sefydlu safon. Enghraifft o ddull nodweddiadol yw meini prawf penodedig gyda'r angen am ymatebion drwy ddatganiadau dull a all gynnwys proses trawsnewidiad i symud y gwasanaeth o orchwyl a gorffen i ddull mwy modern sy'n seiliedig ar ganlyniadau, er y dull arferol yw system sgorio 1-5 neu 1-10 yn amrywio o 0 ar gyfer dim ymateb i gwestiwn unigol neu 5 neu 10 os yw'r cwestiwn yn fwy na'r disgwyliad.
9. Mewn ymarfer, efallai bydd cymhlethdod y broses ddyfarnu yn gorfod dibynnu ar y nifer o ddarparwyr yn y farchnad gan ei bod hi'n ddibwrpas cael dull soffistigedig a manwl os oes cyn lleied o ddarparwyr achrededig sydd ar gael nes na ellir cael cystadleuaeth ystyrlon.

2.4 Y dogfennau cyfreithiol

Cyflwyniad

1. Yn y rhan hwn o'r canllaw rwyf yn gosod trosolwg lefel uwch o'r contract, manyleb a'r cytundeb prynu unigol sydd eu hangen ar gyfer caffaeliad gofal yn y cartref effeithiol.

Y Contract

1. Y contract yw'r 'lapio' cyfreithiol rhwng yr awdurdod a'r darparwr a gan amlaf bydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:-
 - amodau a thelerau cyffredinol sydd yn cynnwys yswiriant, telerau ac amodau cyffredinol, gofynion rheoleiddiwr, darpariaethau terfynu contract;
 - manyleb (gweler **Diffiniadau**);
 - sicrwydd ansawdd a fframweithiau perfformiad (gweler **Diffiniadau**);
 - trefniadau prisio;
 - cytundeb prynu unigol (CPU) os mai hwn yw'r model pryniant a fabwysiedir;
 - darpariaethau addasiad neu amrywiad (gweler **Diffiniadau**);
 - diffiniadau a datganiadau a ddefnyddir.
2. Ceir sawl dull gwahanol ar gyfer drafftio contract. Mae dull modern a ystyriaf yn synhwyrol ar gyfer caffaeliad hirach a chymhleth yw cael y mwyafrif o'r wybodaeth mewn atodlenni gwahanol. Cefnoga'r dull yma ddull ddynnameg seiliedig ar achredu gan y gellir cadw amodau sylfaenol y contract yr un peth ar gyfer yr holl fathau o wasanaeth ac atodlenni gwahanol a ddefnyddir i wahanol wasanaethau, yn seiliedig ar dempled sylfaenol os yw'n bosibl. Yn ychwanegol, os yw dogfennau caffael yn cynnwys proses adnewyddu gellir amnewid am atodlenni sydd wedi dyddio, er enghraifft ar gyfer sicrwydd ansawdd a/neu ofynion rheoleiddio. Mae hyn yn bwysig os yw'r contract ar gyfer cyfnod hirach.
3. Mae'n hanfodol i ystyried a drafftio darpariaethau'r contract gan ystyried y canlyniadau sydd i'w cyflawni yn hytrach na dim ond defnyddio cynsail contract sydd eisoes yn bodoli sydd efallai wedi ei baratoi ar gyfer dull gwahanol, fel model 'amser a thasg'. Mae dull arloesol i gyflenwi gwasanaeth angen dull yr un mor arloesol i ddrafftio contract. Dylai awdurdodau sicrhau y dylai'r contract a'r fanyleb a'r holl ddogfennau caffael gael eu drafftio ochr yn ochr a'u bod yn gyfres weithredol o ddogfennau gyda chroesgyfeirio, gorgyffwrdd prin, a dull ac iaith gyson, er enghraifft drwy ddiffiniadau cyffredin ar draws yr holl ddogfennau.
4. Mae tu allan i gylch gorchwyl yr adran lefel uwch hon i ystyried amodau'r contract mewn manylder.

Manyleb a Chytundeb Prynu Unigol (CPU)

Manyleb

1. Mae manyleb (gweler **Diffiniadau**) ei angen ar gyfer bob gwasanaeth. Mae adran 8 Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gofynion rheoleiddio sydd mewn grym o dan Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, rheoliadau a chanllaw ers Ebrill 2018 yn gyson yn ôl yr angen i gael dull seiliedig ar ganlyniadau. Noda'r canllaw ar Ddeddf 2014 ganlyniadau yn nhermau corfforol ac iechyd meddwl a lles emosiynol, diogelu etc ac mae Deddf 2016 yn dilyn ymlaen o hyn. Disgwylia Llywodraeth Cymru i awdurdodau i gaffael drwy ddefnyddio

manylebau seiliedig r ganlyniadau a hwn yw'r model a gynhwysir yn y Pecyn Cymorth Gofal yn y Cartref (gweler **Diffiniadau**). Yn hanesyddol, fel y nodwyd, mae'r rhan fwyaf o ddulliau gan gynnwys y manylebau cefnogi yn un ai mewnbwn (gweler **Diffiniadau**) neu'n gymysgedd o fewnbwn, allbwn a chanlyniadau (gweler **Diffiniadau**) gyda'r ffocws ar dasg a gorffen h.y. dull mewnbwn (gweler uchod).

2. Bydd cyflawni dull llawn sy'n seiliedig ar ganlyniadau angen arloesedd a meddwl i sicrhau fod y cyflenwi yn gallu cael ei werthuso yn unol gyda'r fframweithiau sicrhau ansawdd a pherfformiad (gweler **Diffiniadau**). Felly dylai'r fanyleb ffitio'n glos gyda rhain a'r gofynion perfformiad yn y contract gan ystyried gofynion Deddf 2014 a 2016 fel gosodir uchod.
3. Prif faterion i'w hystyried cyn drafftio'r fanyleb yw:-
 - beth yw'r athroniaeth a'r dull i'r fanyleb;
 - pa ganlyniadau sydd eu hangen a sut bydd cyflawni'r rhain yn cael ei fesur; ac
 - sut fydd y fanyleb a'r model dyfarnu (gweler **Diffiniadau**) yn cael eu drafftio i sicrhau eu bod yn gyson, a'r bidwyr yn cael eu gwerthuso yn y cam dyfarnu i sicrhau fod y bidiau yn cydymffurfio â'r model hwn a gyda'r sicrwydd ansawdd a fframweithiau perfformio? Dylai'r rhain gynnwys nodi dangosyddion a pherfformiadau mesuradwy ar gyfer rhain.
4. Mewn ymarfer bydd gofyn i awdurdodau ddeall beth maent yn ceisio'i gyflawni a sut bydd posib cyflawni hyn drwy'r darparwyr fel rhan o'r broses comisiynu cyn caffael. Mae hefyd yn bwysig i sefydlu'r gost o gyflawni'r fanyleb, i ba raddau bydd angen trawsnewid gwasanaeth a rhaglen gyflenwi drosiannol. Mewn gwirionedd gall model mwy soffistigedig o bennu gofal cartref gymryd amser a gall cyfres o dreialon i gyflawni darpariaeth effeithiol yn erbyn model mor wahanol fod yn ddoeth.

Y cytundeb prynu unigol (CPU)

1. Bydd yn dibynnu ar y model caffael os oes CPU (gweler **Diffiniadau**) ai peidio. Efallai na fydd ei angen, er enghraifft os yw'r model yn ardal (gweler **Diffiniadau**). Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n debygol y bydd ei angen.
2. Dylai'r CPU fod yn ddogfen syml sydd ddim yn ail adrodd amodau'r contract ac sy'n ffocysu ar ganlyniadau ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth unigol.

2.5 Safbwynt y darparwr – annog a datblygu'r farchnad

Cyflwyniad

1. Er bod y ganllaw hon yn bennaf i swyddogion caffael, nid yw'n bosib dylunio proses gadarn heb ddeall safbwynt y darparwr. Felly mae'r adran hon o'r ddogfen yn ystyried prif faterion i ddarparwyr pan maent yn ystyried bidio ac/neu eu dull tuag at y caffael.
2. Mae caffael llwyddiannus angen cyn caffael a chyd gynhyrchu caffael a chyd gynhyrchu caffael gyda rhanddeiliaid. Mae darparwyr yn rhanddeiliaid hanfodol a heb farchnad digon mawr neu amrywiol i fodloni anghenion comisiynu a chaffael, ni fydd awdurdodau fyth yn gallu cyflawni canlyniadau llwyddiannus.
3. Er bod darparwyr ac awdurdodau yn rhannu llawer o faterion ac effaith materion fel prinder recriwtiaid ac anawsterau cadw staff, mae darparwyr yn destun materion sydd ddim yn effeithio'r awdurdodau yn uniongyrchol (gweler isod).
4. Fel sy'n eglur o ddeall y RCC (gweler **Diffiniadau**) a'r canllaw hwn, yr awdurdodau sy'n gyrru'r broses caffael. Lle ceir dull cyd cynhyrchiol ac felly cydweithredol bydd gan ddarparwyr effaith sylweddol ar strwythuro a siapio'r caffael proses caffael yr awdurdod ydyw o hyd.

Beth sy'n pryderu darparwyr?

1. Dylai'r awdurdod gadw gofynion statudol y darparwr ac ymarfer da mewn cof trwy gydol y broses caffael.
2. Mae rhain yn cynnwys:-
 - solfedd a llif arian, felly mae strwythurau prisio, chwyddwyr a mecanwaith talu yn debygol o fod yn bwysig ac os gall yr awdurdod gynnig gwarant o waith a darpariaethau talu sy'n gwella sefyllfa ariannol y darparwr gall yw awdurdod ennill mantais pris.
 - hyd a chymhlethdod y dogfennau. Mae ffocws y darparwyr ar gyflenwi'r gwasanaeth. Mae llawer o ddarparwyr gofal cartref yng Nghymru yn fychan, nid oes ganddynt fynediad at gyfrifwyr neu gyfreithwyr arbenigol ac nid oes ganddynt yr amser na'r arian i wario ar brosesau caffael cymhleth. Felly, mae cadw'r broses a'r dogfennau yn syml yn eu hannog i fidio;
 - siâp y cynnig i'r farchnad a sicrwydd ansawdd. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn malio am wasanaethau. Er gall rhai ofni'r newid o fodel tasg a, gall eraill werthfawrogi dull sy'n ffocysu'n fwy ar y person ond gallent i gyd fod eisiau arweiniad a hyfforddiant ar ddulliau newydd. Dylai'r awdurdod ystyried sut gall gynnig yr holl ddarparwyr gyfle am gefnogaeth;
 - materion staffio a rheoleiddio. Mae recriwtio a chadw staff yn fater arwyddocaol ac mae goblygiadau rheoleiddio ar faterion staffio yn bwysig. Er na all awdurdodau ddatrys materion demograffig gallent weithio gyda darparwyr i gynnig hyfforddiant am ddim, i staff ac ar ofynion rheoliadau; and

- Deall sut mae canlyniadau dan gontract a rhai eraill yn cael eu mesur. Bydd darparwyr eisiau bod yn glir ynglŷn â'u rhwymedigaethau o dan y contract ac yn enwedig pa ganlyniadau mae eu gwasanaethau angen eu cyflawni ac wedi'u cynllunio i gael effaith bositif arnynt, sut fydd y rhain yn cael eu mesur a'u gwerthuso yn ystod y broses caffael ac wedyn. Byddant eisiau priso'r anghenion hyn. Gall fod angen allbwn neu ganlyniadau eraill ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth tu allan i gwmpas uniongyrchol eu gwasanaeth, gan yr awdurdod, er enghraifft, ac mae angen nodi'r rhain gyda'i gilydd hefyd gyda gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r awdurdod am roi adnoddau i fesuriad rhain a'u mesur.

2.6 Materion diwedd contract a pharatoi at y caffaeliad nesaf

Cyflwyniad

1. Wrth roi dogfennau'r caffael at ei gilydd (gweler **Diffiniadau**) mae'n hanfodol i ystyried materion diwedd contract. Mae'n rhy hwyr i wneud ar ddiwedd contract. Mae'n rhaid cynnwys darpariaethau diwedd contract a threfniadau o fewn y contract i sicrhau eu bod yn ofyniad dan gontract ac felly gellir ei orfodi.
2. Mae'r rhain yn bwysig boed y contract yn diweddu oherwydd bod yr amser wedi dod i ben, h.y. yn cyrraedd ei ddiwedd yn naturiol, os y'i terfynwyd oherwydd perfformiad gwael neu am resymau eraill, fel ansolfedd. Fe argymhellir y dylai'r amodau contract gael atodlen yn delio gyda materion diwedd contract.

Materion nodweddiadol sy'n berthnasol

1. Yn nodweddiadol mae'r materion canlynol yn berthnasol:-
 - Parhad gofal i ddefnyddwyr presennol ar ddiwedd contractau h.y. fydd yr holl wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth yn trosglwyddo neu gall y defnyddwyr presennol aros gyda'r darparwyr presennol a defnyddwyr newydd yn unig yn trosglwyddo a beth yw'r materion gwasanaeth, masnachol a gweithredol o'r ddau opsiwn i'r ddau barti? Er bod aros gyda darparwyr presennol yn opsiwn delfrydol i ddefnyddwyr a'u teuluoedd ac yn lleihau'r risg o anghysondeb yn narpariaeth y gwasanaeth, efallai nad yw'n gyson gyda chyflawni dull diwygiedig neu newydd o gyflawni gwasanaeth, fel dull ardal (gweler **Diffiniadau**) na'n hyfyw yn economaidd. Felly, y dull a awgrymir yw cynnwys hyn fel opsiwn i'w drafod gyda'r darparwr tuag at ddiwedd cyfnod y contract;
 - trosglwyddo gwybodaeth a phwy sy'n berchen y wybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth, monitro gwybodaeth, meddalwedd ac eiddo deallusol. Mae'n hanfodol cynnwys darpariaethau mewn contractau ar gyfer eiddo deallusol a throsglwyddo perchnogaeth gwybodaeth. Bydd o hyd record i'w drosglwyddo a heb hyn ni fydd gan y darparwr na'r darparwr newydd y wybodaeth sydd ei angen i gyflawni gwasanaethau'n ddiogel yn y dyfodol. Er bydd y mwyafrif o ddarparwyr yn cydweithredu nid dyma yw'r sefyllfa o reidrwydd mewn ansolfedd neu ddiwedd anffafriol i berthynas contract;
 - gwybodaeth staffio, TUPE a phensiynau (ble mae'n berthnasol). Nid yw Trosglwyddo Ymgymeriadau (diogelu cyflogaeth) Rheoliadau 2006 yn darparu cyfnodau arwain digon hir i wybodaeth gael ei ddarparu gan ddarparwr presennol i ddarparwr newydd i gyflawni ail gaffael, nid ydyw chwaith yn rhwymo'r darparwr presennol i basio gwybodaeth i'r awdurdod fel bod yr awdurdod yn gallu paratoi ei ddogfennau caffael, felly mae darpariaethau dan gontract eu hangen i alluogi tendrwy'r gyflwyno bidiau wedi eu prisio'n llawn;
 - trefniadau arwain i mewn rhwng darparwr presennol a darparwr newydd. Mewn ymarfer ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd cydweithrediad ond ni ellir rhagdybio hynny.

Rhan 3

Diffiniadau

Cyflwyniad ac Esboniad y Dull

Nid yw bob ymadrodd yn y canllaw hwn yn cael ei ddiffinio. Lle ceri ymadrodd nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o lefydd yn y canllaw caiff ei ddisgrifio wrth ei ddefnyddio ac nid ei ddiffinio ar wahân. Mae'r diffiniadau wedi eu cymryd o'r RCC ac o ymadroddion sydd mewn defnydd cyffredin. Rwyf wedi symleiddio'r ymadroddion sydd yn aml yn gymhleth yn y RCC ac mewn llyfyrdd eraill gan mai canllaw cyffredinol yw hwn.

Mae'r diffiniadau yn nhrefn yr wyddor felly nid ydynt wedi'i rhifo.

Diffiniadau

Addasiad

Ymadrodd a ddefnyddir yn y RCC ar gyfer amrywiad contract.

Awdurdod

Llaw-fer am awdurdod sy'n contractio fel y'i diffinnir yn y RCC. Mae awdurdodau contractio yn gyrrff sydd wedi'u rhwymo gan y RCC. Maent yn (a'i roi yn syml) adrannau llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, byrddau iechyd ac awdurdodau a sawl cwango a chwmnïau sydd wedi eu rheoleiddio, llawer o gymdeithasau tai a sefydliadau dosbarthu dielw. Bydd y rhain yn awdurdodau contractio os ydynt yn bodloni meini i brawf penodol. Mae'n rhaid iddynt fod yn 'sefydliadau nad ydynt yn meddu unrhyw gymeriad diwydiannol neu fasnachol, sydd wedi'u cyllido yn llwyr neu'n bennaf gan awdurdod contractio arall, yn amodol ar oruchwyliaeth rheoli gan awdurdod contractio arall neu lle mae mwy na hanner y Bwrdd Cyfarwyddwyr neu aelodau wedi eu penodi gan awdurdod contractio arall' ac sydd hefyd yn awdurdodau contractio (gweler rheoliad 2).

Mae awdurdodau wedi'u rhwymo i gydymffurfio gyda'r rheoliadau cyn ymrwymo i gontractau trydydd parti gyda neb oni bai am gwmni sydd wedi'i reoleiddio ac mae'r awdurdod contractio yn ei reoli. Mae hyn yn cynnwys contractau gydag awdurdodau contractio eraill ond nid yw'n cynnwys hyn os yw'r trefniadau yn anfasnachol ond gweinyddol. Mae hwn yn gyfraith dechnegol cymhleth.

Awdurdod contractio

Gweler o dan awdurdod.

Bidiwr neu tendrwr

Person neu sefydliad sydd yn bidio i fod yn gyflenwr gwasanaeth o dan gaffael.

Caffael

Mae caffaeliad drwy brynu gwasanaeth/ nwyddau/ cyflenwadau yn amrywio o bryniant unigol i broses tendro ffurfiol sy'n arwain at gontract cyhoeddus.

Canlyniad

Nid yw'r term yma yn cael ei ddiffinio yn unrhyw un o'r deddfwriaethau perthnasol ond fe'i defnyddir yn eang mewn deddfwriaeth a chanllaw. Felly nid ydyw wedi ei ddiffinio yn y canllaw hwn. Mae Offer 12, Deall mewnbyn ac allbwn a sut maent yn cysylltu gyda'i gilydd yn gosod disgrifiad defnyddiol a thryloyw.

Codau Geirfa Caffael Cyffredin (CGCC)

Mae GCC yn golygu geirfa caffael cyffredin. Mae'n system ddsbarthu sengl wedi'i ddatblygu gan yr UE i safoni'r disgrifiad o'r mathau o gontractau.

Comisiynu

Ceir sawl diffiniad am gomisiynu. Yn y canllaw hwn fe'i defnyddir i olygu proses o gynllunio cyn caffael, fel arfer i baratoi at gaffael.

Contractau ardal

Contract allbwn neu ganlyniadau lle mae'r darparwr yn gyfrifol am ddarparu math penodol o wasanaeth neu ddarpariaeth i grŵp o bobol mewn ardal benodol yn aml am bris prynu cyfanswm a gytunwyd arno e.e. darparu gwasanaeth cefnogi pobl ar gyfer yr holl bobl sy'n yw mewn math o lety arbennig. Yn aml fe'i defnyddir hyd yn oed yn ehangach fel rhan o system caffael fel y dull Vanguard. Yn ddelfrydol dylid cael y prif ddarparwr ac o leiaf un contractwr wrth gefn rhag ofn bydd methiant yn y farchnad.

Contract bloc

Contract ar gyfer nifer sefydlog/unedau neu swm o bryniant. Yn nodweddiadol, ceir mantais pris yn y math hwn o bryniant. Gellir cael amrywiad o hyn, er enghraifft cynnig i ddarparwr y lleiafswm o ymrwymiad gyda phris amrywiol uwchben y lefel lleiafswm neu os yw'r lefel o bryniant yn disgyn o dan y lefel hwn. Adnabyddir y modelau olaf weithiau fel modelau nenfwd i'r llawr. Y materion sydd angen ystyriaeth yw goblygiadau masnachol yr ymrwymiad, beth sy'n digwydd i unrhyw uned o bryniant nad oes ei angen (h.y. a ellir ei werthu ymlaen i fframwaith neu bartneriaid consortiwm) neu os yw'r bloc yn cael ei brynu gan un sefydliad neu gonsortiwm ac os felly, y trefniadau llywodraethol.

Contract cyhoeddus

Unrhyw gontract ar gyfer "buddiant ariannol" (h.y. arian) mewn ysgrifen rhwng darparwr ac awdurdod contractio er mwyn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau.

Contract sbot

Pryniant uned unigol o wasanaeth e.e. un gofal cartref neu le mewn gofal preswyl heb ymrwymiad ar y naill ochr na'r llall i un ai brynu neu werthu rhagor. Gellir cael sbot o fewn fframwaith neu SBD neu fel dyfarniad uniongyrchol. Mae'r risg cyfaint y cael ei gadw i gyd gan y darparwr os yw dull sbot gwirioneddol yn cael ei ddefnyddio.

Cwmni sydd wedi'i reoleiddio (Rheoliad 12)

Corff yw hwn sydd wedi ei reoleiddio gan awdurdod neu sawl awdurdod contractio. Gall awdurdod "rhiant" wneud dyfarniad uniongyrchol o gontract i'w gwmni rheoledig heb broses caffael RCC. Weithiau fe'i gelwir yn gwmni *Teckal* oherwydd yr achos Ewropeaidd perthnasol. Mae gofynion technegol manwl cymhleth a phob un ohonynt i'w dilyn i gyflawni statws cwmni wedi'i reoleiddio. Mae'n rhaid i gontractau rhwng cwmni wedi'i reoleiddio ac awdurdodau eraill, neu gan gwmnïau wedi rheoleiddio cydymffurfio a'r RCC.

Cyfarwyddeb

Cyfarwyddeb Caffael yr Undeb Ewropeaidd 2014 (2014/24)

'Cyffyrddiad ysgafn'

Y gofynion penodol a dull yn y RCC ar gyfer caffael gofal cymdeithasol, addysg, iechyd (a rhai gwasanaethau eraill) a osodwyd yn rheoliadau 74-77. Mae 'cyffyrddiad ysgafn' yn caniatáu awdurdodau i gynllunio eu proses dyfarnu eu hunain gyda strwythur llai caeth na'r prosesau safonol. Ymadrodd ar lafar yw 'cyffyrddiad ysgafn' na'i chynhwysir yn y RCC. Mae 'cyffyrddiad ysgafn' yn cymryd lle'r dull blaenorol o gaffael gofal cymdeithasol, iechyd a sawl gwasanaeth arall a osodir yn y rheoliadau caffael cyhoeddus 2006 (a adnabyddir ar lafar fel Rhan B). Yn annhebyg i Ran B mae gwasanaethau 'cyffyrddiad ysgafn' sydd uwchben y trothwy nawr angen eu caffael drwy hysbysiad CSUE a'u cynnal mewn cydymffurfiaeth a'r broses ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn' yn y RCC.

Cystadleuaeth fach

Proses o wneud dyfarniad (gweler Diffiniadau) o dan fframwaith SBD neu gaffael hyblyg drwy ofyn i fwy nag un darparwr i fidio amdano cyn cael dyfarnu contract penodol ar gyfer gwasanaethau.

CPU

Y cytundeb pryniant unigol sy'n gosod yr amodau penodol sy'n berthnasol i becyn o ofal i ddefnyddiwr gwasanaeth. Fel arfer bydd y cynllun gofal ynghlwm. Bydd union strwythur a chynnwys y CPU yn dibynnu ar amodau bob caffael.

Cyfnod segur

Proses sy'n arwain at ddyfarnu contract o dan RCC neu fel arall ceir fframwaith neu SBD fel arfer (gweler Diffiniadau).

CSUE

Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ('CSUE') sy'n rhaid cael ei ddefnyddio i ddechrau proses caffael'. Mae'n gyfnodolyn traws Ewrop.

Cytuniad

Y cytuniad presennol sy'n ymwneud ag aelodaeth y DU yn yr Undeb Ewropeaidd. Adnabyddir y prif Gytuniad bellach fel y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ('TFEU') ac fe'i hailenwyd ar ôl newidiadau Cytuniad Lisbon a arwyddwyd ar 13^{eg} Rhagfyr 2007.

Darparwr

"Gweithredwr economaidd", contractwr neu berson arall sydd yn cynnig contract neu wasanaeth cyhoeddus. Defnyddir y term darparwr yn y canllaw hwn gan ei fod yn ymadrodd safonol diwydiant.

Dethol a meini prawf dethol

Y meini prawf ffurfiol fel y'i gosodir yn y rheoliadau 58 (sydd ddim yn berthnasol i 'cyffyrddiad ysgafn' ond fe'i defnyddir fel arfer fel canllaw) a rheoliadau 74-77, ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn', i'r cam cyntaf o ystyried addaswydd darparwr (ni ddylid ei ddrysus gyda'r ail neu'r cam dyfarnu).

Dogfennau caffael

Rhain yw'r gyfres gyfan o ddogfennau sy'n 'disgrifio neu'n pennu' elfennau o'r caffael neu weithdrefn, maent yn cynnwys hysbysiad contract, manyleb dechnegol, unrhyw ddogfen ddisgrifiadol, amodau contract a dogfennau dyfarnu sy'n gosod y weithdrefn h.y. popeth a ddefnyddir i gyflawni'r caffael (gweler Rheoliad 2, Dehongliad, ar gyfer manylion o beth yw'r rhain). Yn ddelfrydol, rydych angen disgrifio'r gwasanaethau presennol, beth yr ydych yn ei gaffael a phobl a materion TUPE, eich gwybodaeth cyllid ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol i ddarparwr sy'n ystyried gwneud bid. Os yw hwn y gaffael dau gam, fel y'i disgrifir, proses achredu wedi'i ddilyn gan broses o ddethol darparwr yn erbyn rhestr o ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo dylai amodau'r broses o ddewis darparwr boed yn gystadleuaeth fechan neu fel arall gael ei gynnwys gan fod hwn yn rhan o'r broses ddyfarnu.

Dyfarniad a hysbysiad dyfarnu

Y broses o benodi sefydliad fel contractwr. Mae hwn yn broses ffurfiol o dan y RCC. Gellir defnyddio'r ymadrodd hefyd ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol (gweler **Diffiniadau**). Ceir proses ffurfiol ar gyfer gwneud dyfarniad o dan Ran 3 o'r RCC.

Dyfarniad uniongyrchol

Contract yw hwn a ddyfernir heb broses cystadleuaeth. Mae'n unai'n gontract newydd neu'n amrywiad sylweddol neu addasiad o gontract sy'n bodoli eisoes. Yn y naill achos neu'r llall, os oes gan ddyfarniad uniongyrchol werth (fel y'i diffinnir yn y RCC) sydd uwchben y trothwy sydd yn sbarduno'r gofyniad am gaffael o dan y RCC mae'n debygol ei fod yn ddyfarniad sy'n torri rheolau'r RCC. Os yw ei werth o dan y trothwy, gan ystyried y darpariaethau gwrth osgoi yn RCC a fwriedir i atal caffaeliadau rhag cael eu torri i lawr neu eu dyfarnu mewn pecynnau bach i osgoi'r RCC, gall fod yn gyfreithiol gadarn i gael dyfarniad uniongyrchol.

Fframwaith

Rhestr sefydlog o ddarparwr(wyr) y gall awdurdod 'alw arno' neu brynu pryniannau unigol o wasanaeth yn erbyn y rhestr o un neu fwy o ddarparwyr. Gosoda rheoliad 33 ddarpariaethau unigol ar gyfer y fframweithiau i gyd oni bai am y rheiny a grëwyd o dan 'cyffyrddiad ysgafn' lle nad yw awdurdod angen cydymffurfio gyda'r darpariaethau hyn.

Gwahoddiad i dendro

Proses ffurfiol yn gwahodd tendrwy. Gall hwn fod yn rhan o broses hysbyseb agored fel y'i diffinnir o dan y RCC neu broses mwy cyfyngedig yn gwahodd nifer cyfyngedig o ddarparwyr i fidio.

Gweithredwr economaidd

Hwn yw'r term a ddiffiniwyd yn y rheoliadau am berson sy'n cynnig ymgymryd â chontract cyhoeddus. Yn hytrach na gweithredwr economaidd rwyf wedi disgrifio'r math hwn o berson neu sefydliad fel darparwr yn y canllaw hwn.

Holiadur Dethol (HD) (fe'i hadnabyddir fe SQuld yng Nghymru)

Holiadur dethol. Dogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd yw hon ac mae'n cymryd lle'r holiadur cyn cymhwyso neu'r HCC (gweler Polisi Caffael: Holiadur Dethol Safonol (SQ) Nodyn Gweithredu 8/16 gan Wasanaeth Masnachol y Goron o 9^{fed} Medi 2016). Mae'r darparu bod y cam gyntaf o

gydymffurfio tystiolaeth gyda gofynion safonol (fel peidio cael eich eithrio ar gyfer gwaharddiadau gorfodol a bodloni'r meini prawf perthnasol) wedi ei seilio ar hunan-ardystio a thystiolaeth i gael ei ddarparu fel rhag-amod cyn y dyfarniad. Nid yw'r rhan fwyaf o gwestiynau yn orfodol i 'gyffyrddiad ysgafn'. Fodd bynnag, mae'n ymarfer dda i ddilyn y ddull safonol yn rhannol, er argymhellir cyflwyno tystiolaeth yn gynnar yn hytrach nag ar y cam dyfarnu gan ei fod yn ymarfer dda ddiogel yn y farchnad hon, er dyweda'r Nodyn Cyngor nad ydw'n berthnasol yng Nghymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Nodyn Cyngor Caffael (PAN) a dywedant y bydd yn orfodol o fis Hydref. Nid yw'n cyfeirio at 'cyffyrddiad ysgafn'.

Hysbysiad contract

Hysbysiad sy'n dechrau hysbyseb CSUE ar gyfer caffaeliad penodol. Mae'n gosod disgrifiad o'r caffael sydd ei angen, manylion llawn o werth tebygol, proses ceisio a manylion am yr holl nwyddau, gweithiau ac/neu wasanaethau sydd neu gall fod eu hangen.

Hysbysiad Gwybodaeth Flaenrol (HGF)

Hysbysiad Gwybodaeth Flaenrol. Hysbysiad yw hwn sydd yn caniatáu awdurdodau i gyhoeddi ar wefannau gwerthu (drwy broffil) neu hysbysiad CSUE o flaen yr hysbysebion am weithiau, nwyddau neu wasanaethau ar gyfer y 12 mis nesaf ac sy'n caniatáu awdurdodau contractio i hysbysebu a chymryd mantais o gyfyngiadau amser llawi wedi hynny ar gyfer y caffael ei hun.

Manyleb

Disgrifiad yw hwn o'r gwasanaethau sydd eu hangen gan yr awdurdod. Gellir fod yn ddogfen mewnbyn, allbwn neu ganlyniad (gweler isod).

Mewnbyn/allbwn/canlyniad fel y'i defnyddir ar gyfer gwasanaethau a manylebau

Mewnbyn: disgrifiad o'r union wasanaethau sydd i'w ddarparu drwy gyfeirio at tasg ac amser h.y. sut i ymolchi, bwydo, pa mor hir i aros etc.

Allbwn: disgrifiad o'r allbynnau sydd eu hangen h.y. gadael y defnyddiwr yn lan, wedi'i fwydo ac yn hapus ar ddiwedd yr ymweliad.

Canlyniad: beth ddylai'r gwasanaeth ei gyflawni i'r defnyddiwr neu'n ehangach, er enghraifft bod anghenion y defnyddiwr wedi cael eu bodloni a'i fod ef/hi'n hapus neu mae'r gwasanaeth yn galluogi gostwng y nifer o weithiau y ceir ailadrodd derbyniadau i'r ysbyty (gweler Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth berthnasol eraill).

Pecyn Gofal yn y Cartref

Pecyn gofal cartref a ddatblygwyd gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen ar gyfer Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru.

Rhan B

Rhan B o Atodlen 1 o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Roedd hwn yn berthnasol i wasanaethau a gydnabyddir yn wasanaethau nad oeddynt yn debygol o gael unrhyw ddiddordeb trawsffiniol a'u rhestru yn Atodlen 1. Mae gofal cymdeithasol ac iechyd yn enghraifft o'r gwasanaethau hyn. Roedd rhwymedigaethau i gydymffurfio yn brin iawn ac yn y rhan fwyaf o

achosion, nid oedd angen hysbyseb marchnad agored o dan reoliadau 2006 na chwaith gofyniad i ddilyn unrhyw weithdrefn caffael benodol.

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (SI 2015 Rhif102)

Rhyddid gwybodaeth

Crëwyd gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n hawl gyhoeddus i wybodaeth a gadwir gan awdurdodau. Mae'r hawl yn amodol ar nifer o eithriadau er enghraifft gwybodaeth fasnachol sensitif neu bersonol.

System Brynu Dynameg (SBD)

Rhestr agored o ddarparwyr y gall darparwyr newydd ymuno a fo yn ystod ei gyfnod. Mae rheoliad 34 yn gosod darpariaethau cymhleth ar gyfer SBD sydd ddim yn 'cyffyrddiad ysgafn'. Ceir proses dau gam, sy'n gwahanu'r cam achredu (neu dethol) oddi wrth y cam dyfarnu. Nid oes angen y dull hwn ar gyfer 'cyffyrddiad ysgafn'. Gall hyn er enghraifft, i ddarparwyr achrededig i ddarparu gwybodaeth y gellir ei ddefnyddio i'w rhannol cymeradwyo nhw, gan leihau'r ail ran o'r broses dyfarnu i adlewyrchu'r gofyniad am leoliadau sydyn. Gall hyd yn oed fod yn addas i gynnal y dull dyfarnu yn llawn ar gyfer rhai lleoliadau, fel argyfyngau a chreu 'catalog' o ddarparwyr achrededig.

System brynu hyblyg

System caffael ar gyfer caffael 'cyffyrddiad ysgafn' sy'n cyfuno rhai nodweddion fframwaith gyda SBD ond nid yw mor hyblyg â SBD. Nid yw'n ymadrodd wedi ei ddiffinio ond mae'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol gan gomisiynwyr gofal cymdeithasol.

Taliadau uniongyrchol

Cyllid gan awdurdod i unigolion i ganiatáu iddynt brynu pecynnau gofal eu hunain.

Trothwy

Y sbardun gwerth ariannol i orfod cael caffael mewn cydymffurfiaeth gyda gofynion y RCC. Mae'r trothwyon mewn Ewros, ac wedi eu trosi i sterling ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae gwahanol drothwyon ar gyfer gwahanol gaffaeliadau. Mae'r trothwyon i 'cyffyrddiad ysgafn' yn uwch na'r rhai i wasanaethau eraill. I gaffaeliadau a ddechreuwyd rhwng 1^{af} Ionawr 2018 a 31^{ain} Rhagfyr 2019 mae'n £615,278